# Dyfodol Llwyddiannus

## Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

Yr Athro Graham Donaldson CB

Chwefror 2015



ISBN argraffu 978 1 4734 3043 3
ISBN digidol 978 1 4734 3045 7
© Hawlfraint y Goron 2015
WG23258
Darluniadau © Scarlet Design International Ltd 2015

# Llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau

## 13 Ionawr 2015



**Annwyl Weinidog**

Ym Mawrth 2014 gwnaethoch ofyn i mi gynnal Adolygiad sylfaenol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Rwyf yn falch o gyflwyno i'ch sylw yr adroddiad sy'n deillio o'r Adolygiad hwnnw.

Rhaid i mi fynegi eto fy ngwerthfawrogiad o'r ymateb cadarnhaol ac adeiladol iawn a gafwyd i'r Adolygiad ledled Cymru. Mae Tîm yr Adolygiad wedi ymweld ag ysgolion ym mhob rhan o'r wlad ac wedi gweld â'u llygaid eu hunain enghreifftiau lu o waith rhagorol. Rydym wedi clywed barn penaethiaid, athrawon, plant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr, ac wedi bwrw'r rhwyd yn ehangach i gasglu barn a phrofiad o lawer math yng Nghymru. Cafwyd ymateb rhagorol i'm cais am dystiolaeth, a oedd yn cynnwys dros 300 o ymatebion gan blant a phobl ifanc, ac mae'r ymateb hwn wedi bod yn ystyriaeth bwysig. Rwyf hefyd wedi elwa ar brofiad ac ymchwil flaengar rhyngwladol wrth benderfynu ar argymhellion ar gyfer Cymru. Yn ei chyfanrwydd, mae'r dystiolaeth gadarn hon yn sail ddiogel i'm casgliadau a'm hargymhellion.

Mae'r cynigion yr wyf yn eu gwneud yn radical a phellgyrhaeddol. Maent yn gydgysylltiedig a dylid eu hystyried yn set integredig ac nid yn gynigion ar wahân. Maent wedi'u seilio ar y nifer mawr o gryfderau sydd mewn addysg yng Nghymru ac yn ceisio darparu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn ogystal â ffordd gydlynol a dichonadwy o wireddu'r weledigaeth honno. Yn unol â'r cylch gorchwyl a roddwyd i mi, rwyf wedi cyflwyno cynigion ar gyfer gweithredu sy'n elwa ar brofiad o ddiwygiadau mawr yn y cwricwlwm yng Nghymru ac ar draws y byd. Elfen ganolog yn y broses honno fydd sicrhau cyfranogi egnïol a pharhaus gan ymarferwyr addysgol a'r gymuned ehangach.

Mae teitl yr adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn cyfeirio at bwysigrwydd allweddol ysgolion wrth sicrhau lles a llwyddiant pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, a'r wlad gyfan, yn y dyfodol. Rwyf yn hyderus y bydd y cynigion sydd yn yr adroddiad hwn yn eich galluogi chi a'r gymuned addysg ehangach i gryfhau'r cyfraniad hwnnw ymhellach.

Yn gywir



**Yr Athro Graham Donaldson CB**

# Cydnabyddiaethau

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, cefais y fraint o gwrdd â nifer mawr o bobl sy'n teimlo'n frwd ynghylch sicrhau addysg o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc Cymru. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cyfarfodydd hyn, ynghyd â'r cyfle i weld â'm llygaid fy hun enghreifftiau o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud eisoes, wedi bod yn werthfawr dros ben, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am hyn. Mae'r argymhellion yn fy Adolygiad yn awgrymu bod angen newid sylweddol, ond nid yw hynny'n dibrisio o gwbl y cryfderau mawr yn system addysg Cymru sy'n sail i'r adroddiad hwn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr Adolygiad a rhannu eu syniadau a'u profiadau ynghylch y cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Rwyf yn ddyledus iawn i'r holl benaethiaid, athrawon, plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr ac i'r sefydliadau, grwpiau ac unigolion o bob math a roddodd o'u hamser i rannu eu barn drwy ysgrifennu neu i gwrdd â mi a'm tîm. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r undebau llafur am eu hymwneud adeiladol â'r Adolygiad, gan gynnwys y cyfle i gwrdd â'u haelodau ac annerch cynadleddau.

Rwyf yn ddiolchgar i'r rheini a helpodd i ledaenu'r cais am dystiolaeth, a ddenodd fwy na 700 o ymatebion, gan gynnwys mwy na 300 gan blant a phobl ifanc. Hoffwn ddiolch hefyd i Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) am ei ddadansoddiad o'r ymatebion ac i'r Athro Pamela Munn am ei chyngor ar yr agwedd hon ar yr Adolygiad. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd ganddynt o ganlyniad yn ystyriaeth bwysig yn yr Adolygiad.

Rwyf yn ddyledus i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi Ann Keane am yr her a'r anogaeth a roddodd a hefyd am gytuno i ryddhau dau arolygydd i weithio yn fy nhîm. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn am y cymorth hanfodol a roddwyd i'r Adolygiad gan fy nghynghorwyr allanol, Claire Armistead, Owain ap Dafydd a Kevin Tansley, ac am y cyngor dylanwadol a gefais i a'r tîm gan Dr Gill Robinson. Hoffwn gydnabod hefyd y mewnbwn gan gydweithwyr yng Nghymru a thu hwnt a gynigiodd amrywiaeth o safbwyntiau diddorol ar ddatblygiadau a'r arferion gorau mewn addysg ac a gymerodd ran yn greadigol yn ein trafodaethau.

Rwyf yn diolch yn ddidwyll i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a swyddogion Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, am eu cymorth a'u brwdfrydedd diwyro wrth fy ngalluogi i gynnal yr Adolygiad annibynnol hwn.

Gwaith tîm oedd yr Adolygiad i raddau helaeth ac rwyf am ddiolch yn arbennig i'r rheini sydd wedi cydweithio'n agos â mi dros yr wyth mis diwethaf. Rwyf yn ddyledus i Sarah Morgan a Nigel Vaughan am eu hamynedd, eu cyngor proffesiynol a'u cefnogaeth gyson. Roedd tîm y gwasanaeth sifil, Kerry Davies, Denize Morris a Megan Powell, o dan arweiniad medrus Jo Trott, wedi gofalu amdanaf yn ddi-feth ac wedi ymateb yn greadigol ac yn ddiflino i'r galwadau cyson, ac anymarferol yn aml, gennyf fi.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar y rheini a enwyd uchod am gynnwys yr adroddiad hwn ond maent i gyd wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy at ei ddatblygu.

**Graham Donaldson**

# Cynnwys


»» **Pennod 1:** Trosolwg 5

»» **Pennod 2:** Yr Adolygiad – Prosesau a Thystiolaeth 13

»» **Pennod 3:** Dibenion y Cwricwlwm 21

»» **Pennod 4:** Strwythur 33

»» **Pennod 5:** Addysgeg 63

»» **Pennod 6:** Asesu 73

»» **Pennod 7:** Goblygiadau 87

»» **Pennod 8:** Casgliadau ac Argymhellion 105

»» **Atodiad** 120



# **Pennod 1:** Trosolwg

Wrth gomisiynu'r Adolygiad hwn o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru'n gallu elwa ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu gorau posibl ar gyfer diwallu ei anghenion presennol a'i baratoi ar gyfer ei fywyd yn y dyfodol. Dim ond am gyfnod cymharol fyr y bydd ein plant a'n pobl ifanc yn yr ysgol. Rhaid i ni wneud defnydd doeth a chynhyrchiol o'r amser hwnnw i helpu pob un ohonynt i dyfu'n unigolion galluog ac iach sydd â chymeriad crwn a fydd yn gallu ffynnu yn wyneb heriau'r dyfodol.

Nid yw Cymru'n eithriad o ran ei hawydd i sicrhau bod ei holl blant a phobl ifanc yn elwa ar addysg berthnasol o'r ansawdd gorau. Drwy'r byd mae gwledydd yn gweld fwyfwy fod perthynas ddwyffordd rhwng ansawdd eu system addysg ac iechyd eu cymdeithas a'u heconomi'n gyffredinol. Un agwedd ar y duedd hon yw bod natur y cwricwlwm ysgol wedi dod yn destun dadlau brwd wrth drafod polisi cenedlaethol mewn llawer o wledydd. Mae'r hyn y mae ein plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol yn bwysicach nag erioed ac eto, ar yr un pryd, mae'r dasg o bennu beth sydd i'w ddysgu yn fwy ymestynnol nag erioed.

Mae'r Adolygiad hwn wedi bod yn gyfle i ailystyried ac ailddatgan dibenion sylfaenol addysg i blant a phobl ifanc Cymru ac i argymell cwricwlwm a threfniadau asesu a fydd yn gallu cyflawni'r dibenion hynny orau.

## Beth yw ystyr y 'cwricwlwm'?

Yn aml, mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar fframwaith o byncIau i'w haddysgu dros gyfnod diffiniedig fel y cyfnodau penodol mewn addysg gynradd neu uwchradd. Gall y fframwaith hwnnw fod yn gyffredinol iawn neu'n fwy penodol a gallai gynnwys, er enghraifft, nodi'r amser sydd i'w ddyrannu ar gyfer pob pwnc a disgrifio'r hyn sydd i'w gynnwys mewn gwahanol gyfnodau. Yn ei hanfod, mae'r ffordd hon o bennu'r cwricwlwm yn golygu diffinio'r mewnbynnau y dylai pob plentyn, neu grwpiau penodol o blant, eu profi a dyma'r dull sydd wedi'i fabwysiadu mewn llawer o wledydd, gan gynnwys Cymru, yn rhan olaf y ganrif ddiwethaf. Mae wedi'i seilio'n gyffredinol hefyd ar y gred bod gwybodaeth pwnc wedi sefyll prawf amser ac mai hon yw'r ffordd orau o hyd o sicrhau addysg gadarn a pherthnasol.

Mae dull amgen, sy'n fwyfwy cyffredin yn rhyngwladol, yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r deilliannau a ddisgwylir o ddysgu. Mae'r rhai sydd wedi'i gynnig yn dadlau bod dysgu'n cael ei ffurfio i raddau helaeth gan bethau heblaw pynciau a meysydd llafur penodol, a bod cyflawni dibenion y cwricwlwm yn galw am ddulliau sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol ag anghenion personol, cymdeithasol ac economaidd sy'n datblygu. Yn ôl y diffiniad hwn, mae'r cwricwlwm yn cael ei fynegi'n aml yn nhermau'r sgiliau allweddol, capasiti neu gymwyseddau a gaiff eu meithrin mewn plant a phobl ifanc.

Mae unrhyw ddadl sy'n gosod 'pynciau' yn erbyn 'sgiliau/cymwyseddau' yn arwain at begynu di-fudd. Mae'n bwysig bod y cwricwlwm, dysgu ac addysgu'n ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddysgu mewn ffyrdd sy'n cwmpasu'r cyfraniad hanfodol a geir gan ddysgu seiliedig ar ddisgyblaethau yn ogystal â'r wybodaeth, y sgiliau a'r anian a fydd yn eu helpu i gwrdd ag anghenion heddiw a heriau yfory.

Yn ogystal â hyn, mae'r ffordd o asesu cynnydd a deilliannau ac o ddefnyddio'r canlyniadau o asesu o'r fath yn cael effaith hanfodol ar ddysgu. Mae asesu'n rhan hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu ac felly mae angen ei gysylltu mewn ffordd sylfaenol â'r cwricwlwm. Os bydd prosesau atebolrwydd yn cael y lle blaenaf wrth asesu, fel y gwelir weithiau, gall hynny niweidio'r dysgu gan blant a phobl ifanc.

Mae'r diffiniad o gwricwlwm sydd wedi'i ddefnyddio yn yr Adolygiad hwn yn ystyried yr holl ffactorau hyn.

### Argymhelliad

1. **Dylai'r diffiniad o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru gynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu y mae'r ysgol yn eu cynllunio wrth geisio cyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt.**

## Beth yw'r prif ddylanwadau ar y cwricwlwm?

Mae cynnwys y cwricwlwm ysgol ym mhob gwlad yn agored i nifer o ddylanwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Ar y naill law, mae rhagdybiaethau ac arferion o ran yr hyn yw hanfodion addysg dda yn gallu gwreiddio i'r fath raddau dros amser fel eu bod yn dod yn gred sylfaenol sydd bron yn amhosibl ei herio. Yn aml, bydd cymdeithas – a rhieni a gofalwyr yn enwedig – yn disgwyl deall yr hyn y mae plant yn ei wneud yn yr ysgol yn nhermau eu profiadau eu hunain yn y gorffennol. Gallant boeni y bydd unrhyw wahaniaethau'n golygu arbrofi a allai beryglu dyfodol y plant. Mae strwythur y proffesiwn addysgu (lle y ceir athrawon cyffredinol mewn ysgolion cynradd ac athrawon pwnc arbenigol mewn ysgolion uwchradd, er enghraifft) hefyd yn dylanwadu ar y ffordd o drefnu'r cwricwlwm, a'r system ysgolion ei hun. Mae'n anorfod bod y seilweithiau sy'n datblygu i gynnal addysg wedi'u tueddbennu at sicrhau bod y disgwyliadau presennol yn cael eu cyflawni, ac felly gallant warantu parhad y disgwyliadau hynny. Felly mae nifer o dueddiadau pwerus yn gallu mygu'r awydd i adnewyddu'r cwricwlwm. Mae tueddiadau o'r fath yn dylanwadu ar y cwricwlwm a gallant hefyd bennu beth y mae pobl yn ei ystyried yn bosibl ac yn ddymunol wrth ddiwygio'r cwricwlwm.

Ar y llaw arall, mae'r cwricwlwm yn agored bob amser i bwysau dros newid, a bydd ffurf benodol y cwricwlwm yn newid dros amser wrth ymateb i amgylchiadau. Gellir cael rhai newidiadau o ganlyniad i ddatblygiadau mewn theori addysg, seicoleg ac, yn fwy diweddar, niwrowyddoniaeth. Yn fwy aml, bydd newidiadau'n digwydd mewn ymateb i newid mewn amgylchiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd ac yn cael hwb ychwanegol gan fesuriadau

perfformiad rhyngwladol. Mae pwysau o'r fath yn gallu gyrru'r cwricwlwm i wahanol gyfeiriadau, er enghraifft drwy ychwanegu cynnwys a dimensiynau newydd fel sgiliau allweddol mewn ymateb i anghenion a welir ar y pryd. Gallant arwain hefyd at duedd ddi-fudd i ganolbwyntio ar yr agweddau hynny lle y mae perfformiad yn cael ei fesur ac adroddiadau cymharol yn cael eu cyhoeddi arno. Wedyn gellir parhau â'r newidiadau hyn, pa un a ydynt yn dal yn berthnasol neu beidio, gan eu hychwanegu at yr agweddau mwy 'sylfaenol' ar y cwricwlwm.

Mae'r grymoedd allanol wedi dwysáu yn y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu'r effaith ar wledydd, cymdeithasau ac unigolion o ganlyniad i globaleiddio, arloesi technegol a thueddiadau cymdeithasol hirdymor. Mae'r galw am bobl ifanc sydd â gwell lefelau o ran llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach, gan gynnwys meddwl mewn modd beirniadol, creadigrwydd a datrys problemau, wedi ysgogi tuedd ryngwladol i fabwysiadu cwricwla sy'n rhoi mwy o bwys ar ddatblygu sgiliau, ochr yn ochr â'r dull traddodiadol o addysgu pynciau neu 'feysydd dysgu', neu fel rhan o'r dull hwnnw. Weithiau bydd y newidiadau a geir mewn ymateb i bwysau o'r fath yn herio'r dibenion i addysgu sydd wedi'u derbyn hyd yn hyn, er enghraifft lle y mae pwysau economaidd yn cyfyngu ar yr hyn a addysgir ar draul y dyniaethau neu'r celfyddydau, nes disodli'r pynciau hynny hyd yn oed. Ceir tyndra cyson rhwng yr awydd i gadw ac adeiladu ar seiliau'r gorffennol ac ymateb i'r anghenion cydnabyddedig a'r pwysau economaidd a geir ar y pryd.

Mae anghenion cyflogwyr a'r gweithle hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn galluogi pobl ifanc i symud yn rhwydd a llwyddiannus i fyd gwaith. Yn benodol, mae pryderon ynghylch cymwyseddau gwyddonol, technolegol, peirianyddol a mathemategol (STEM) ymysg gweithlu'r dyfodol wedi dylanwadu ar y flaenoriaeth gymharol a roddir i'r pynciau hyn. Mae effaith bellgyrhaeddol y



datblygiadau ym maes technoleg yn enghraifft amlwg o'r ffordd y mae'r cyd-destun i waith ein hysgolion yn parhau i ddatblygu. Mae ein plant a phobl ifanc eisoes yn rhan o fyd digidol ac mae eu ffyrdd o ryngweithio, dysgu ac ymlacio'n cael eu cydblethu fwyfwy â gwahanol fathau o dechnoleg sy'n newid yn gyflym. Er mwyn cymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas fodern a'r gweithle, mae angen cynyddol eisoes am lefelau uwch o gymhwysedd digidol ac mae'r broses honno'n sicr o barhau i'r dyfodol, er na allwn ddychmygu'r dyfodol hwnnw. Fel y mae Tyler Cowen yn dweud yn ei lyfr *Average is Over*, 'It might be called the age of genius machines, and it will be the people that work with them that will rise...we (will have) produced two nations, a fantastically successful nation, working in the technologically dynamic sectors, and everyone else. Average is over'[1]. Mae angen i blant a phobl ifanc ddysgu sut i wneud mwy na defnyddio technoleg yn unig a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymwneud â'r dechnoleg honno mewn ffordd greadigol fel dysgwyr ac fel aelodau o weithlu technegol gymwys y dyfodol.

Os ceir amharodrwydd i ildio agweddau ar y cwricwlwm sydd heb fawr o berthnasedd wrth ychwanegu disgwyliadau newydd yr un pryd, gall hynny roi pwysau cynyddol ar ysgolion ac athrawon. Er mwyn ceisio helpu athrawon ac ysgolion i ymdopi, gwelir tuedd weithiau i greu dulliau cynllunio mwyfwy cymhleth sydd yn eu tro'n tynnu sylw oddi wrth anghenion plant a phobl ifanc a'r pwysigrwydd o gael addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth.

## Sut y mae'r cwricwlwm ysgol wedi datblygu yng Nghymru?

Mae'r cwricwlwm yn ysgolion Cymru, yn yr un modd â rhannau eraill y Deyrnas Unedig, wedi adlewyrchu syniadau cyffredin yr oes, a'r rheini'n amrywio o athroniaeth 'Plowden' ym 1967[2] a'i phwyslais ar addysg blentyn-ganolog wedi'i llywio gan weithwyr proffesiynol i'r rhesymeg a oedd yn sail i'r cwricwlwm cenedlaethol ym 1988 a oedd yn cael ei arwain o'r canol ac yn canolbwyntio ar bynciau. Roedd y penderfyniad ym 1988 i ddiffinio'r cwricwlwm ysgol mewn statud yn newid sylfaenol o'r arfer blaenorol yn y Deyrnas Unedig ac yn adlewyrchu pryder ynghylch profiad addysgol plant a phobl ifanc ledled y wlad bryd hynny. Credwyd bod diffyg dealltwriaeth glir a chyffredin o beth oedd cwricwlwm derbyniol wedi arwain at anghysondeb annerbyniol. Roedd pryderon hefyd ynghylch effaith bosibl damcaniaethau addysgol 'ffasiynol' ar ddysgu plant.

Amcan y cwricwlwm cenedlaethol oedd sefydlu hawl i bob plentyn a pherson ifanc mewn ysgol wladol dderbyn addysg a fyddai'n cynnwys gwybodaeth a sgiliau a oedd wedi'u pennu ar lefel genedlaethol. Byddai'n sefydlu nodau addysgol cyffredin ledled Cymru; yn hwyluso'r symud rhwng cyfnodau allweddol ac ysgolion; yn sicrhau hawl i dderbyn addysg eang a chytbwys i bob plentyn a pherson ifanc; yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu datblygu'n effeithlon, gan

---

[1] Cowen, T (2013) *Average is Over: Powering America Beyond the Age of the Great Stagnation* Penguin Group

[2] Central Advisory Council for England (1967) *Children and their Primary Schools* HMSO

gynnwys hyfforddiant athrawon; ac yn caniatáu asesu a chymharu perfformiad ysgolion. Er nad oedd pob un o'r manteision posibl hyn wedi'i gwireddu, mae'r nodau hyn yn rhai gwerthfawr o hyd a bydd angen eu hystyried wrth lunio unrhyw gwricwlwm a threfniadau asesu newydd.

Yn y cyfnod er 1988, profwyd pwysau mawr wrth i lywodraethau ymateb i bryderon am safonau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r hyn a ddisgwylir oddi wrth ysgolion wedi cynyddu'n ddiddiwedd er iddi fod yn anodd dod o hyd i dystiolaeth o ffyrdd i sicrhau gwelliant. Mae gwersi pwysig i'w dysgu o'r profiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymateb i'r pwysau hyn yn gyson, fel y gwelwyd yn y newidiadau yn y cwricwlwm yn 2008, mewn adroddiadau a mentrau pwysig i wella ysgolion, ac yn y diwygio mewn cymwysterau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd. Mae hefyd wedi comisiynu cyfres o adroddiadau gan grwpiau 'Gorchwyl a Gorffen' sy'n ymdrin â materion fel y lle i'r celfyddydau a diwylliant, gweithgarwch corfforol a chwaraeon, a TGCh a chyfrifiadura mewn dysgu gan blant a phobl ifanc, a lle'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yng nghwricwlwm ysgolion uwchradd. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos eto drwy gyhoeddi ei chynllun gwella[3] a chomisiynu'r Adolygiad hwn a'r Adolygiad o addysg athrawon gan yr Athro John Furlong ei bod yn benderfynol o sicrhau gwelliant.

Mae egwyddor yr hawl gyffredin wedi'i chadw yn y naill ddatblygiad ar ôl y llall mewn polisi addysg. Ymhlith y datblygiadau hyn y mae: llunio *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cymru, 2006); cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn lle Cyfnod Allweddol 1; ffurfio Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) statudol a chynhwysol mewn ymateb i dystiolaeth gynyddol o broblemau yn yr agweddau hanfodol hyn ar addysg; datblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt; a mwy o bwyslais ar sgiliau ehangach ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

## Y ddadl o blaid newid

Mae'r ddadl o blaid newid yn pwyso'n rhannol ar bryderon ynghylch diffygion sydd wedi'u canfod yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o ddiwygiadau a mentrau, mae nifer o faterion ymarferol a sylfaenol i'w hystyried yng nghyswllt y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth o arolygon y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), perfformiad cymharol plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn cymwysterau cenedlaethol, a gwerthusiadau yn adroddiadau Estyn i gyd yn dangos nad yw'r lefelau cyrhaeddiad mor uchel ag y gallent ac y dylent fod. Mewn adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a gyhoeddwyd yn 2014[4], nodwyd bod cyfran y bobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru sy'n isel eu perfformiad yn parhau'n uchel a daeth

---

[3] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* Llywodraeth Cymru

[4] OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* OECD Paris

i'r casgliad bod y trefniadau presennol ar gyfer asesu a gwerthuso'n anfoddhaol. Mynegwyd pryderon ynghylch dilyniant mewn addysg gynradd ac ar bwyntiau trosglwyddo rhwng cyfnodau. Cafwyd canfyddiad pendant hefyd fod angen gwelliant sylfaenol mewn addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd ac ym mhrofiad addysgol y bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae arolygon rhyngwladol fel arolygon PISA yr OECD yn tynnu sylw at wahaniaethau mewn perfformiad rhwng gwledydd fel bod pryderon yn codi mewn rhai gwledydd ynghylch colli'r gallu i gystadlu ar lefel ryngwladol os bydd eu systemau addysg yn cael eu gweld yn wan. Mae'r perfformiad siomedig Cymru yn y naill ar ôl y llall o arolygon PISA wedi bod ac yn parhau'n ysgogydd pwysig dros newid.



Un her fawr ychwanegol yw bod anfantais o lawer math yn cael effaith niweidiol yn rhy aml ar gyflawniad addysgol a lles personol plant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffyrdd a fydd yn ennyn diddordeb ym mhob plentyn a pherson ifanc ac yn ei alluogi i lwyddo. Mae cwricwlwm sy'n gosod y nod yn uchel i bawb yn gallu helpu ysgolion i drechu'r amgylchiadau sy'n gyrru cynifer o blant a phobl ifanc i dangyflawni yn eu haddysg.

Mae'r rhagnodi a manylu helaeth sydd yn y cwricwlwm cenedlaethol, ynghyd â mecanweithiau atebolrwydd sy'n gynyddol bwerus, wedi tueddu i greu diwylliant lle y mae rôl greadigol yr ysgol wedi'i lleihau a chyfraniad proffesiynol y gweithlu wedi'i danddatblygu. Mae graddau'r rheolaeth drwy ddeddfwriaeth a'r mecanweithiau atebolrwydd cysylltiedig, a oedd yn cael eu gweld yn angenrheidiol ar y pryd, wedi cyfyngu ar broffesiynoldeb, ystwythder ac ymatebolrwydd wrth ddelio â materion sy'n datblygu ac wedi cymell gwleidyddion i ymyrryd yn rhy aml mewn materion anstrategol. Yn achos llawer o athrawon ac ysgolion, y dasg allweddol bellach yw cyflawni disgwyliadau allanol yn gywir, ac mae hynny wedi arwain at lai o allu i ymateb yn greadigol ar lefel leol i anghenion plant a phobl ifanc. O ganlyniad i hyn yn rhannol, mae rhan helaeth o'r cwricwlwm y mae plant a phobl ifanc yn ymgymryd ag ef wedi colli cysylltiad â'i nodau cydnabyddedig ac yn canolbwyntio'n ormodol ar y tymor byr. Ar ei waethaf, gall hyn arwain at gyfyngu ar genhadaeth ysgolion cynradd i addysgu llythrennedd a rhifedd a chenhadaeth ysgolion uwchradd i baratoi ar gyfer cymwysterau.

Mae'r diffygion a welir yn dangos bod angen gwella'r trefniadau presennol ond mae'r ddadl o blaid newid yn fwy sylfaenol o lawer. Mae nodweddion hanfodol y cwricwlwm a ddyfeisiwyd ym 1988 yn adlewyrchu byd nad oedd eto wedi gweld y We Fyd-Eang a'r cynnydd mewn technoleg a globaleiddio sydd wedi trawsnewid ein ffordd o fyw a gweithio. Mae goblygiadau pellgyrhaeddol yn y newidiadau hyn o ran beth y mae angen i blant a phobl ifanc ei ddysgu, a'r ffordd o wneud hynny, yn ystod eu haddysg statudol.

Mae'r cwricwlwm wedi cael ei orlwytho a'i gymhlethu ac mae rhannau ohono wedi dyddio. Nid yw'r trefniadau asesu'n cyfrannu fel y dylent at wella dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu ysgolion ac athrawon i ymateb i anghenion sy'n newid yn gyflym. Fel y nododd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) yn y cynigion ar gyfer addysg a gyflwynodd yn ddiweddar, 'Systemic change is needed to align the curriculum, examinations and accountability framework with the outcomes we are looking for'[5]. Gyda'i gilydd, nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu presennol yn cwrdd bellach ag anghenion plant a phobl ifanc Cymru. Mae'r ddadl o blaid newid sylfaenol yn un rymus.

## Tasg yr Adolygiad

Cynhaliwyd yr Adolygiad presennol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu o fewn y cyd-destun hwn. Gan gydnabod yr anfanteision posibl o'r gorlwytho, y cymhlethdod a'r elfennau diangen yn y cwricwlwm sydd wedi'u disgrifio uchod, gofynnwyd i'r Adolygiad gymryd cam yn ôl ac edrych yn sylfaenol ar y ffyrdd y mae ysgolion heddiw'n gallu paratoi pobl ifanc ar gyfer dyfodol cyffrous ond ansicr. Mae cylch gorchwyl yr Adolygiad ar gael yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/terms-of-reference/?skip=1&lang=cy.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb, mae'r Adolygiad wedi ceisio nodi'n glir beth yw:

- dyheadau pobl Cymru ar gyfer eu hysgolion
- yr egwyddorion y dylid eu dilyn wrth gynllunio'r cwricwlwm
- dibenion y cwricwlwm
- y ffordd orau o drefnu a disgrifio'r cwricwlwm er mwyn cyflawni'r dibenion a'r egwyddorion hynny
- goblygiadau'r cynigion ar gyfer newid o safbwynt addysgu a dysgu
- y lle sydd i asesu wrth helpu i gyflawni dibenion y cwricwlwm ac wrth bennu'r graddau y mae'r dibenion yn cael eu cyflawni
- y goblygiadau o ran capasiti athrawon, systemau atebolrwydd a ffactorau eraill sy'n ysgogi ansawdd addysgol
- y ffyrdd gorau o weithredu'r cynigion sy'n codi o'r Adolygiad, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng penderfynu ar lefel genedlaethol a lefel leol.

Y bwriad wrth gyflwyno casgliadau ac argymhellion yr Adolygiad yw cynnig dadl gryf dros ddyfodol llwyddiannus i addysg ysgol yng Nghymru. Yn y bennod nesaf, dangosir sut yr oedd yr Adolygiad wedi llunio'r argymhellion hyn drwy raglen gynhwysfawr o ymgysylltu a chasglu tystiolaeth ac wedi rhoi prawf ar y cynigion hynny wedyn wrth eu datblygu a'u mireinio.

---

[5] CBI (2014) *Step Change – A New Approach for Schools in Wales* CBI



# **Pennod 2:** Yr Adolygiad – Prosesau a Thystiolaeth

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, roeddem wedi ymrwymo o'r dechrau i gynnwys cynifer â phosibl o bobl yng Nghymru yn y broses. Rhwng Mawrth a Rhagfyr 2014, roedd aelodau o Dîm yr Adolygiad wedi ymgymryd i gwrdd ag ystod eang o randdeiliaid, gan ymweld ag oddeutu 60 o ysgolion, gan gynnwys ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, sefydliad troseddwyr ifanc a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith. Roeddem wedi cwrdd nid yn unig â phenaethiaid, rheolwyr a'u staff ond hefyd â phlant a phobl ifanc ac, os oedd yn bosibl, eu rhieni a gofalwyr. Cawsom gyfarfodydd â chynrychiolwyr y sector addysg bellach a phrifysgolion. Hefyd roedd grwpiau o ymarferwyr o wahanol fathau o ysgolion ledled Cymru wedi cymryd rhan mewn nifer o seminarau lle'r oeddem wedi rhoi prawf ar ein syniadau a'u datblygu. Cafwyd cyfoeth o dystiolaeth yn y cyfarfodydd hyn sydd wedi cael effaith bellgyrhaeddol ar syniadau'r Adolygiad.

Roedd yr Adolygiad wedi ymwneud hefyd ar lefel unigol ag amrywiaeth fawr o sefydliadau cynrychiadol ym mhob rhan o Gymru sydd wedi cyfrannu tystiolaeth bwysig o'u gwahanol safbwyntiau, gan gynnwys safbwynt y cyflogwr. Mae rhestr o'r sefydliadau hyn ar wefan yr Adolygiad.

Gwnaeth yr Adolygiad gais am dystiolaeth ledled Cymru, gan annog rhanddeiliaid o bob rhan o'r wlad i gyflwyno eu barn a helpu i ddylanwadu ar ganlyniad yr Adolygiad. Er mwyn sbarduno dadl a thrafodaeth, roedd y cwestiynau yn y cais am dystiolaeth wedi'u geirio'n fwriadol mewn ffordd eang a phenagored ac yn cynnwys cwestiynau fel 'Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?'. Roeddem wrth ein bodd o gael mwy na 700 o ymatebion i'r cais, a mwy na 300 o'r rheini oddi wrth y plant a phobl ifanc eu hunain. Er mwyn gwneud cyfiawnder â natur amrywiol yr ymatebion, penodwyd WISERD i ddadansoddi'r ymatebion[6].

Yn ogystal â chynnal ei ymchwil ei hun, roedd yr Adolygiad hefyd wedi troi at y cyfoeth o dystiolaeth sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys adroddiadau Estyn, dogfennau polisi Llywodraeth Cymru (ynghyd ag adroddiadau gwerthuso mewn rhai achosion) a'r dystiolaeth bwysig sydd yn yr adroddiadau gan nifer o adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys:

- adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru
- yr Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
- adroddiad terfynol grŵp adolygu'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru
- adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol

---

[6] Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur – Adroddiad Terfynol* Llywodraeth Cymru

- yr adroddiad ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru
- yr adroddiad ar *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*
- Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.

## Egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm

Wrth symud ymlaen o'r cyfnod o gasglu tystiolaeth at lunio cynigion ar gyfer y cwricwlwm ac asesu, datblygodd yr Adolygiad set o egwyddorion ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm fel a ganlyn.

**Egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm – dylai'r cwricwlwm fod:**

- **yn ddilys**: wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru ac yn gyson â set o ddibenion cytûn a datganedig
- **wedi'i seilio ar dystiolaeth**: yn gwneud defnydd o'r arferion gorau presennol yng Nghymru a thu hwnt ac o ymchwil ddibynadwy
- **yn ymatebol**: yn berthnasol i anghenion heddiw (unigol, lleol a chenedlaethol) ond hefyd yn rhoi i'r holl bobl ifanc yr wybodaeth, y sgiliau a'r anian y bydd arnynt eu hangen i wynebu heriau'r dyfodol fel dysgwyr gydol oes
- **yn gynhwysol**: yn hawdd i bawb ei ddeall, gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel a chael ystyried ei farn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a barn rhieni, gofalwyr a chymdeithas ehangach
- **yn uchelgeisiol**: yn ymgorffori disgwyliadau mawr heb osod terfynau artiffisial ar gyflawniadau a heriau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc
- **yn rymusol**: yn datblygu cymwyseddau a fydd yn galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus yn eu bywydau yn y dyfodol
- **yn unedig**: yn caniatáu parhad a dilyniant gyda chydrannau sy'n cyfuno ac yn datblygu o gam i gam
- **yn ddiddorol**: yn hybu mwynhad o ddysgu a boddhad wrth feistroli cynnwys ymestynnol
- **wedi'i seilio ar sybsidiaredd**: yn ennyn hyder ym mhawb, gan gymell perchenogaeth briodol a phenderfynu gan y rheini sydd agosaf at y broses addysgu a dysgu
- **yn hawdd ei drin**: yn cydnabod y goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol i'w gynnal.

Rydym wedi gwerthuso'r arferion presennol ar sail yr egwyddorion hyn ac wedi'u dilyn wrth lunio a rhoi prawf ar y cynigion ar gyfer y dyfodol.

## Beth yw'r gwersi o'r dystiolaeth o Gymru?

Mae nifer o themâu'n codi dro ar ôl tro yn yr holl dystiolaeth a gasglwyd ledled Cymru. Roedd yn bwysig ystyried y themâu hyn wrth ddatblygu'r cynigion.

Mae'r dystiolaeth o'n trafodaethau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod cefnogaeth barhaus i'r Cyfnod Sylfaen, y FfLlRh, *Ar Drywydd Dysgu*, y CBC newydd yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt, a'r bwriad i gyflwyno sgiliau ehangach ar draws y cwricwlwm. Mae ymrwymiad cadarn hefyd i'r Gymraeg a dwyieithrwydd, ac i'r egwyddor o addysg gynhwysfawr, gynhwysol, a'r nod o gynnwys dimensiwn Cymreig yn addysg yr holl blant a phobl ifanc. Ategwyd y farn gadarnhaol hon yn yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth lle y nodwyd mai'r 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru a grybwyllwyd amlaf yw 'y Cyfnod Sylfaen, y Gymraeg a dwyieithrwydd (yn enwedig ymhlith ymatebwyr ifanc), a'r ffocws ar hunaniaeth Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig'[7].

Cafwyd awgrym cryf mewn trafodaethau â rhanddeiliaid fod gwir awydd ymysg gweithwyr proffesiynol i ysgolion ac athrawon gael mwy o ymreolaeth (ond nid ymreolaeth lwyr) i wneud eu penderfyniadau eu hunain o fewn fframwaith ar gyfer cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n ddiddorol nodi bod y mwyafrif llethol o blant a phobl ifanc wedi crybwyll yn eu hymatebion i'r cais am dystiolaeth 'nad oes gwahaniaeth os ydych chi'n astudio pethau gwahanol i'ch ffrindiau yn yr ysgol'[8].


Yn achos llawer o athrawon ac ysgolion, y dasg allweddol bellach yw cyflawni'r disgwyliadau allanol sydd wedi'u pennu ar gyfer y cwricwlwm ac atebolrwydd yn gywir, ac mae hynny wedi arwain at lai o greadigrwydd a llai o allu i ymateb ar lefel leol i anghenion plant a phobl ifanc unigol. O ystyried hyn, nid yw'n syndod o bosibl fod cefnogaeth sylweddol hefyd, yn ôl pob golwg, i newid y ffordd o drefnu'r cwricwlwm, gan fod nifer o blaid symud oddi wrth gwricwlwm wedi'i seilio ar bynciau at ddull wedi'i seilio ar feysydd dysgu neu at drefnu dysgu ar sail sgiliau a/neu themâu. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu i gyflwyno elfen o ddilyniant mewn addysg gynradd ac ar bwyntiau trosglwyddo rhwng cyfnodau addysg nad oedd yn bodoli ar hyn o bryd.

Un testun pryder a godwyd droeon gan y plant a phobl ifanc a siaradodd â Thîm yr Adolygiad oedd eu canfyddiad bod y cwricwlwm ysgol presennol wedi dyddio mewn perthynas â thechnoleg ddigidol. Cyfeiriwyd at ffyrdd llafurus o'u haddysgu i drin meddalwedd a oedd yn hawdd ei defnyddio'n reddfol neu a oedd wedi dyddio'n barod yn eu barn nhw. Yn yr un modd, roedd cynrychiolwyr busnes yn bryderus iawn bod ysgolion wedi colli cysylltiad â datblygiadau mewn gweithleoedd digidol. Credent fod y gallu i ddefnyddio technoleg yn greadigol i ymchwilio a datrys problemau'n gymwyseddau allweddol ac roeddent am weld y cymwyseddau hyn mewn darpar weithwyr.

---

[7] Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur – Adroddiad Terfynol* Llywodraeth Cymru

[8] ibid. WISERD (2015)


CASGLU TYSTIOLAETH
CWRICWLWM
EDRYCHWYD AR ADDYSG AR DRAWS Y DU
Ymwelwyd â thua 60 ysgol
AR DRAWS
TYSTIOLAETH
EDRYCHWYD AR ADDYSG AR DRAWS Y BYD
TRAFODAETHAU Â RHANDDEILIAID
Ymchwil, Adroddiadau, Adolygiadau.
Roedd gwrando wrth wraidd yr adolygiad.
CASGLU
CYMRU
Tua 700 o ymatebion i'r cais am dystiolaeth
Dros 300 gan blant a phobl ifanc
Beth a glywyd?

Yn ogystal â hyn, mae awydd ymysg plant a phobl ifanc yn benodol, er nad yw'n gyfyngedig iddyn nhw, i weld mwy o bwyslais ar gymwyseddau cymdeithasol cyffredinol (sgiliau bywyd a hyder personol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)), sgiliau sylfaenol (h.y. llythrennedd a rhifedd), mwy o addysg alwedigaethol a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Mae'r adroddiad gan WISERD yn awgrymu bod y farn hon i'w gweld hefyd mewn ymatebion i'r cais am dystiolaeth. Fel y mae'n nodi yn ei ddadansoddiad, roedd rhanddeiliaid yn teimlo ' ... dylai ysgolion fod yn gwneud mwy na dim ond trosglwyddo gwybodaeth. Er bod dysgu llwyddiannus fel un o ddeilliannau addysg o werth mawr i bob rhanddeiliad (gan gynnwys plant a phobl ifanc), roedd amrywiaeth o ddeilliannau eraill o werth mawr hefyd. Roedd cymwyseddau cymdeithasol cyffredinol, sgiliau bywyd a hyder personol oll yn cael eu hystyried yn bethau pwysig i'w cael o'r ysgol'[9]. Mae plant a phobl ifanc am gael gwersi sy'n fwy perthnasol a diddorol, gyda mwy o wersi ymarferol, mwy o hwyl, mwy o ryngweithio, a mwy o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd teimlad bod y brwdfrydedd mwy cyffredinol dros ddysgu wedi cael ei aberthu yn yr ymgiprys am gymwysterau.

Y neges allweddol arall y mae'n werth tynnu sylw ato yma yw bod teimlad cryf iawn bod angen newid y dull presennol o asesu, ymgymhwyso a rheoli perfformiad. Roedd bron un ym mhob tri o'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth yn cyfeirio at hyn ac roedd yn thema a gododd dro ar ôl tro yn ein cyfarfodydd â rhanddeiliaid.

Mae nifer o'r canfyddiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad diweddar gan OECD, *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* (2014). Mae'r adroddiad yn enwi pedwar maes y credir bod angen i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth iddynt ac mae pob un ohonynt yn berthnasol, i wahanol raddau, i'r Adolygiad hwn.

- Sicrhau bod ysgolion yn cwrdd ag anghenion dysgu eu holl fyfyrwyr.
- Meithrin cyfalaf proffesiynol a chydgyfrifoldeb ym mhob rhan o'r system.
- Datblygu fframwaith cydlynol ar gyfer asesu a gwerthuso i hybu gwelliant.
- Diffinio strategaeth addysg hirdymor wedi'i seilio ar nifer dethol o flaenoriaethau craidd, gan gynllunio a darparu adnoddau digonol ar ei chyfer a chynnwys strwythurau priodol ar gyfer ei chynnal a'i llywodraethu.

## Beth yw'r gwersi o'r dystiolaeth ehangach?

Roedd yr Adolygiad hefyd wedi gwneud defnydd o wahanol fathau o dystiolaeth o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thystiolaeth ryngwladol ar ffurf trafodaethau, ymweliadau, papurau ymchwil a dogfennau polisi ymysg pethau eraill. Mae'n glir nad oes un templed cyffredinol ar gyfer cwricwlwm 'da' – mae llawer yn dibynnu ar amodau, gwerthoedd a diwylliant lleol a chenedlaethol. Mewn geiriau eraill, mae cwricwlwm llwyddiannus yn un sy'n 'ddilys'. Felly, er nad yw'r dystiolaeth ryngwladol yn gallu rhoi model ar gyfer cwricwlwm, mae'n cynnig cipolwg gwerthfawr ar y cyd-destun rhyngwladol.

- Mae PISA ac arolygon rhyngwladol eraill yn ddylanwad mawr yn aml ar ddatblygiadau polisi rhyngwladol.

---

[9] Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur – Adroddiad Terfynol* Llywodraeth Cymru

- Arfer cyffredin yw defnyddio cwricwlwm cenedlaethol statudol i hyrwyddo cysondeb a hawliau ond mae'r graddau y mae'r manylion yn cael eu diffinio drwy statud yn amrywio'n fawr.
- Mae egwyddor sybsidiaredd yn gyffredin ond nid yw'n cael ei dilyn ym mhob man. Mae'n ymddangos bod tuedd gynyddol i bennu nodau cenedlaethol mewn manylebau a hyrwyddo mwy o benderfynu ar lefel leol, gan gydnabod cyfyngiadau'r dulliau sydd wedi'u seilio ar gydymffurfio.
- Mae llythrennedd a rhifedd yn cael eu cydnabod yn sylfeini hanfodol i addysg ym mhob man.
- Er bod ehangder a chydbwysedd yn cael eu gweld yn werthfawr gan lawer, mae tuedd gynyddol i ddatblygu cwricwlwm sy'n cynnwys mwy na dewis penodol o bynciau neu gyrsiau.
- Mae newid arwyddocaol oddi wrth 'ddysgu am bethau' at 'ddysgu i wneud pethau', gyda mwy o sylw i sgiliau a phwyslais ar gymhwyso a meithrin uwch sgiliau, yn enwedig creadigrwydd (entrepreneuriaeth) a llythrennedd digidol.
- Mae heriau'n codi'n aml wrth asesu mewn cysylltiad â manylebu, dilysrwydd, dibynadwyedd a chymhwysedd athrawon.
- Mae asesu modd cymysg yn nodwedd gyffredin arall, a hynny'n cynnwys defnydd priodol o brofion.
- Rhoddir sylw cynyddol i ddibenion asesu a'r defnydd ohono, yn enwedig ei gyfraniad hanfodol at addysgu a dysgu.
- Mae tystiolaeth yn dangos cydnabyddiaeth i'r angen am gysoni systemau, drwy wella'r synergedd rhwng trefniadau ar gyfer y cwricwlwm, asesu ac atebolrwydd.
- Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod meithrin capasiti mewn systemau a chapasiti athrawon yn rhan bwysig ac annatod o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.



## Y prif ystyriaethau a heriau i'r Adolygiad

Gyda'i gilydd, mae'r holl dystiolaeth hon yn dangos bod rhai cryfderau gwirioneddol yn y trefniadau cwricwlwm presennol yng Nghymru y gallwn eu datblygu – yn bennaf oll, yr addysgeg sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen a'r ymrwymiad i'r Gymraeg a'i diwylliant. Er hynny, mae'n glir iawn bod angen newid hefyd er mwyn datblygu cwricwlwm sy'n cynnal ac yn hwyluso addysgu a dysgu o'r radd flaenaf yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen ystyried nifer o faterion a heriau allweddol wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd mewn perthynas â nodau a dibenion, strwythur, addysgeg ac asesu. Thema ychwanegol a gododd droeon yw'r angen i sefydlu strategaeth effeithiol ar gyfer newid er mwyn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a fydd yn codi o'r Adolygiad. Byddwn yn ymdrin â phob un o'r themâu hyn yn ei thro yn y penodau sy'n dilyn, ynghyd â'r dystiolaeth gysylltiedig.



# **Pennod 3:** Dibenion y Cwricwlwm

Yn y bennod hon, rydym yn egluro pam y mae'r Adolygiad yn cynnig bod angen datganiad syml, parhaol am ddibenion cwricwlwm i Gymru. Mae'n dadansoddi ac yn trafod canfyddiadau, polisïau a blaenoriaethau a oedd yn berthnasol wrth ddatblygu'r dibenion hynny ac, yn olaf, yn disgrifio'r pedwar diben y mae'r Adolygiad yn eu cynnig.

Datganiadau o nodau neu ddibenion yw'r man cychwyn ar gyfer manylebau'r cwricwlwm mewn nifer o wledydd. Gan amlaf, maent yn ymwneud â'r goblygiadau i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r economi ac yn pennu cyfeiriadau cyffredinol i'w dilyn wedyn wrth wneud penderfyniadau am strwythur a chynnwys.

Yn ei adolygiad diweddar o addysg ysgol yng Nghymru[10], canfu'r OECD nad oedd set o nodau a dibenion cyffredinol pendant wedi'i llunio ar gyfer Cymru ac roedd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru 'develop a shared vision of the Welsh learner, reflecting the government's commitment to quality and equity'.

## Pam y mae datganiadau clir a chytûn o ddibenion yn bwysig?

Byddai datganiadau o'r fath:

- yn cymell pawb ym maes addysg i ddilyn cenhadaeth gyffredin
- yn hyrwyddo perchenogaeth eang ar addysg ac yn agor y ddadl ar y cwricwlwm i rai heblaw gweithwyr proffesiynol
- yn egluro dyheadau ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru
- yn rhoi pwys ar ddeilliannau tymor hwy ar gyfer plant a phobl ifanc heblaw'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth benodedig y mae disgwyl i ysgolion eu cyflwyno
- yn bwynt cyfeirio cyson ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a fyddai'n hyrwyddo cydlyniant, dilyniant a hyblygrwydd mewn bwriadau dysgu
- yn sail gadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau wrth i'r pwysau ar y cwricwlwm barhau i gynyddu
- yn amddiffyn y cwricwlwm rhag ei gyfyngu mewn ymateb i bwysau tymor byr
- yn ganllaw cyson ar gyfer dethol cynnwys, profiadau ac addysgeg
- yn sail ar gyfer sicrhau cytundeb angenrheidiol rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol, ysgolion ac athrawon ynghylch y cyfeiriad cyffredinol arfaethedig, gan ganiatáu rhyddid i benderfynu ar y ffordd o gyflawni'r bwriadau
- yn sail ar gyfer canolbwyntio a chysondeb yn natblygiad proffesiynol athrawon
- yn ffocws cyffredinol ar gyfer atebolrwydd a gwella.

---

[10] OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* OECD Paris

Mae'n werth nodi bod peryglon posibl a all gyfyngu ar y berthynas rhwng y nodau neu ddibenion cyffredinol a'r fframwaith cwricwlwm ei hun. Mae Adolygiad Caergrawnt o Addysg Gynradd yn seinio'r rhybudd canlynol: '...attempts to define official aims for the education system as a whole have a poor track record ... and, more often than not, have been added to policy to give it a cloak of consensus...'[11]. Gall nodau gael eu disodli hefyd drwy benderfyniadau pragmataidd a wneir wedyn am resymau gwleidyddol neu logistaidd. Yn ymarferol, felly, gall y cwricwlwm a addysgir droi'n rhywbeth gwahanol iawn i'r cwricwlwm a fabwysiadwyd. Er mwyn osgoi peryglon o'r fath, mae angen geirio datganiadau o ddibenion cwricwlwm yn ofalus fel y byddant yn egwyddorol, yn glir ac yn bendant ac yn dod yn elfen ganolog wedyn yn y broses ymgysylltu a datblygu; drwy wneud hyn, gallant bennu ffurf y cwricwlwm a lledaenu arferion. Mae cyd-ddealltwriaeth ynghylch **pam** yr ydym yn gwneud rhywbeth penodol yn fan cychwyn da ar gyfer pennu **beth** y mae angen ei wneud a **sut** y byddwn yn ei wneud.

## Beth yw nodau presennol y cwricwlwm?

Mae Deddf Addysg 2002 yn mynegi nodau ar ffurf gofynion cyffredinol fel a ganlyn.

'The curriculum for a maintained school or maintained nursery school satisfies the requirements of this section if it is a balanced and broadly based curriculum which –

(a) promotes the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of pupils at the school and of society, and

(b) prepares pupils at the school for the opportunities, responsibilities and experiences of later life.'

Er bod gofynion o'r fath yn ganllaw gwerthfawr ond cyffredinol wrth bennu nodau'r cwricwlwm, nid ydynt wedi'u geirio mewn ffurf sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar addysgu a dysgu.

## Sut y mae dibenion cwricwlwm yn cael eu mynegi mewn lleoedd eraill?

Yn nogfen y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) ac Arad Research *A Rapid Evidence Assessment on the Impact of Curriculum and Assessment Arrangements within High Performing Countries*[12] nodir, 'Although expressed differently in the policy documents of each of the high performing countries, there is a common, general aim to develop in their learners the necessary attitudes, values, skills and knowledge they need in order to achieve success and fulfilment as engaged thinkers and ethical citizens with an entrepreneurial spirit'.

Gellir canfod newid oddi wrth fanylebau cwricwlwm wedi'u seilio ar ddisgyblaethau pwnc traddodiadol at lunio dibenion yn nhermau cymwyseddau allweddol, sgiliau allweddol, sgiliau bywyd, galluoedd neu fedrusrwydd, er enghraifft mewn canllawiau sydd wedi'u cynnig gan yr Undeb Ewropeaidd (UE), Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) a'r OECD. Mae'r cytundeb gan aelod-wladwriaethau'r UE i gymeradwyo wyth cymhwysedd allweddol sy'n cwmpasu dinasyddiaeth, cymdeithas, cyflogaeth ac effeithiolrwydd

---

[11] Cambridge Primary Review (2010) *Children, their World, their Education: Final Report and Recommendations of the Cambridge Primary Review* Routledge

[12] SCYA ac Arad Research (2013) *A Rapid Evidence Assessment on the Impact of Curriculum and Assessment Arrangements within High Performing Countries* Llywodraeth Cymru

personol[13] wedi dylanwadu ar newidiadau ym manylebau cwricwla mewn gwledydd ar draws Ewrop.

- Mae'r Unol Daleithiau ac Awstralia wedi datblygu fframweithiau cwricwlwm wedi'u seilio ar sgiliau allweddol/cymwyseddau allweddol.
- Yn Seland Newydd, mae plant a phobl ifanc yn datblygu cymhwysedd meddwl, gan ddefnyddio iaith, symbolau a thestun, rheoli'r hunan, ymwneud ag eraill a chyfrannu a chyfranogi.
- Yn yr Alban, mae'r cwricwlwm yn ceisio meithrin pedwar capasiti mewn pobl ifanc: dod yn ddysgwyr llwyddiannus, yn unigolion hyderus, yn ddinasyddion cyfrifol ac yn gyfranwyr effeithiol.
- Fel arfer, bydd datganiadau cwricwlwm yn rhoi sylw i wahanol agweddau ar ddatblygiad y person ifanc: bod yn unigolyn ac yn aelod tîm sydd â chymeriad crwn ac sy'n bersonol effeithiol; bod yn ddinesydd egwyddorol ac yn aelod o gymdeithas fwyfwy amrywiol; bod yn aelod o'r gweithlu ac yn gyfrannwr creadigol i economi'r wlad; a bod yn un sy'n derbyn ac yn cyfrannu i ddiwylliant cenedlaethol a rhyngwladol; a bod yn ddysgwr hyblyg gydol oes.
- Mae tuedd gynyddol i bwysleisio'r gallu i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd ar draws pynciau, a'r anian i wneud hynny'n effeithiol.

Lluniwyd y cynigion yn yr Adolygiad hwn ar ôl ystyried y tueddiadau hyn a'u pwrpas yw creu perthynas gadarn a pharhaus rhwng dibenion diffiniedig a phrosesau dysgu ac addysgu.

### Argymhelliad

**2. Dylai'r cwricwlwm ysgol gael ei gynllunio fel y bydd yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu mewn perthynas â dibenion clir a chytûn. Dylid llunio'r dibenion fel y gallant ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch y cwricwlwm, addysgeg ac asesu.**



[13] European Commission (2011) *Assessment of Key Competences: Policy Handbook* European Commission Brussels

## Datblygu dibenion neilltuol y cwricwlwm i Gymru

Roedd y farn a gasglwyd yn ystod y trafodaethau helaeth rhwng Tîm yr Adolygiad ac arweinwyr ysgol, athrawon a rhanddeiliaid eraill wedi bod o gymorth wrth ddechrau llunio dibenion ar gyfer y cwricwlwm yng Nghymru. Er enghraifft, roedd ymatebion i'r cwestiwn yn y cais am dystiolaeth, 'Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?'[14] yn dangos cefnogaeth i'r canlynol:

- yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn y CCUHP
- dull cynhwysol o ddarparu addysg, gan gynnwys yr ymrwymiad i'r system ysgolion cyfun
- y Gymraeg a'i diwylliant
- y gymuned a rôl ddinesig yr ysgolion mewn cymdeithas yng Nghymru
- iechyd a lles ein plant a phobl ifanc.

Mae'r casgliadau yn y set pwysig o adroddiadau gan grwpiau 'Gorchwyl a Gorffen' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cyfleu negeseuon clir am eu dibenion cwricwlwm arfaethedig. Yn benodol:

- yr argymhelliad yn adroddiad y Grŵp Llywio ar TGCh i Lywodraeth Cymru fod llythrennedd digidol, neu gymhwysedd digidol, yr un mor bwysig yn yr unfed ganrif ar hugain â llythrennedd a rhifedd
- yr Adolygiad annibynnol o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 sy'n dadlau bod 'dyfodol y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn llwyr ddibynnol ar drosglwyddo'r iaith i'n pobl ifainc'
- adroddiad terfynol grŵp adolygu'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru sy'n datgan y 'dylai'r fersiwn nesaf o'r cwricwlwm cenedlaethol i Gymru gymryd fel man cychwyn syniadau a delfrydau'r Cwricwlwm Cymreig presennol, gan adeiladu arnynt yn hytrach na'u trin fel atodiad. Dylai fod ganddo ddimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol'
- adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol sy'n cynnwys argymhelliad sy'n nodi y dylai Llywodraeth Cymru roi statws pwnc 'craidd' i addysg gorfforol er mwyn 'mynd i'r afael â'r pryderon allweddol, dwfn ynghylch lefelau gweithgarwch corfforol ac iechyd ein pobl ifanc yng Nghymru'
- argymhellion yr Adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru a ddadleuai y dylai Llywodraeth Cymru 'ehangu'r cwricwlwm presennol i gynnwys creadigrwydd, ochr yn ochr â rhifedd a llythrennedd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc ac mewn addysg gynradd ac uwchradd; at hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried addysg sy'n gyfoethog yn y celfyddydau yn rhan greiddiol o brofiad ysgol gyfan pob disgybl'

---

[14] Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur – Adroddiad Terfynol* Llywodraeth Cymru

- y gydnabyddiaeth yn yr adroddiad annibynnol *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2014) i effaith bosibl y celfyddydau a diwylliant ar hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

Roedd ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth hefyd wedi cynnig barn amrywiol am ddibenion y cwricwlwm. Penderfynodd yr ymchwilwyr rannu'r ymatebion o dan bum pennawd, fel a ganlyn.

- Dysgwyr llwyddiannus: ymatebion sy'n cyfeirio at y deilliannau gwybyddol o addysg ac ymagweddau at ddysgu a gwybodaeth.
- Unigolion hyderus: ymatebion sy'n cyfeirio at agweddau ar effeithiolrwydd personol a hunanhyder.
- Dinasyddion cyfrifol: ymatebion sy'n ymwneud â'r angen i addysg feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol.
- Oedolion cymwys: ymatebion sy'n ymdrin â 'sgiliau bywyd'.
- Corff a meddwl iach: ymatebion sy'n ymwneud â'r angen i ysgolion feithrin lles meddyliol a chorfforol.

Roedd ymatebion gan blant a phobl ifanc yn pwysleisio'r arwyddocâd cymdeithasol o fynd i'r ysgol. Y geiriau a grybwyllwyd amlaf oedd 'gwybodaeth' a 'cyfeillgarwch'. Cyfeiriwyd yn aml hefyd at wahanol sgiliau, gan gynnwys gweithio gydag eraill, cyfathrebu ac annibyniaeth, ac roedd rhai cyfeiriadau at bynciau penodol gan gynnwys Cymraeg, TGCh, mathemateg ac addysg gorfforol.



Mae nifer o'r themâu hyn wedi'u hadlewyrchu mewn dogfennau polisi a datganiadau allweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n fan cychwyn pwysig ar gyfer pennu dibenion y cwricwlwm yng Nghymru. Cyhoeddwyd cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella addysg, *Cymwys am oes*[15], tra oedd yr Adolygiad wrth ei waith. Mae'r cynllun yn cynnwys adran o'r enw 'Gwella addysg mewn ffordd Gymreig'. Mae'n cynnig chwech o egwyddorion a gwerthoedd yn ganllaw ar gyfer datblygu'r 'hanes a thraddodiad hir o werthfawrogi addysg' yng Nghymru.

1. Hyder a balchder yng Nghymru fel cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith.
2. Mae dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn.
3. Mae pob plentyn a pherson ifanc yn elwa ar ddysgu sydd wedi'i bersonoli.
4. Mae llwyddiant ein system addysg yn dibynnu ar lwyddiant pob plentyn. Mae cydgyfrifoldeb, wedi'i ategu gan werthoedd cydweithredol partneriaeth, ymddiriedaeth, parchu a chynorthwyo ein gilydd yn sail i'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd.
5. Datblygu'r capasiti ar gyfer system hunanwella.
6. Dathlu llwyddiant, cydnabod rhagoriaeth a rhannu'r ddau.

Cyfeirir at ddibenion arfaethedig mewn datganiadau polisi eraill gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2010)[16], sy'n egluro uchelgais Llywodraeth Cymru i gael 'gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r isadeiledd addysg. Rydym am sicrhau bod y system addysg yn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddysgwyr o bob oedran feithrin amrywiaeth ehangach o sgiliau iaith yn y Gymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Rydym am weld system sy'n ymateb i alw'r cyhoedd am gynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg'
- Strategaeth y Gymraeg, *Iaith fyw: iaith byw* (2012)[17]. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio
- ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP yn 2004, sydd wedi'i fabwysiadu'n sail i'r holl bolisïau y mae Llywodraeth Cymru yn eu llunio ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n cael ei gyfleu drwy'r saith nod craidd. Mae'r rhain yn datgan y bydd pob plentyn a pherson ifanc:
    1. yn cael dechrau teg mewn bywyd
    2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu

[15] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* Llywodraeth Cymru

[16] Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cymru

[17] Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17* Llywodraeth Cymru

3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu camdrin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
4. yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
5. yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
6. yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r hawliau a rhwymedigaethau o sylwedd yn CCUHP. Daeth y mesur i rym ym Mai 2012.

Ymhlith y strategaethau perthnasol eraill a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru y mae:

- ei strategaeth datblygu economaidd, sy'n cydnabod y rhan allweddol sydd i addysg mewn system 'sy'n rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar bobl erbyn iddynt gyrraedd yr oedran statudol ar gyfer gadael yr ysgol, ac sy'n darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth'[18]
- ei Rhaglen Plentyn Iach Cymru Gyfan gyntaf, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, a fydd yn egluro'r bwriad i helpu teuluoedd i alluogi eu plant i wireddu eu potensial o ran iechyd a datblygiad
- ei hymrwymiad i sicrhau y bydd yr ysgol yn lleoliad iach lle y gellir cynnal addysg plant a phobl ifanc drwy ddull cyfannol o drafod iechyd a lles.

Yn ogystal â hyn, mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a oedd ar Gyfnod 1 yn y broses ddeddfu ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, yn disgrifio set o nodau sy'n mynegi cydweledigaeth o les economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru ar gyfer y tymor hir. Y nodau ar gyfer Cymru yw y bydd yn ffyniannus, yn gydnerth, yn iachach, yn fwy cyfartal, y bydd ganddi gymunedau cydlynus, ac y bydd ei diwylliant yn fywiog a'r Gymraeg yn ffynnu.

Yn unol â'n hegwyddorion ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm hefyd, rhaid i'r cynigion fod yn ddilys ac adlewyrchu gwerthoedd a diwylliant Cymru.

Mae rhai materion cymhleth y bydd angen eu datrys yn y cyswllt hwn, ac un rhan o waith yr Adolygiad oedd ceisio delio â'r cymhlethdod hwnnw. Felly mae'r crynodeb canlynol o'r materion sydd i'w trafod yn y dibenion yn cynnwys gwerthoedd a dyheadau Cymru o ran yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas yn ogystal â pholisïau a strategaethau allweddol a'r farn a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad.

---

[18] Llywodraeth Cymru (2010) *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* Llywodraeth Cymru

## Crynodeb o'r themâu sydd i'w trafod yn y dibenion

Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd yn yr Adolygiad yn cadarnhau bod angen dibenion cyffredin sy'n gymwys i bob plentyn a pherson ifanc ac yn hyrwyddo dyheadau uchelgeisiol a phenderfyniad i lwyddo. Mae'n bwysig sicrhau y bydd pob person ifanc, wrth adael yr ysgol, wedi cael addysg eang sy'n ei baratoi i lwyddo mewn byd sy'n fwyfwy cymhleth a chyfnewidiol.

Mae angen i'n plant a phobl ifanc gael eu gwreiddio yn eu diwylliannau eu hunain a bod â hunaniaeth gryf fel dinasyddion Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd ehangach. Er mwyn ennyn diddordeb dinasyddion rhaid meithrin y math o ddealltwriaeth o ddemocratiaeth, hawliau dynol, cyd-ddibyniaeth, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol a ddylai ffurfio eu barn bersonol a'u synnwyr o ymrwymiad. Bydd angen i blant a phobl ifanc allu delio â materion moesegol anodd a dadleuol fel y rheini sy'n codi weithiau o ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnolegau digidol. Mae dinasyddiaeth weithredol yn galw am yr hyder a'r cadernid sy'n sail i'r gallu i ddylanwadu a chymryd rhan mewn dadleuon bywiog. Dylid seilio'r hyder hwnnw ar wybodaeth dda a pharch at dystiolaeth.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at yr angen i'n pobl ifanc fod yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, ar ôl gadael yr ysgol â sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn, a gallu a hyder i ddefnyddio technoleg. Dylent fod yn hyderus wrth wynebu heriau deallusol a bod yn barod i adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae creadigrwydd a menter yn elfennau canolog mewn bywyd modern sydd i'w datblygu a'u hymestyn drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol. Mae'n bwysig bod profiad pobl ifanc yn yr ysgol yn symbylu eu dychymyg mewn ffyrdd sy'n eu cyffroi, sy'n gwireddu eu dyheadau ac yn meithrin meddwl creadigol. Yn ogystal â hyn, cyn ymuno â byd oedolion, bydd angen iddynt fod wedi meithrin y sgiliau 'meddalach', yr anian a'r ymagweddau a fydd yn hanfodol i'w bywyd yn y dyfodol, gan gynnwys yr awydd a'r capasiti i gyfrannu fel unigolion neu fel aelod o dîm.

Un thema barhaus yn y dystiolaeth oedd pwysigrwydd lles, yn enwedig iechyd meddwl. Mae angen i ysgolion ofalu am anghenion corfforol ac emosiynol eu plant a'u pobl ifanc a'u helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywyd eu hunain, drwy ddeall pwysigrwydd deiet a ffitrwydd, er enghraifft, a bod yn hyderus wrth reoli eu materion eu hunain. Dylid meithrin annibyniaeth, hunanddibyniaeth a pharch at eraill drwy gydol y broses addysgu a dysgu.

Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ceisio datblygu gweledigaeth o berson ifanc sydd wedi cael addysg dda ac sy'n cwblhau ei addysg statudol yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, mae'r Adolygiad yn cynnig y pedwar diben canlynol ar gyfer y cwricwlwm. Mae'r rhain wedi'u mynegi yn nhermau'r hyn y dylai pob plentyn a pherson ifanc ei wireddu a'i gyflawni drwy ei addysg ysgol.

### Argymhelliad

3. **Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:**
   - **yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**
   - **yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**
   - **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**
   - **yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

## Pedwar diben y cwricwlwm a'r nodweddion allweddol

Ar sail y dystiolaeth a dadansoddiad yr Adolygiad, rydym yn cynnig ymhellach y bydd pedwar diben y cwricwlwm yn cael eu datblygu yn nhermau eu nodweddion allweddol a fydd yn amlygu'r diben drwy ymarfer ac y dylid datblygu drwy'r cwricwlwm.

### Bydd ein holl blant a phobl ifanc:

- **yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:**
  - yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
  - yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau
  - yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
  - yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
  - yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt
  - yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
  - yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
  - yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi
  - yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

  ac **yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**

- **yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:**
  - yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion
  - yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
  - yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt
  - yn mentro'n bwyllog
  - yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol

- yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac **yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**

› **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:**

- yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

ac **yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd**

› **yn unigolion iach, hyderus sydd:**

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu trechu
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant

ac **yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

Os bydd y dibenion hyn yn ennill cefnogaeth gyffredinol ledled Cymru, dylent fod yn sail i'r holl benderfyniadau yn y dyfodol am flaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol ac yn sylfaen i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru.

Yn y bennod nesaf, byddwn yn ystyried sut y gellir strwythuro'r cwricwlwm er mwyn gwireddu'r dibenion hyn ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ym mhob ysgol.

**Bydd ein holl blant a phobl ifanc...**

**yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:**

- yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau
- yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi
- yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

ac **yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**.

**yn unigolion iach, hyderus sydd:**

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu trechu
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant

ac **yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

**yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:**

- yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion
- yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt
- yn mentro'n bwyllog
- yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac **yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**.

**yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:**

- yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

ac **yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd**.



# **Pennod 4:** Strwythur

Rydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc ddysgu symiau anferth o wybodaeth yn ystod eu haddysg statudol a byddant yn gweithio mewn nifer o feysydd amrywiol iawn ar adeg benodol. Y cwestiwn pwysig sydd dan sylw yn y bennod hon yw sut i strwythuro disgwyliadau cenedlaethol am yr hyn y bydd plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn y dyfodol fel y bydd y dibenion cwricwlwm a nodwyd yn fwyaf tebygol o gael eu cyflawni.

Mae'r Adolygiad yn cynnig cyfle i gynllunio strwythur cwricwlwm a fydd yn helpu i gyflawni'r pedwar diben cwricwlwm, yn delio â'r cymhlethdod presennol a materion strwythurol eraill sy'n llesteirio addysgu a dysgu da ar hyn o bryd, ac yn adeiladu ar yr agweddau gorau yn y strwythurau presennol. Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried hanes a ffurf y strwythur presennol ac wedyn yn disgrifio strwythur newydd arfaethedig ar gyfer trefnu disgwyliadau cenedlaethol, yn gyntaf o ran ehangder a chydbwysedd (er enghraifft ar draws gwahanol bynciau) ac yn ail o ran y cynnydd yr ydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc ei wneud yn ystod eu haddysg statudol.

## Y cwricwlwm cenedlaethol er 1988

Mae Cymru wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol o ran y cwricwlwm a'r trefniadau asesu drwy gyfres o adolygiadau sydd wedi dilyn Deddf Diwygio Addysg 1988 a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar y pryd yn San Steffan. Roedd Deddf Diwygio Addysg 1988 wedi cyflwyno'r cwricwlwm sylfaenol (a oedd ar y pryd yn cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol) ac wedi canolbwyntio ar ddarparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu a dysgu a chyfleoedd a safonau cyson.

Ers Deddf Diwygio Addysg 1988, cafwyd tri adolygiad pellach o'r cwricwlwm yng Nghymru (heb gynnwys yr adolygiad presennol). Roedd yr adolygiad diweddaraf (2008) yn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau, themâu trawsgwricwlaidd, hyblygrwydd a phrawfesur y cwricwlwm o safbwynt y dyfodol i'w wneud yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y gofynion presennol ar gyfer darparu'r cwricwlwm mewn ysgolion yng Nghymru.

<table>
<tr><th colspan="3">Gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru: Medi 2014</th></tr>
<tr><th colspan="3">Cyfnod Sylfaen</th></tr>
<tr><td>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)</td><td>Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed (anstatudol)</td><td>Saith Maes Dysgu:<br>– Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>– Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>– Datblygiad Mathemategol<br>– Datblygu'r Gymraeg (ysgolion cyfrwng Saesneg)<br>– Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd<br>– Datblygiad Corfforol<br>– Datblygiad Creadigol<br>a fframwaith i'r cwricwlwm sylfaenol (mewn ysgolion a gynhelir) ar gyfer addysg grefyddol.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Cyfnod Allweddol 2</th></tr>
<tr><td>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)</td><td>Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed (anstatudol)</td><td>Rhaglenni astudio ar gyfer:<br>– Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>– Cymraeg ail iaith (ysgolion cyfrwng Saesneg), dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol (pynciau sylfaen)<br>a fframweithiau ar gyfer y cwricwlwm sylfaenol – ABCh, addysg grefyddol ac addysg rhyw.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Cyfnod Allweddol 3</th></tr>
<tr><td>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)</td><td>Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed (anstatudol)</td><td>Rhaglenni astudio ar gyfer:<br>– Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>– Cymraeg ail iaith (ysgolion cyfrwng Saesneg), dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol ac ieithoedd tramor modern (pynciau sylfaen)<br>a fframweithiau ar gyfer y cwricwlwm sylfaenol – ABCh, addysg grefyddol, addysg rhyw, a gyrfaoedd a'r byd gwaith.</td></tr>
<tr><th colspan="3">14–19</th></tr>
<tr><td></td><td>Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed (anstatudol) sgiliau eraill yn cynnwys CBC</td><td>Rhaglenni astudio ar gyfer:<br>– Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>– addysg gorfforol a Chymraeg ail iaith (ysgolion cyfrwng Saesneg) (pynciau sylfaen)<br>a'r cwricwlwm sylfaenol – ABCh, addysg grefyddol, addysg rhyw, a gyrfaoedd a'r byd gwaith.</td></tr>
</table>

Yn Hydref 2014, ar ôl cynnal ymgynghoriad agored, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Feysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg. Mae'r rhaglenni astudio yn gyson hefyd â chynnwys y manylebau TGAU ar gyfer y cymwysterau newydd a gaiff eu cyflwyno am y tro cyntaf ym Medi 2015.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn awgrymu'n gryf, er gwaethaf y gyfres o addasiadau sydd wedi'u gwneud, fod angen newid sylweddol yn athroniaeth, ffurf a chynnwys y cwricwlwm cenedlaethol presennol. Mynegwyd y farn dro ar ôl tro fod y cwricwlwm wedi mynd yn anhylaw, yn orlawn ac yn ddigyswllt, a'i fod yn cyfyngu ar gyfleoedd i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn fwy cyfannol mewn sefyllfaoedd 'bywyd go iawn', neu i wneud defnydd creadigol o'r hyn a ddysgwyd i drafod materion sy'n croesi ffiniau pwnc. Os yw cwricwlwm wedi'i ddiffinio'n bennaf ar sail pynciau sydd ar wahân i'w gilydd, mae'n hawdd ei droi'n amserlen sydd weithau'n gwthio dysgu trawsgwricwlaidd pwysig i'r cyrion. Yn ogystal â hyn, roedd y broses o gynllunio pynciau ar wahân, ynghyd â'r dehongliad cul o'r ffordd orau o feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn arwain yn anfwriadol weithiau at gynnig set o brofiadau cyfyng ac ailadroddus.

## Meini prawf ar gyfer strwythur cwricwlwm i'r dyfodol

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad, ynghyd â'n hegwyddorion ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm (gweler tudalen 14), yn awgrymu y bydd angen bodloni nifer o feini prawf mewn unrhyw strwythur arfaethedig.

Dylai strwythur y cwricwlwm:

- adlewyrchu'r dibenion cwricwlwm yn uniongyrchol a'u hyrwyddo
- ymgorffori'r hawl sydd gan bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog, i gael addysg eang sy'n uchel ei hansawdd ac yn briodol o ran ei chydbwysedd drwy gydol eu cyfnod o addysg statudol
- hybu dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc
- hyrwyddo dysgu dwfn a chynnig her briodol mewn ffyrdd a fydd yn codi safonau cyflawni'n gyffredinol
- hybu cydlyniant a chymell plant a phobl ifanc i greu cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar eu dysgu
- galluogi plant a phobl ifanc i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau anghyfarwydd
- hyrwyddo sylw parhaus i'r broses o ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau o ran llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- sicrhau pwyslais priodol ar y Gymraeg a'i diwylliant
- hybu addysgu a dysgu symbylol a deniadol

- bod mor syml a hawdd ei ddeall â phosibl
- cael ei ddeall gan rieni, gofalwyr ac athrawon ac ennyn hyder ynddynt.

## Strwythuro dysgu (1): ehangder y cwricwlwm

Y dimensiwn cyntaf i'w ystyried yw ehangder. Mae angen ffordd o wneud synnwyr o rychwant yr wybodaeth, y sgiliau, yr anian a'r profiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio ehangder y cwricwlwm drwy ddefnyddio nifer o drefnyddion cydlynol a hawdd eu trin.

Mae rhai'n dadlau mai pynciau sy'n ymgorffori ein treftadaeth ddiwylliannol ac addysgol yn ogystal â'n holl ddoethineb ac felly mai'r rhain yw'r trefnyddion priodol. Mae eraill yn dadlau o blaid dull wedi'i seilio ar y sgiliau a chymwyseddau y credir eu bod yn adlewyrchu anghenion bywyd modern yn fwy uniongyrchol.

Mae'r ddadl sy'n gosod 'pynciau' yn erbyn 'sgiliau/cymwyseddau' yn creu pegynu di-fudd, gan fod y ddau'n bwysig o ran eu cyfraniad at gyflawni dibenion y cwricwlwm. Felly rhaid i strwythur y cwricwlwm sicrhau bod y cyfraniad hanfodol gan ddysgu disgyblaethol yn cael ei gadw ond ei fod yn cael ei ategu gan agweddau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag anghenion heddiw ac yn paratoi plant a phobl ifanc yn dda ar gyfer heriau yfory. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 a ddaeth i'r casgliad hwn: 'there is evidence, internationally, of a move towards more skills-based curricula that are focused on identifying and defining essential overarching competences alongside the more traditional subject-based curriculum content'[19].

Cafwyd tuedd ryngwladol yn y blynyddoedd diwethaf at ddefnyddio 'meysydd dysgu' yn drefnyddion cwricwlwm, gan eu cyfuno weithiau â dysgu disgyblaethol a medrusrwydd neu gapasiti ehangach.

- O fewn cwmpas eang Datganiad Melbourne ar Nodau Addysgol i Bobl Ifanc a gyhoeddwyd yn 2008, mae cwricwlwm cenedlaethol Awstralia yn ceisio cyplysu dysgu disgyblaethol â 'chyfeiriadedd byd-eang' sydd wedi'i fynegi ar ffurf galluoedd cyffredinol a blaenoriaethau trawsgwricwlaidd. Mae'r strwythur yn adlewyrchu nodau sy'n gysylltiedig â lles, diwylliant, sgiliau sylfaenol, TGCh, cyflogadwyedd ac effeithiolrwydd personol ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at bwysigrwydd gwybodaeth ddisgyblaethol ac wyth maes dysgu: Saesneg; mathemateg; gwyddorau; dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol; celfyddydau; ieithoedd; iechyd ac addysg gorfforol; TGCh a dylunio a thechnoleg.
- Ceir wyth maes yn Seland Newydd hefyd: Saesneg; y celfyddydau; iechyd ac addysg gorfforol; dysgu ieithoedd; mathemateg ac ystadegau; gwyddoniaeth; gwyddorau cymdeithasol; a thechnoleg. Yn ogystal â hyn, mae'n cynnwys cymwyseddau allweddol penodol mewn: meddwl; defnyddio iaith, symbolau a thestunau; rheoli'r hunan; ymwneud ag eraill; a chyfrannu a chyfranogi.
- Mae'r Iseldiroedd yn defnyddio chwe maes eang: Iseldireg; Saesneg (ar ddiwedd y cyfnod cynradd); rhifyddeg a mathemateg; astudiaethau cymdeithasol ac amgylcheddol (daearyddiaeth, hanes, gwyddoniaeth, dinasyddiaeth, sgiliau bywyd a chymdeithasol, byw'n iach, strwythurau cymdeithasol, mudiadau

---

[19] SCYA ac Arad Research (2013) *A Rapid Evidence Assessment on the Impact of Curriculum and Assessment Arrangements within High Performing Countries* Llywodraeth Cymru

crefyddol ac ideolegol); mynegiant creadigol (cerddoriaeth, arlunio a chrefftau); a chwaraeon a symud.

- Yng Ngogledd Iwerddon ceir chwe maes: y celfyddydau (celf a dylunio, cerddoriaeth, drama); ieithoedd a llythrennedd (siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, drama); mathemateg a rhifedd; datblygiad personol (datblygiad emosiynol, dysgu am ddysgu, iechyd, perthnasoedd ac addysg rhyw) a chyd-ddealltwriaeth (yn y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang); datblygiad corfforol a symud; a'r byd o'n cwmpas (daearyddiaeth, hanes, gwyddoniaeth a thechnoleg). Mae'r llinynnau ym mhob maes yn rhannu amcanion cwricwlwm ac mae disgwyl i athrawon integreiddio dysgu ar draws y meysydd. Yn ogystal â'r meysydd dysgu, mae addysg grefyddol yn parhau'n bwnc gorfodol. Ceir sgiliau trawsgwricwlaidd mewn cyfathrebu, defnyddio mathemateg a defnyddio TGCh. Hefyd ceir sgiliau meddwl a galluoedd personol, sy'n cynnwys amrywiaeth o sgiliau sy'n debyg i'r sgiliau personol, dysgu a meddwl yn y cwricwlwm uwchradd newydd ar gyfer Lloegr.
- Yn yr Alban mae wyth maes cwricwlwm: celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; ieithoedd; mathemateg; addysg grefyddol a moesol; gwyddorau; astudiaethau cymdeithasol; technolegau. Yn ogystal â hyn, mae llythrennedd, rhifedd ac agweddau penodol ar iechyd a lles a TGCh yn cael eu datblygu a'u cryfhau ar draws y cwricwlwm.
- Mae Lloegr wedi cadw pynciau'n brif flociau adeiladu ar gyfer y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'i strwythuro o hyd ar sail 12 pwnc, sydd wedi'u rhannu'n bynciau craidd a sylfaen, gyda rhaglenni astudio cysylltiedig. Mae argymhellion gan adolygiadau annibynnol o blaid mabwysiadu strwythur wedi'i seilio ar gapasiti[20] a meysydd dysgu wedi cael eu gwrthod gan y llywodraeth.
- Mae'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru'n cynnwys saith Maes Dysgu.



[20] QCA (2007) *Secondary curriculum review consultation: Draft summary of findings* QCA
Rose, J (2009) *Independent Review of the Primary Curriculum: Final Report* Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

## Meysydd Dysgu a Phrofiad

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad a'r meini prawf a nodwyd yn gynharach, mae'r Adolygiad yn argymell defnyddio un strwythur trefniadol ar gyfer y cwricwlwm ar draws yr ystod oedran gyfan rhwng 3 ac 16 oed.

Rydym yn cynnig y bydd y strwythur hwn yn cynnwys 'Meysydd Dysgu a Phrofiad'. Bydd pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, byddant yn diffinio ehangder y cwricwlwm. Rydym wedi dewis y term 'Maes Dysgu a Phrofiad' (a ddefnyddiwyd gyntaf mewn Adroddiad gan Arolygwyr Ei Mawrhydi[21] ym 1985 ac wedyn gan ACCAC[22]) yn hytrach na'r term mwy cyfyng 'Maes Dysgu' sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn y Cyfnod Sylfaen. Y bwriad yw dangos bod profiadau addysgol yn rhan bwysig ac annatod o'r cwricwlwm, i ehangu gorwelion plant a phobl ifanc, symbylu eu dychymyg a hybu mwynhad wrth ddysgu. Mae'n bwysig bod addysg plant a phobl ifanc yn cynnwys profiadau cyfoethog sy'n werthfawr ar eu pen eu hunain.

Mae'r Adolygiad yn cadarnhau y dylai pynciau a disgyblaethau fod yn bwysig o hyd ond y dylid eu grwpio o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn yn cynnwys, lle bo'n briodol, dimensiwn Cymreig yn ogystal â phersbectif rhyngwladol yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru.

Mae Adolygiad Caergrawnt o Addysg Gynradd[23] yn enwi nodweddion sy'n helpu i ddiffinio meysydd o'r fath. Ymhlith y nodweddion hyn mae eu rhesymeg neu gyfanrwydd mewnol, yr wybodaeth sy'n ffurfio'r craidd a'u perthynas â nodau addysgol. Yn yr un modd, disgwylir y dylai pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad sydd wedi'u hargymell yn yr Adolygiad hwn:

- gynnig cyd-destun cyfoethog ar gyfer cyflawni dibenion y cwricwlwm
- bod yn fewnol gydlynol
- defnyddio ffyrdd neilltuol o feddwl a chynnwys craidd penodol o wybodaeth ddisgyblaethol a chyfryngol.

### Argymhelliad

**4. Dylai'r cwricwlwm i ddysgwyr 3–16 oed gael ei drefnu'n Feysydd Dysgu a Phrofiad sy'n pennu ehangder y cwricwlwm. Disgwylir y bydd y meysydd hyn yn cynnig cyd-destunau cyfoethog ar gyfer datblygu'r pedwar diben cwricwlwm, y byddant yn fewnol gydlynol, yn defnyddio ffyrdd neilltuol o feddwl, ac yn cynnwys craidd penodol o wybodaeth ddisgyblaethol neu gyfryngol.**

---

[21] HMI (1985) *The Curriculum from 5–16* HMSO

[22] Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (1996) *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* ACCAC

[23] Cambridge Primary Review (2010) *Children, their World, their Education: Final Report and Recommendations of the Cambridge Primary Review* Routledge

Mae'r Adolygiad yn cynnig chwe Maes Dysgu a Phrofiad fel a ganlyn:

- **Celfyddydau mynegiannol**
- **Iechyd a lles**
- **Dyniaethau**
- **Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu**
- **Mathemateg a rhifedd**
- **Gwyddoniaeth a thechnoleg.**

### Argymhelliad

**5. Dylai'r cwricwlwm cenedlaethol newydd yng Nghymru gynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad: Celfyddydau mynegiannol; Iechyd a lles; Dyniaethau; Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; Mathemateg a rhifedd; a Gwyddoniaeth a thechnoleg.**

Nid yw'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i'w hystyried yn adrannau digyswllt ond yn hytrach yn ffordd o drefnu'r bwriadau ar gyfer dysgu gan bob plentyn a pherson ifanc, gan wneud penderfyniadau a chynlluniau'n greadigol ar lefel yr ysgol i droi'r rhain yn weithgareddau o ddydd i ddydd. Felly nid ydynt yn offer ar gyfer amserlennu.

Un fantais o gael Meysydd Dysgu a Phrofiad cyffredin rhwng 3 ac 16 oed yw y bydd yn hyrwyddo ac yn ategu dilyniant a pharhad ac yn helpu i wneud y strwythur yn haws ei ddeall. Rydym yn rhagweld y bydd y dull hwn o weithredu'n helpu i amddiffyn ehangder y cwricwlwm ac yn arwain at benderfyniadau priodol ynghylch 'cydbwysedd' y dysgu gan blentyn neu berson ifanc ar adeg benodol, er enghraifft drwy ddileu'r gwahaniaethau rhwng pynciau 'craidd' a 'sylfaen'.

Bydd athrawon unigol, gan gynnwys athrawon arbenigol mewn ysgolion uwchradd, yn gwneud defnydd o'r gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad wrth gynllunio. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn helpu i ymateb i bryderon ynghylch rhannu addysg yn adrannau drwy gymell athrawon i gydweithio'n greadigol ar draws ffiniau pwnc yng nghyd-destun y pedwar diben cwricwlwm. Bydd yn bwysig bod athrawon yn gallu helpu plant a phobl ifanc i greu cysylltiadau ar draws eu dysgu, drwy gyfuno gwahanol agweddau er mwyn trafod materion pwysig sy'n ymwneud, er enghraifft, â dinasyddiaeth, menter, medrusrwydd ariannol a chynaliadwyedd.

## Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Mae set o gymwyseddau a sgiliau sy'n sylfaen i bron pob math o ddysgu ac sy'n hanfodol er mwyn gallu cymryd rhan yn llwyddiannus a hyderus yn y byd modern. Rhoddwyd blaenoriaeth eisoes i lythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm yng Nghymru drwy'r FfLlRh, gan gynnwys Ar drywydd llythrennedd ac Ar drywydd rhifedd. At hynny, mae'r argymhellion yn adroddiad y Grŵp Llywio ar TGCh i Lywodraeth Cymru[24] a chanfyddiadau'r Adolygiad yn arwain yn glir at y casgliad bod cymhwysedd digidol yn fwyfwy hanfodol ar gyfer dysgu a bywyd ac y dylid rhoi statws tebyg iddo yn y cwricwlwm i'r hyn sydd gan lythrennedd a rhifedd.

Felly mae'r Adolygiad yn argymell y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd i'r holl athrawon a phobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Rhaid sicrhau, drwy strwythur y cwricwlwm, fod plant a phobl ifanc yn datblygu lefelau cymhwysedd uchel yn yr agweddau hynny a'u bod yn cael cyfleoedd aml i'w datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm.




Mae cymhwysedd mewn llythrennedd, gan gynnwys cymhwysedd yn yr iaith lafar, cystrawen a sillafu, yn hanfodol ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm, yn bennaf oherwydd y lle hanfodol sydd i iaith wrth feddwl. Er mwyn meistroli'r sgiliau hyn, yr hyn sy'n hanfodol, yn hytrach na drilio ac ailadrodd am gyfnodau hir yn ystod y diwrnod ysgol, yw meithrin dealltwriaeth dda o'u cydrannau hanfodol gyda chymorth addysgu a dysgu sy'n briodol i ddatblygiad plant a phobl ifanc a chynnig cyd-destunau cyfoethog lle y gellir eu cryfhau, eu hymestyn a'u cymhwyso. Os na cheir hyn, fel y nododd un cyfrannwr, 'There is a real danger that we are teaching the mechanics of writing but giving the children nothing to write about'. Mae angen i blant a phobl ifanc gael pob cyfle hefyd i egluro eu meddwl, ystyried a thrafod syniadau a defnyddio sgiliau iaith ar lefel briodol. Mae cydran llythrennedd y FfLlRh yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch dull cyffredin o gryfhau sgiliau o'r fath ar wahanol gamau datblygiadol.




Yn yr un modd, mae rhifedd, gan gynnwys sgiliau rhifyddeg a thrin data, yn cael ei ddefnyddio'n eang ar draws y cwricwlwm, ac mae cymhwysedd mewn rhifedd yn hanfodol ar gyfer byw a gweithio'n annibynnol. Mae angen i blant a phobl ifanc gael cyfleoedd rheolaidd i feithrin mwy o ddealltwriaeth o rif ac, yn yr un modd â llythrennedd, i gryfhau a defnyddio eu sgiliau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n bwysig bod yr holl athrawon a staff eraill

[24] Arthur, S, Crick, T, Hayward, J (2013) *Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru*

sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn deall beth yw'r ffordd orau o gryfhau'r sgiliau hyn ac yn manteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd mewn ffordd briodol. Mae cydran rhifedd y FfLlRh yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch dull cyffredin o gryfhau sgiliau o'r fath ar wahanol gamau datblygiadol.

Mae cymhwysedd digidol yn chwarae rhan gynyddol ym mywydau plant a phobl ifanc, ar gyfer cyfathrebu, rhwydweithio, gwybodaeth, hamdden ac adloniant a hefyd drwy amrywiaeth gynyddol o drafodion a chymwysiadau addysgol. Mae'r gallu i ddefnyddio sgiliau technoleg ddigidol mewn ffordd greadigol yn agwedd fwyfwy cyffredin yn y gweithle modern, er enghraifft ar gyfer datblygu modelau efelychu sy'n rhoi prawf ar syniadau'n ddiogel ac yn rhad neu wrth ddefnyddio cyfarpar meddygol cymhleth y mae angen ei ailraglennu i gwrdd ag anghenion penodol y claf. Fel y mae'r Grŵp Llywio ar TGCh wedi argymell 'Ni ddylid seilio'r broses o gaffael sgiliau Llythrennedd Digidol a chymwyseddau digidol yn bennaf ar dechnolegau sy'n newid yn gyflym; dylai ganolbwyntio ar addysgeg, datblygu sgiliau dyfnach, gallu trosglwyddo, a dealltwriaeth, yn ogystal â defnydd posibl y cymwyseddau hyn'. Rhaid i'r holl athrawon a staff eraill fod yn gyfrifol am helpu i feithrin cymwyseddau digidol, a'r sgiliau a gwybodaeth ar gyfer hynny.

Ar gyfer y dyfodol, byddai'r disgwyliadau o ran dilyniant rhwng 3 ac 16 oed mewn llythrennedd a rhifedd yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud yng Nghymru i sefydlu'r sgiliau hyn ar ganol ac, yn bwysig, ar draws y system addysg yng Nghymru. Yn nhermau strwythur y cwricwlwm, byddai'r disgwyliadau o ran llythrennedd yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, a'r disgwyliadau o ran rhifedd yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a rhifedd, a byddent yn cael eu nodi'n bennaf yn y meysydd hynny. Byddai disgwyliadau o ran dilyniant yn yr agweddau hyn yn cael eu seilio ar y FfLlRh presennol a'r Meysydd Dysgu sydd wedi'u datblygu'n ddiweddar ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ac ar gyfer Datblygiad Mathemategol, yn ogystal â'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg. Byddai cyfeiriadau yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill at gyfleoedd buddiol i ddatblygu llythrennedd a rhifedd.

Yn y gwaith a fydd yn deillio o'r Adolygiad, bydd angen datblygu fframwaith ar gyfer dilyniant mewn cymhwysedd digidol, ynghyd â dogfen 'Ar Drywydd Dysgu Cymhwysedd Digidol', gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad ar TGCh. Byddai gwahanol agweddau'n cael eu cynnwys a'u nodi o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad mwyaf perthnasol, er enghraifft o fewn Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ar gyfer agweddau sy'n ymwneud ag iaith a chyfathrebu, a Gwyddoniaeth a thechnoleg ar gyfer rhyngwynebu gwyddonol, trin data a chynllunio prosesau.

Dylai ysgolion ddynodi aelod staff a fydd yn arwain ac yn hybu pob un o'r tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd.

### Argymhellion

6. **Dylai dysgu gan blant a phobl ifanc gael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm drwy dri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r holl athrawon: llythrennedd; rhifedd; a chymhwysedd digidol.**
7. **Dylai fframwaith cymhwysedd digidol, ynghyd â dogfen 'Ar Drywydd Dysgu Cymhwysedd Digidol', gael eu datblygu a'u cynnwys fel Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd.**

## Sgiliau ehangach

Yn yr un modd â gwledydd eraill ar draws y byd, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu set o 'sgiliau ehangach' y credir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith yn y byd modern. Mae wedi cymryd camau i ofalu bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r sgiliau ehangach hyn ac yn dod yn fwy cydnerth a galluog wrth ddelio â'r heriau cyfnewidiol y bydd unigolion yn eu hwynebu'n awr ac yn y dyfodol. Mewn adroddiad gan SCYA/Arad cyfeirir at Parsons a Beauchamps (2012)[25] sydd wedi dod i'r casgliad bod y gwledydd sy'n perfformio orau yn nodi mai'r sgiliau a ddefnyddir amlaf yw datrys problemau, meddwl yn greadigol a beirniadol, dethol gwybodaeth, cymhwyso gwybodaeth a dod i gasgliadau.

Roedd yr adolygiad o'r cwricwlwm yng Nghymru yn 2008 wedi arwain at gyflwyno *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* ar sail anstatudol, tra cafwyd awgrym yng Ngham 1 yr adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu y dylid datblygu sgiliau ehangach 'ar draws pob un o'r pedwar cyfnod addysgol, gan gynnwys Cyfnod Allweddol 4, gan roi llwybrau clir ar gyfer datblygu sgiliau o'r Cyfnod Sylfaen i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru'[26].

Y 'sgiliau ehangach' yng Nghymru yw[27]:

- meddwl yn feirniadol a datrys problemau – mabwysiadu prosesau beirniadol a rhesymegol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd a llunio ymatebion a datrysiadau
- cynllunio a threfnu – sicrhau atebion a gweithredu syniadau a monitro ac ystyried y canlyniadau
- creadigrwydd ac arloesedd – meddwl am syniadau, bod yn agored a magu hyder i archwilio syniadau a mynegi barn
- effeithiolrwydd personol – ystyried eich hun a deall eich hun ac eraill, ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol; bod yn ddysgwr effeithiol.

Mae'r model newydd ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn cydnabod y rolau allweddol sydd i'r sgiliau hyn, yn enwedig o safbwynt cyflogaeth, ond mae dadl gryf o blaid eu

---

25 SCYA ac Arad Research (2013) *A Rapid Evidence Assessment on the Impact of Curriculum and Assessment Arrangements within High Performing Countries* Llywodraeth Cymru

26 Llywodraeth Cymru (2013) *Cwricwlwm Cymru – Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach* Llywodraeth Cymru

27 Mae'r rhestr o sgiliau ehangach hefyd yn cynnwys 'llythrennedd digidol' ond mae hyn wedi'i gynnwys bellach yn y Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd arfaethedig ar gyfer cymhwysedd digidol.

cyflwyno ar ddechrau addysg y plentyn a'u datblygu drwy gydol ei amser yn yr ysgol, yn hytrach na'u cynnwys pan fydd y person ifanc ym Mlwyddyn 10. Mae'r Adolygiad yn cynnig y bydd sylw'n cael ei roi i sgiliau ehangach o ddechrau'r cyfnod mewn ysgol mewn ffyrdd sy'n ystyriol o'r modd y mae plant yn dysgu a datblygu.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r Adolygiad yn cynnig y bydd cymhwysedd digidol yn un o'r tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd. Mae'r Adolygiad yn cynnig y bydd y pedwar sgil ehangach arall yn cael eu cynnwys ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Byddai sefydlu fframweithiau ar wahân ar gyfer y sgiliau ehangach hyn yn cymhlethu cynllun y cwricwlwm ymhellach, a byddai hynny'n ailadrodd rhai o'r pryderon am y sefyllfa bresennol. Bydd ysgolion ac athrawon yn gallu canolbwyntio ar ddyfeisio gweithgareddau addas ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu sy'n adlewyrchu'r sgiliau ehangach hyn.

### Argymhelliad

**8. Dylai'r disgwyliadau ar gyfer y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach gael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.**

## Y chwe Maes Dysgu a Phrofiad

Yn yr adran sy'n dilyn, rydym yn ymdrin yn fwy manwl â phob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad arfaethedig a ffyrdd posibl o'u llunio. Ym mhob achos, rydym yn cynnig sail resymegol i'r Maes Dysgu a Phrofiad, yn amlinellu ei gynnwys ac yn rhoi nifer bach o enghreifftiau i ddangos y berthynas rhwng y Maes Dysgu a Phrofiad a'r pedwar diben cwricwlwm.




### Sail Resymegol

Drwy Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol, bydd ysgolion ac athrawon yn gallu annog plant a phobl ifanc i feithrin eu gwerthfawrogiad a'u doniau creadigol a'u sgiliau celfyddydol a pherfformio. Mae'r celfyddydau mynegiannol yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio, mireinio a chyfleu syniadau, gan ddefnyddio'r meddwl, y dychymyg a'r synhwyrau mewn ffordd greadigol. Wrth ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol, rhaid wrth ymroddiad, dyfalbarhad a gofal am fanylion, ac mae'r rhain yn alluoedd sy'n fanteisiol ar gyfer dysgu'n gyffredinol. Yn yr adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[28], cafwyd y geiriau grymus hyn gan yr Athro Dai Smith, 'Mae'n amlwg … bod gwledydd ledled y byd yn cydnabod arwyddocâd a photensial y celfyddydau o ran galluogi gwell deilliannau addysgol, cymdeithasol ac economaidd'[29].

---

[28] Smith, D (2013) *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* Cyngor Celfyddydau Cymru

[29] ibid. Smith, D (2013)

Mae'r celfyddydau mynegiannol yn ysbrydoli ac yn ysgogi plant a phobl ifanc gan eu bod yn dod â nhw i gysylltiad â phrosesau creadigol, perfformiadau a chynhyrchion pobl eraill ac yn eu symbylu i arbrofi a chreu eu hunain. Maent yn cynnig llawer o gyfleoedd i fwynhau profiadau fel ymweliadau â theatrau ac orielau celf ac i ddod ag arbenigedd arlunwyr a cherddorion, er enghraifft, i'r ystafell ddosbarth. Bydd cyflawniadau yn y celfyddydau mynegiannol hefyd yn fan cychwyn i gyfranogi drwy gydol oes a gall hyn gyfrannu yn y pen draw at ffyniant economi a bywyd diwylliannol Cymru.

### Cwmpas a chysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill


Bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol yn cwmpasu celfyddyd, drama, cerddoriaeth, dawns, ffilm a chyfryngau digidol, gan ymestyn i agweddau creadigol ehangach fel perfformio'n fyrfyfyr. Mae'r Adolygiad wedi ystyried adroddiad yr adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru[30], a nododd fod 'y celfyddydau' yn cynnwys gwneud, perfformio, mynegi neu werthfawrogi un neu ragor o'r ffurfiau canlynol ar gelfyddyd: cerddoriaeth; drama; dawnsio; ffilm a chyfryngau digidol; celfyddydau gweledol a dylunio; llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol. Bydd pob un o'r ffurfiau celfyddydol hyn wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm, yn bennaf drwy Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol, ond bydd deilliannau ar gyfer llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Bydd cysylltiadau hefyd rhwng Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol a'r cydrannau sy'n ymwneud â thechnolegau ym Meysydd Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg a'r Dyniaethau wrth ddehongli a mynegi ystyr.

Mae **enghreifftiau** o'r ffordd y mae profiadau plant a phobl ifanc ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol yn gallu cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar diben y cwricwlwm yn cynnwys:

- (dysgwyr uchelgeisiol, galluog) eu hannog i ymchwilio i feysydd profiad newydd ac ymestynnol ac i ymdrechu i wella eu perfformiad
- (cyfranwyr mentrus, creadigol) meithrin eu creadigrwydd mewn amrywiaeth o ffurfiau mynegi; cynnig cyd-destunau a heriau cyfoethog lle y gallant gydweithio, gan ddysgu drwy arfarnu eu gwaith yn feirniadol
- (dinasyddion egwyddorol, gwybodus) eu galluogi i ddeall eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol cymdeithasau mewn lleoedd a chyfnodau eraill, ac i drafod materion cymhleth ac anodd
- (unigolion iach, hyderus) eu helpu i fagu cadernid a theimlo'n fwy hyderus wrth gael mwynhad a boddhad personol o fynegiant creadigol; cyfrannu'n uniongyrchol at gyfoethogi eu hansawdd bywyd.

---

[30] Smith, D (2013) *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion* Cyngor Celfyddydau Cymru




## Sail Resymegol

Mae angen i blant a phobl ifanc brofi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol er mwyn ffynnu a llwyddo yn eu haddysg. Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles yn eu helpu i gael yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a phriodol, delio â'r materion a'r penderfyniadau anodd y byddant yn eu hwynebu a dysgu i fyw'n annibynnol. Mewn trafodaethau â phlant a phobl ifanc ar gyfer yr Adolygiad, roedd nifer o blant a phobl ifanc wedi dweud eu bod yn teimlo bod y rhain ymysg y materion pwysicaf yr oedd angen iddynt ddysgu amdanynt yn yr ysgol.

Mae'r nod o wella iechyd a lles y genedl wedi bod yn agwedd bwysig ar bolisi Llywodraeth Cymru a'i chymorth i ysgolion ers blynyddoedd lawer. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn yn yr adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol[31]. Drwy Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles, bwriedir helpu i ymdrin â phryderon ynghylch gweithgarwch corfforol a deiet, er enghraifft wrth i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgarwch corfforol a dysgu a meithrin sgiliau ymarferol ar gyfer bwyta'n iach. Wrth i blant a phobl ifanc fagu arferion a fydd yn gwella eu lles eu hunain a phobl eraill, bydd hyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella lles yn gyffredinol.

## Cwmpas a chysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn gwneud defnydd o bynciau a themâu sy'n ymwneud ag addysg gorfforol, lles meddyliol, corfforol ac emosiynol, rhyw a pherthnasoedd, rhianta, bwyta'n iach a choginio, camddefnyddio sylweddau, dysgu a phrofiad cysylltiedig â gwaith, a dysgu i fyw. Mae hefyd yn ymwneud â'r ffordd y mae amgylchedd yr ysgol yn hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc o safbwynt cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol, er enghraifft drwy ei hinsawdd a'i pherthnasoedd, y bwyd y mae'n ei ddarparu, y cydweithio rhyngddi a gwasanaethau perthnasol eraill fel iechyd a gwaith cymdeithasol, a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

Bydd athrawon yn gallu creu cysylltiadau cryf rhwng Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles a Meysydd Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol ac Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (er enghraifft drwy ymchwilio i berthnasoedd drwy gyfrwng drama a llenyddiaeth), Dyniaethau (er enghraifft materion moesegol, yng nghyd-destun addysg grefyddol), a Gwyddoniaeth a thechnoleg (er enghraifft maeth a chenhedlu).

Mae **enghreifftiau** o'r ffordd y mae profiadau plant a phobl ifanc ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles yn gallu cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar diben y cwricwlwm yn cynnwys:

- (dysgwyr uchelgeisiol, galluog) cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd cymdeithasol, corfforol ac emosiynol yn eu bywyd eu hunain

[31] Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol (2013) *Llythrennedd Corfforol – dull Cymru gyfan ar gyfer cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ymysg plant a phobl ifanc* Llywodraeth Cymru

- (cyfranwyr mentrus, creadigol) meithrin sgiliau a phriodoleddau ar gyfer llwyddo mewn gwaith; cymryd rhan mewn gwaith tîm; mentora a chynorthwyo eraill
- (dinasyddion egwyddorol, gwybodus) deall y canlyniadau i weithredoedd sy'n effeithio ar bobl eraill ac arnyn nhw eu hunain ac ystyried y rhain wrth weithredu a phenderfynu; deall materion iechyd, cyfreithiol, gwleidyddol a moesegol sy'n gysylltiedig â pholisi ar gyffuriau ac alcohol
- (unigolion iach, hyderus) deall sut i aros yn ddiogel mewn gwahanol amgylchiadau a ble i droi am gymorth; ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn rheolaidd; meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol.




### Sail Resymegol

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnig cyd-destunau deniadol i blant a phobl ifanc ddysgu am bobl, lle, amser a chred. Bydd yn eu galluogi i ddeall ffactorau hanesyddol, daearyddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ac yn cynnig cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau gwybodus am foeseg, credoau, crefydd ac ysbrydolrwydd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu i ystyried y berthynas rhwng y gwahanol ffactorau hyn, ac yn meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain a phobl eraill, eu hardal eu hunain, Cymru a'r byd mewn gwahanol gyfnodau, lleoedd ac amgylchiadau.

Ceir cyfleoedd cyfoethog drwy Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau i ddysgu y tu allan i safle'r ysgol, er enghraifft drwy astudio'r amgylchedd lleol a dysgu o brofiad pobl, sefydliadau a busnesau yn y gymuned. Bydd plant a phobl ifanc hefyd yn dysgu ac yn meithrin sgiliau er mwyn deall a chyfrannu i'r cymunedau lle y maent yn byw ac ymwneud â materion cymdeithasol.

Yn y cwricwlwm newydd, rydym yn cynnig y bydd addysg grefyddol yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, er mwyn meithrin cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Maes Dysgu a Phrofiad hwn. Mae'n bwysig bod addysg grefyddol yn cynnig profiadau gwerthfawr i blant a phobl ifanc sy'n cyfrannu at gyflawni pob un o'r dibenion addysg. Er bod addysg grefyddol yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol i addysg dysgwyr yn yr unfed ganrif ar hugain, mae ei lle yn y cwricwlwm wedi bod yn ansicr[32]. Gellir camddeall ei rôl a thybio mai ei phwrpas yw hyrwyddo ffydd neu system gred benodol yn hytrach na meithrin parch a dealltwriaeth o wahanol fathau o grefydd dros amser ac mewn gwahanol gymdeithasau. Er mwyn cadw'r

---

[32] Oherwydd hyn, mae addysg grefyddol wedi cael ei diogelu gan y gyfraith fel pwnc statudol yn y cwricwlwm sylfaenol er 1944. Mae ehangder a chydbwysedd addysg grefyddol statudol mewn ysgolion a gynhelir yn cael eu diogelu gan bwyllgorau lleol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol bartïon cysylltiedig (CYSAGau) sy'n sicrhau (ymysg eu dyletswyddau statudol eraill) fod amrywiaeth o grefyddau'n cael eu hastudio a bod yr addysg grefyddol a ddarperir mewn ysgolion yn wrthrychol ac yn gytbwys ac nad yw'n gwthio syniadau ar ddysgwyr. Maent hefyd yn sicrhau bod hawl rhieni/gofalwyr i dynnu plant a phobl ifanc yn ôl o addysg grefyddol yn cael ei diogelu.

hawl hon i'r holl ddysgwyr o bedwar/bump oed ymlaen, rydym yn cynnig y bydd addysg grefyddol, a'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol, yn parhau'n ofyniad statudol yn y cwricwlwm[33].

### Cwmpas a chysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnwys hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol ac astudiaethau busnes a chymdeithasol. Mae'n cynnig cyfleoedd amrywiol iawn i greu cysylltiadau â phob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, er enghraifft yn y Celfyddydau mynegiannol (dylanwadau hanesyddol, daearyddol, geowleidyddol a chrefyddol ar ddiwylliant), Mathemateg a rhifedd (dehongli data), Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (drwy ymchwilio, trafod ac ysgrifennu am faterion cymhleth yn y dyniaethau; ymchwilio i gysylltiadau rhwng diwylliant ac iaith drwy iaith dramor fodern), Gwyddoniaeth a thechnoleg (y newid yn yr hinsawdd, materion amgylcheddol), Iechyd a lles (materion moesegol, amrywiaeth a chydraddoldeb).

Mae **enghreifftiau** o'r ffordd y mae profiadau plant a phobl ifanc ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn gallu cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar diben y cwricwlwm yn cynnwys:


- (dysgwyr uchelgeisiol, galluog) cael gwybodaeth a dealltwriaeth dda o wahanol gyfnodau, lleoedd a chredoau; pennu dulliau priodol i roi prawf ar ddilysrwydd a dibynadwyedd y dystiolaeth a ddefnyddir i ategu dadleuon
- (cyfranwyr mentrus, creadigol) cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n meithrin sgiliau ac anian mentrus; deall sut i arfer eu hawliau a chyfrifoldebau democrataidd
- (dinasyddion egwyddorol, gwybodus) ymdrin â materion cyfoes o amrywiaeth o safbwyntiau hanesyddol, daearyddol, cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol; deall gwahanol gredoau a pharchu'r rheini sy'n eu harddel
- (unigolion iach, hyderus) meithrin safbwyntiau personol ar faterion sy'n ymwneud â ffydd ac ysbrydolrwydd; bod yn hyderus wrth arddel safbwyntiau personol ar faterion fel cynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol drwy ymchwilio i ffynonellau awdurdodol.

### Argymhelliad

**9. Dylai addysg grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, a dylai barhau'n ofyniad statudol yn y cwricwlwm o'r dosbarth derbyn ymlaen.**

---

[33] Yn achos ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, dylid nodi bod ehangder a chydbwysedd addysg grefyddol statudol yn cael eu diogelu gan y corff enwadol priodol er mwyn sicrhau bod addysg grefyddol yn adlewyrchu athrawiaeth a chredoau'r traddodiad crefyddol penodol. Mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol 'y nod yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'u ffydd mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffydd benodol mae'n canolbwyntio arni, ond nid mewn ffordd sy'n gwthio syniadau' – Llywodraeth Cymru (2011) *Ffydd mewn Addysg*.




**Sail Resymegol**

Iaith yw hanfod meddwl ac mae'n anhepgor nid yn unig ar gyfer cyfathrebu effeithiol ond hefyd ar gyfer dysgu, myfyrio a chreadigrwydd. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cynnwys y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer gwahanol fathau o gyfathrebu, llythrennedd a dysgu am iaith ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu cymhwysedd mewn gwahanol ieithoedd.

Mae'r gallu i wrando'n astud a siarad yn glir ac yn ddealladwy neu i gyfathrebu'n effeithiol heb eiriau yn briodoleddau hanfodol mewn dysgu ac mewn bywyd yn gyffredinol. Mae datblygu llafaredd – y capasiti i fynegi syniadau drwy leferydd – yn hanfodol bwysig ar gyfer meddwl a dysgu.

Drwy ddod i gysylltiad â llenyddiaeth, mae dealltwriaeth plant a phobl ifanc o bŵer iaith yn cael ei hymestyn. Gall symbylu'r dychymyg, herio syniadau a chyflwyno syniadau newydd. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn gallu creu cariad at ddarllen a fydd yn cyfoethogi bywydau ac yn cyfrannu at les yn awr ac yn y dyfodol.

Mae dylanwad hollbresennol y technolegau digidol ar fywydau plant a phobl ifanc yn cynnig heriau newydd ac yn creu posibiliadau newydd ar gyfer dysgu ieithoedd. Gellir ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â chywair iaith, cynulleidfa, moeseg ac ystyr mewn cyd-destun sy'n datblygu drwy'r amser.

Mae'r cyfle i ddysgu nifer o ieithoedd yn neilltuol o bwysig yng Nghymru. Drwy ddysgu ieithoedd eraill, mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i ddiwylliannau eraill. Mae tystiolaeth hefyd fod dysgu iaith arall yn llwyddiannus yn gallu dylanwadu ar y capasiti i ddysgu ieithoedd ychwanegol a gall ddod â manteision gwybyddol ehangach. Mae addysgu a dysgu Cymraeg yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n elfen allweddol yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn, a'r bwriad yw y bydd Cymraeg yn orfodol hyd at 16 oed. (Rydym yn trafod materion pellach sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y cwricwlwm yn ddiweddarach yn y bennod hon.)

Bydd y cyfle i ddysgu nifer o ieithoedd yn cynnig heriau penodol wrth gynllunio'r cwricwlwm, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae'n anorfod y bydd yr angen i neilltuo digon o amser ac i fuddsoddi mewn adnoddau angenrheidiol yn codi cwestiynau anodd ynghylch blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cynnig ffyrdd o fanteisio ar y cysylltiadau rhwng dysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, drwy annog plant a phobl ifanc i gymhwyso eu gwybodaeth am y ffordd y mae iaith yn gweithio yn y Gymraeg, er enghraifft, at y Saesneg neu ieithoedd tramor modern. Drwy wneud hyn, gallant ddod i ddeall strwythur ieithoedd. Mae hyn, ynghyd â gwerthfawrogiad o eiriau a'u tarddiad, yn gallu helpu plant a phobl ifanc i feithrin brwdfrydedd a diddordeb mewn iaith.

Ym marn yr Adolygiad, bydd y gallu i ddysgu ieithoedd tramor modern yn cael ei hybu drwy ddatblygu'r Gymraeg yn gynharach, ac mae'n argymell felly y bydd y drydedd a/neu bedwaredd iaith yn cael ei chyflwyno yn y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, neu'n gynharach lle y mae amser, amgylchiadau ac arbenigedd yn caniatáu.

### Cwmpas a chysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cwmpasu'r camau ar gyfer meithrin sgiliau gwrando a siarad (llafaredd), darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg; ieithoedd tramor modern; cyfathrebu digidol; a llenyddiaeth. Mae cysylltiadau amlwg rhyngddo a'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Mae **enghreifftiau** o'r ffordd y mae profiadau plant a phobl ifanc ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn gallu cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar diben y cwricwlwm yn cynnwys:

- (dysgwyr uchelgeisiol, galluog) cyrraedd lefel uchel o gymhwysedd mewn llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg; defnyddio a deall iaith sy'n fwyfwy haniaethol i drafod a datblygu syniadau; dysgu i ddefnyddio ieithoedd ychwanegol
- (cyfranwyr mentrus, creadigol) defnyddio sgiliau iaith llafar ac ysgrifenedig mewn gwahanol gyd-destunau gan fod yn ymwybodol o natur y gynulleidfa a defnyddio gwahanol gyfryngau; cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys lleoliadau gwaith
- (dinasyddion egwyddorol, gwybodus) pwyso a mesur gwahanol safbwyntiau mewn ffordd sensitif a'u harfarnu'n feirniadol; canfod tuedd wrth ddefnyddio iaith
- (unigolion iach, hyderus) cyfleu eu meddyliau, eu barn a'u teimladau'n sensitif a chymryd rhan yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.




### Sail Resymegol

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a rhifedd yn ymwneud â meithrin dealltwriaeth dda, barhaol o gysyniadau mathemategol a hyder wrth arfer a chymhwyso sgiliau rhifiadol mewn bywyd pob dydd. Mae'n cynnwys profiadau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i feithrin sgiliau rhifedd ac ariannol cyffredinol drwy ystyried perthnasoedd mewn meintiau, gofod a data a'u cymhwyso at sefyllfaoedd go iawn.

Mae mathemateg yn helpu plant a phobl ifanc i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas a threfnu eu bywydau. Mae'n rhoi iddynt y sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a dadansoddi gwybodaeth, datrys problemau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Drwy ei haddysgu'n dda mewn cyd-destunau perthnasol, mae mathemateg yn gallu ennyn diddordeb mewn plant a phobl ifanc beth bynnag fo'u diddordebau a'u galluoedd. Mae o gymorth mawr wrth feithrin sgiliau ehangach, yn enwedig meddwl yn greadigol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, a chreadigrwydd ac arloesedd. Bydd yn galluogi pobl i gyfleu syniadau mewn ffordd gryno, ddiamwys ac effeithiol drwy ddefnyddio rhifau a symbolau. Mae cyflawni lefel uchel o gymhwysedd mewn rhifedd a mathemateg yn bwysig i ffyniant y wlad.

### Cwmpas a chysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill

Mae'r Maes hwn yn canolbwyntio ar fathemateg fel disgyblaeth ac ar ei chydrannau traddodiadol, sef rhifyddeg, mathemateg ac ystadegau ynghyd â rhesymeg. Mae'n darparu gwybodaeth a sgiliau anhepgor ar gyfer llawer o'r hyn a ddysgir mewn gwyddoniaeth, gan gynnwys cyfrifiadureg a thechnoleg, ond mae hefyd yn sylfaen ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ym Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles a'r Dyniaethau.

Mae **enghreifftiau** o'r ffordd y mae profiadau plant a phobl ifanc ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a rhifedd yn gallu cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar diben y cwricwlwm yn cynnwys:

- (dysgwyr uchelgeisiol, galluog) cael yr wybodaeth a'r cymhwysedd sydd eu hangen i gymhwyso sgiliau rhifedd a dealltwriaeth fathemategol yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau, yn enwedig mewn gwyddoniaeth, cyfrifiadureg a thechnolegau; cael boddhad o ddatrys problemau a phosau mathemategol anodd
- (cyfranwyr mentrus, creadigol) datrys problemau rhifiadol a mathemategol; defnyddio sgiliau rhifiadol, mathemategol a digidol i gwrdd â heriau mewn gwaith creadigol a dylunio, gan weithio'n unigol ac mewn grwpiau
- (dinasyddion egwyddorol, gwybodus) dadansoddi data'n feirniadol i ffurfio barn wybodus am faterion cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol
- (unigolion iach, hyderus) cael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i drefnu materion ariannol personol yn awr ac yn y dyfodol; dehongli gwybodaeth a data er mwyn asesu risg.




### Sail Resymegol

Mae cysylltiad agos rhwng gwyddoniaeth a thechnoleg, ac mae'r ddwy'n dibynnu ar ei gilydd. Mae gwyddoniaeth yn golygu cael gwybodaeth drwy arsylwi ac arbrofi, ac mae technoleg yn cymhwyso gwybodaeth wyddonol mewn ffyrdd ymarferol. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn elwa ar chwilfrydedd plant a phobl ifanc ynghylch ein byd a'n bydysawd ffisegol, naturiol drwy ymchwilio, deall ac egluro. Byddant yn dysgu i gynhyrchu syniadau a rhoi prawf arnynt, casglu tystiolaeth, arsylwi, ymchwilio'n ymarferol, a chyfathrebu ag eraill. Byddant hefyd yn dysgu drwy gyfrifiadureg i ymestyn ein syniadau ynghylch yr hyn sy'n bosibl.

Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd hefyd i ddysgu am y defnydd o dechnoleg i ddylunio cynhyrchion sy'n gwella ansawdd bywyd pobl ac i gymhwyso eu gwybodaeth wyddonol a gwybodaeth arall at ddibenion a heriau ymarferol. Ar gyfer ysgolion, mae hyn yn golygu cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant a phobl ifanc feithrin sgiliau technolegol, gwybodaeth, dealltwriaeth a

phriodoleddau drwy ddylunio a datblygu cynhyrchion a systemau. Byddant yn gallu ymchwilio i effaith technoleg ar gymdeithas a'r amgylchedd. Drwy ddysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg, bydd nifer o bobl ifanc yn gallu paratoi ar gyfer gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth, diwydiannau digidol a thechnolegau.

Mae'r Adolygiad yn cynnig cyflwyno cyfrifiadureg – a fydd yn cwmpasu, er enghraifft, y mathau o sgiliau meddwl sy'n cael eu harfer mewn cyfrifiadura (gan gynnwys dadansoddi, defnyddio algorithmau a datrys problemau), dylunio a modelu, a datblygu, gweithredu a rhoi prawf ar ddatrysiadau digidol – fel cydran benodol ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae adroddiad y Grŵp Llywio ar TGCh i Lywodraeth Cymru[34] yn 2013 yn disgrifio ei weledigaeth ar gyfer Cymru fel 'bod Cymru'n Genedl Ddigidol-Agile, ag iddi enw am gynhyrchu arloeswyr technolegol dawnus, peirianwyr meddalwedd blaenllaw, entrepreneuriaid llwyddiannus a swyddi eraill cysylltiedig a allai arwain y byd a chyfrannu at lwyddiant diwydiant digidol ffyniannus yng Nghymru'. Mae'n dadlau y byddai cyflwyno cyfrifiadura yn y cwricwlwm yn helpu i greu manteision economaidd a chymdeithasol i'r holl blant sy'n cael eu haddysg yng Nghymru ac yn galluogi Cymru i arwain y byd mewn sgiliau digidol a chyfrifiadura.

### Cwmpas a chysylltiadau â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg yn cwmpasu ffiseg, cemeg a bioleg, peirianneg, technoleg dylunio (bwyd, tecstilau, defnyddiau gwydn), crefftau, dylunio, graffeg ac, yn bwysig, cyfrifiadureg, a chynnwys o faes mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg o'r Llwybrau Dysgu 14–19. Mae cysylltiadau rhwng y Maes Dysgu a Phrofiad hwn a Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, er enghraifft, y Dyniaethau (busnes a diwydiant), Mathemateg a rhifedd (ystyried costau a buddion), ac Iechyd a lles (defnyddio technoleg at ddibenion meddygol).

Mae **enghreifftiau** o'r ffordd y mae profiadau plant a phobl ifanc ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg yn gallu cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar diben y cwricwlwm yn cynnwys:

- (dysgwyr uchelgeisiol, galluog) cael gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniadau allweddol mewn gwyddoniaeth; datblygu sgiliau mewn arsylwi, ymchwil a meddwl yn feirniadol; dysgu sgiliau er mwyn defnyddio technolegau'n greadigol
- (cyfranwyr mentrus, creadigol) cynllunio prosesau a chreu cynhyrchion ac eitemau digidol; cydweithio ag eraill i ddatblygu datrysiadau dyfeisgar a chreu nwyddau ar gyfer y farchnad
- (dinasyddion egwyddorol, gwybodus) gwerthuso effaith datblygiadau gwyddonol a thechnolegol; mabwysiadu safbwyntiau personol gwybodus ar faterion moesegol sy'n gysylltiedig ag arloesedd gwyddonol a thechnolegol
- (unigolion iach, hyderus) dysgu i ddefnyddio data gwyddonol i asesu risg a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth; defnyddio technolegau digidol yn ddiogel gan barchu pobl eraill.

[34] Arthur, S, Crick, T, Hayward, J (2013) *Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru*

## Strwythuro dysgu (2): Camau Cynnydd

Yr ail ddimensiwn yn strwythur y cwricwlwm yw dilyniant: sut y bydd plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd yn eu dysgu, ac ar ba gyflymder. Rhai o'r nodweddion a welir mewn dilyniant yw:

- capasiti i drafod syniadau a materion yn fwy manwl
- llwyddo wrth ddelio â phroblemau mwy cymhleth a deall cysyniadau mwy haniaethol
- dod yn fwy medrus yn eu perfformiad
- adeiladu sylfaen gadarn o ramadeg a sillafu elfennol a chael dealltwriaeth dda o fondiau rhif.

Mae angen pwyntiau cyfeirio ar ysgolion, athrawon, rhieni a gofalwyr i benderfynu a yw plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd priodol wrth ddysgu. Ar y lefel genedlaethol, mae angen i Lywodraeth Cymru gael ei bodloni hefyd fod y system gyfan yn cwrdd â'r disgwyliadau o ran cynnydd a chyrhaeddiad.

Fel y mae'r tabl ar dudalen 34 yn dangos, mae'r cwricwlwm cenedlaethol presennol wedi'i seilio ar y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol, gyda deilliannau neu ddisgrifiadau lefel ar gyfer y gwahanol gyfnodau. Mae llawer i'w ganmol yn y dull hwnnw ond mae'r arfer er 1988 a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad yn awgrymu bod nifer o faterion sy'n peri pryder wrth barhau i'w ddefnyddio.

- Mae rhannu'r cwricwlwm yn gyfnodau ar wahân, sy'n tueddu i gynnwys athroniaethau a dulliau gweithredu penodol, wedi arwain at greu pwyntiau trosglwyddo ychwanegol. Gwelir effeithiau negyddol yn y trosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3, a rhwng Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Ym mhob achos, mae'r newid yn yr athroniaeth neu'r dull gweithredu ar bwyntiau trosglwyddo yn gallu llesteirio dilyniant ac roedd tystiolaeth bod hyn yn gallu cyfrannu at ymddieithrio gan bobl ifanc wrth iddynt fynd drwy'r ysgol.
- Mae cyfnodau olynol yn gallu dylanwadu ar ei gilydd mewn ffyrdd anfwriadol, er enghraifft drwy osod terfyn uchaf ar ddisgwyliadau neu beri i athrawon ystumio eu haddysgu er mwyn peidio ag ymdrin â phethau a all ddilyn yn y cyfnod nesaf. Gall hyn greu dryswch sy'n llesteirio dilyniant.
- Mae lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol yn eang iawn ac maent wedi'u defnyddio'n aml i ddyfarnu ynghylch gallu cyffredinol yn hytrach na'u hystyried yn gerrig milltir ym mhob agwedd bwysig ar ddysgu sydd i'w defnyddio i bennu'r math o gymorth neu her ychwanegol a allai hyrwyddo cynnydd y plentyn neu'r person ifanc.
- Mae'r atebolrwydd ehangach wedi cyfrannu at greu sefyllfa lle y mae neidio'n gyflym dros glwydi'r lefelau wedi dod yn nod, ar draul yr angen am atgyfnerthu a dyfnder wrth ddysgu er mwyn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd pellach.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig y canlynol.**

Er mwyn ymateb i'r pwyntiau hyn, a helpu i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm, mae'r Adolygiad yn cynnig diwygio'r dull o asesu dilyniant, rhwng 3 ac 16 oed, o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad arfaethedig gan gynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.


Mae'r dull hwn yn cydnabod y bydd plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd ar wahanol gyflymder ac y dylid rhoi pwyslais ar osod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau'r dilyniant gorau posibl.

- Y dylai cyfnodau a chyfnodau allweddol gael eu dileu er mwyn gwella dilyniant, ac felly creu mwy o botensial ar gyfer cyrhaeddiad uchel drwy leihau nifer y pwyntiau trosglwyddo a newidiadau mewn dibenion a dulliau gweithredu yn ystod gyrfaoedd ysgol.
- Y dylai dilyniant ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad neu Gyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd gael ei seilio ar gontinwwm dysgu cadarn sydd wedi'i ddisgrifio ar lefel genedlaethol a fydd yn cychwyn pan fydd y plentyn yn dechrau ei addysg ac yn parhau hyd ddiwedd ei addysg statudol yn 16 oed ac ymlaen. Bydd y dysgu'n llai tameidiog gan y bydd yr holl athrawon yn deall sut y bydd eu mewnbwn yn cyfrannu at gyrraedd y pen draw yn y continwwm dysgu.
- Y dylai dysgu gael ei weld yn debyg i daith, gyda mannau aros, gwyriadau a hyrddiau o gynnydd. Dylid dangos dilyniant drwy Gamau Cynnydd, yn hytrach na lefelau. Bydd Camau Cynnydd rheolaidd yn darparu 'map ffyrdd' ar gyfer y cynnydd mewn dysgu gan bob plentyn a pherson ifanc.
- Y bydd Camau Cynnydd yn cael eu disgrifio ar bum pwynt yn y continwwm dysgu a fydd yn cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.
- Bydd Cam Cynnydd 5 ar gael i bobl ifanc sy'n llwyddo i gyrraedd Cam Cynnydd 4 cyn diwedd Blwyddyn 9, gan eu galluogi i ymestyn a dyfnhau eu dysgu cyn iddynt ddechrau astudio ar gyfer cymwysterau. Maes o law dylai cymwysterau gael eu diwygio i gyd-fynd â Chamau Cynnydd 4 a 5.
- Wrth lunio'r Camau Cynnydd cyntaf, rhoddir ystyriaeth lawn i'r canllawiau ar gyfer *Ar Drywydd Dysgu*, a dylid adolygu'r canllawiau yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.



- Mae'r system bresennol o lefelau wedi'i seilio ar farn cyd-fynd orau o ran y cyrhaeddiad disgwyliedig mewn pwnc ar adeg benodol. Fodd bynnag, mae barn cyd-fynd orau o'r fath yn gallu celu amrywiadau mawr o ran cynnydd mewn gwahanol agweddau ar ddysgu a bod yn gyfystyr â barn am allu cyffredinol. Mewn cyferbyniad â hynny, dylid edrych ar bob Cam Cynnydd fel carreg filltir yn natblygiad addysgol pob plentyn, nid fel dyfarniad.
- Felly bydd y Camau Cynnydd yn bwyntiau cyfeirio yn hytrach na disgwyliadau cyffredinol ynghylch perfformiad yr holl blant a phobl ifanc ar adegau penodol.
- Y bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos y dyfnder a'r sicrwydd angenrheidiol yn eu dysgu yn gynharach ac eraill yn hwyrach.
- Y bydd y Camau Cynnydd ar ffurf set o Ddeilliannau Cyflawniad ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn cwmpasu'r cydrannau yn y Maes Dysgu a Phrofiad a'r Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd.
- Y bydd y Deilliannau Cyflawniad yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar diben cwricwlwm. Drwy roi pwyslais ar gyflawniad mewn ystyr cyffredinol, yn hytrach na mesuriadau cyrhaeddiad mwy cyfyng yn unig, mae'r deilliannau hyn yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi ystod ehangach o'r dysgu gan blant a phobl ifanc.
- Y bydd lle hefyd yn y Deilliannau Cyflawniad i gynnwys cyfeiriadau at brofiadau sy'n berthnasol i'r dibenion ac y dylai fod gan blant a phobl ifanc hawl i'w cael er na fyddant o reidrwydd yn hawdd eu mesur mewn ffyrdd confensiynol.
- Y bydd y Deilliannau Cyflawniad ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn ymgorffori cymwyseddau llythrennedd, rhifedd a digidol a sgiliau ehangach fel y bo'n briodol, yn ogystal ag elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig.
- Gan wneud defnydd o'r profiad yn yr Alban, bydd Deilliannau Cyflawniad yn cael eu disgrifio o safbwynt y dysgwr drwy gynnwys termau fel 'Rydw i wedi...' am brofiadau ac 'Rydw i'n gallu...' am ddeilliannau.
- Y bydd y strwythur yn gynhwysol gan y bydd yr holl blant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd ar hyd yr un continwwm, heb ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, er y gallent symud rhwng Camau Cynnydd yn arafach neu'n gyflymach nag eraill. Oherwydd y rhwystrau penodol y maent yn eu hwynebu yn eu dysgu, bydd rhai plant a phobl ifanc yn cymryd mwy o amser o lawer i gyrraedd y Cam Cynnydd cyntaf neu i symud rhwng Camau. Rhaid cydnabod arwyddocâd pob cyflawniad o'r fath.
- Y bydd dyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm sy'n galluogi'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i gyrraedd neu fynd heibio i bob Cam Cynnydd o fewn y cyfnod tair blynedd sy'n berthnasol.
- Camau Cynnydd fydd y sail ar gyfer asesu dysgu hefyd, ac rydym yn ymhelaethu ar hyn ym Mhenodau 5 a 6.

## Camau Cynnydd




**= Mae Camau Cynnydd 1, 2, 3, 4 a 5 yn dangos y cynnydd y bydd y rhan fwyaf o blant yn debygol o'i wneud.**

### Argymhellion ar Ddilyniant

10. Dylai'r cwricwlwm cenedlaethol newydd gael ei drefnu ar ffurf continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed heb gyfnodau na chyfnodau allweddol.
11. Dylai dilyniant gael ei ddisgrifio mewn perthynas â chontinwwm dysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad o'r adeg y mae plentyn yn dechrau mewn ysgol hyd ddiwedd ei addysg statudol.
12. Dylai dilyniant gael ei ddangos drwy Gamau Cynnydd ar bum pwynt yn y continwwm dysgu sy'n cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.
13. Dylai ystyriaeth lawn gael ei rhoi wrth lunio'r Camau Cynnydd cyntaf i'r canllawiau ar gyfer *Ar Drywydd Dysgu*, a dylid adolygu'r canllawiau yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.
14. Dylai'r Camau Cynnydd fod yn bwyntiau cyfeirio sy'n darparu 'map ffyrdd' ar gyfer y cynnydd gan bob plentyn a pherson ifanc unigol wrth ddysgu ac nid yn ddisgwyliadau cyffredinol o ran y perfformiad gan yr holl blant a phobl ifanc ar bwyntiau penodol.
15. Dylai fod ddyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm sy'n galluogi'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i gyrraedd neu fynd heibio i bob Cam Cynnydd o fewn y cyfnod perthnasol o tua thair blynedd.

### Argymhellion ar Ddeilliannau Cyflawniad

16. Dylai Deilliannau Cyflawniad gael eu llunio ar gyfer pob Cam Cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn cwmpasu'r cydrannau yn y Maes Dysgu a Phrofiad ac yn cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach.
17. Dylai Deilliannau Cyflawniad gyfrannu'n glir at gyflawni'r pedwar diben cwricwlwm a dylent roi pwyslais ar gyflawniad mewn ystyr eang, yn hytrach na mesur cyrhaeddiad mewn ffordd fwy cyfyng yn unig. Dylent gynnwys cyfeiriadau at brofiadau perthnasol sy'n cyfrannu at gyflawni dibenion cwricwlwm ac y dylai fod gan blant a phobl ifanc hawl i'w cael.
18. Dylai Deilliannau Cyflawniad gael eu disgrifio o safbwynt y dysgwr drwy gynnwys termau fel 'Rydw i wedi…' am brofiadau ac 'Rydw i'n gallu…' am ddeilliannau.
19. Dylai'r holl blant a phobl ifanc wneud cynnydd ar hyd yr un continwwm, heb ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, er y gallent gyrraedd a symud rhwng Camau Cynnydd yn arafach neu'n gyflymach nag eraill.
20. Dylai brîff clir gael ei baratoi ar gyfer llunio'r Deilliannau Cyflawniad yn unol â'r disgrifiad yn yr adroddiad hwn.

## Dilyniant o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth bynnag fydd y pwyntiau cyfeirio a ddefnyddir, bydd yn hanfodol eu seilio ar ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae plant yn gwneud cynnydd mewn gwahanol fathau o ddysgu a beth fydd angen iddynt ei wybod a gallu ei wneud er mwyn symud ymlaen yn ddiogel at y cam nesaf. Bydd yn bwysig bod y Deilliannau Cyflawniad ym mhob Cam Cynnydd yn ymgorffori'r agweddau pwysicaf ar ddysgu, yn ystyried y ffyrdd y mae plant yn gwneud cynnydd mewn gwahanol fathau o ddysgu, ac yn cydnabod yr hyn y bydd angen iddynt ei wybod a'i wneud er mwyn symud ymlaen yn ddiogel at y cam nesaf. Mae'r canlynol yn dangos sut y gallai Deilliannau Cyflawniad ddangos cynnydd ymhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Ym **Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol** gall plant a phobl ifanc ddangos cynnydd yn eu dysgu drwy, er enghraifft, ddangos sgiliau cynyddol a bod yn fwy hyderus wrth berfformio ac ymestyn eu gallu i ddefnyddio cyfryngau digidol mewn ffyrdd creadigol.

Ym **Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles** gallant ddangos cynnydd drwy ddangos mwy o gymhwysedd wrth eu trefnu eu hunain, a chymryd mwy o gyfrifoldeb dros wneud hynny, a thrwy ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fwy manwl o ffactorau sy'n effeithio ar eu lles nhw a phobl eraill.

Ym **Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau** gallant ddangos sgil cynyddol wrth ddadansoddi tystiolaeth a thrwy ddeall ac egluro materion. Gallant gael dealltwriaeth ehangach a dyfnach o wahanol gredoau a'u heffaith ar gredinwyr.

Ym **Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu** gallant ddangos mwy o feistrolaeth dros dechnegau a fydd yn eu galluogi i gyfathrebu. Gallant ddangos cynnydd drwy hyd, cymhlethdod a chywirdeb eu defnydd o iaith ysgrifenedig a llafar, ac amlygu mwy o allu a hyder wrth sgwrsio am amrywiaeth gynyddol o bynciau yn y Gymraeg. Byddant yn gallu trafod testunau llenyddol sy'n fwyfwy ymestynnol mewn ffordd feirniadol.

Ym **Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a rhifedd** byddant yn dod i ddeall maint a rhif ac, er enghraifft, byddant yn gallu egluro syniadau sy'n fwyfwy haniaethol mewn algebra, arfer dulliau mwyfwy soffistigedig i ddadansoddi a chyflwyno gwybodaeth rifiadol, defnyddio sgiliau y maent wedi'u dysgu eisoes wrth wynebu heriau newydd, cwblhau cyfrifiadau mwyfwy ymestynnol sy'n ymwneud â materion ariannol personol, a dehongli'r canlyniadau.

Ym **Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg** byddant yn ymchwilio i'r byd o'u cwmpas i ddechrau. Gallant ddangos cynnydd drwy egluro cyd-destunau a chysyniadau gwyddonol sy'n fwyfwy cymhleth; dadansoddi, cyflwyno, dehongli a dod i gasgliadau ar sail tystiolaeth sy'n fwyfwy cymhleth; dod yn fwy annibynnol a hyderus wrth ddelio â thasgau dylunio ymestynnol; dod yn fwy deheuig a chywir wrth ddefnyddio sgiliau ymarferol; ac ymwneud ag agweddau ar gyfrifiadura sy'n fwyfwy cymhleth.

## Lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm

Yn dilyn Deddf Diwygio Addysg 1988, daeth Cymraeg yn bwnc gorfodol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ym 1990. O Fedi 1999, daeth yn orfodol hefyd yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i ddysgwyr 3 i 7 oed hefyd wedi golygu bod plant mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yn dechrau dysgu Cymraeg yn dair oed. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i ddatblygu Cymru'n genedl ddwyieithog drwy ei Strategaeth y Gymraeg[35].

Mae'r manteision diwylliannol, gwybyddol ac ymarferol o ddysgu Cymraeg fel iaith fyw yn cynnig dadl gryf o blaid ei chynnwys yn elfen orfodol yn y cwricwlwm ysgol. Ceir dadlau mawr a brwd ynghylch y ffactorau sy'n ffurfio ac yn cadw hunaniaeth ddiwylliannol ond derbynnir yn gyffredinol fod iaith o bwysigrwydd hanfodol yn y broses honno. Yn ei rhagair i *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (2013), mae'r Athro Sioned Davies yn cynnig y farn bod 'dyfodol y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn llwyr ddibynnol ar drosglwyddo'r iaith i'n pobl ifainc'[36]. Nid yr adroddiad hwn yw'r lle priodol i ailddrafod y dadleuon diwylliannol o blaid cadw'r Gymraeg yn fyw ond mae'r Adolygiad hwn yn fodlon derbyn y ddadl o blaid hynny, a'r ymrwymiad cenedlaethol i hynny, ac argymell bod y Gymraeg yn cael ei chadw'n rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol i ddysgwyr 3 i 16 oed.




[35] Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17* Llywodraeth Cymru

[36] Llywodraeth Cymru (2013) *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 – Adroddiad ac Argymhellion* Llywodraeth Cymru

Rydym yn cyfeirio at y manteision gwybyddol posibl o fod yn ddwyieithog yn y sail resymegol i Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Mae rhesymau pragmataidd cryf a chynyddol hefyd dros ddod yn rhugl yn yr iaith. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi bod prinder mawr o bobl yn y gweithlu sy'n gallu gweithio'n effeithiol drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, yn enwedig ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a thwristiaeth. Mae wedi pwysleisio mai'r angen mwyaf yn y meysydd hyn yw'r angen am bobl sy'n gallu cynnal sgyrsiau pob dydd yn Gymraeg â'r cleifion a chleientiaid y maent yn dod i gysylltiad â nhw, yn hytrach nag am weithwyr sydd â chymwysterau uwch yn y Gymraeg.

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) yn credu'n gryf bod dwyieithrwydd yn fantais wirioneddol a'i fod o gymorth i ddysgu ieithoedd ychwanegol ac yn agor drysau i blant a phobl ifanc pan fyddant yn dechrau yn y gweithle. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith ar gyfer cyflwyno dyletswydd ar sefydliadau penodedig i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn y dyfodol, bydd angen cynyddol mewn sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat am staff sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu swyddi at wahanol ddibenion. Mae goblygiadau i'r cwricwlwm ym mhob un o'r datblygiadau hyn.

Polisi Llywodraeth Cymru yw bod y Gymraeg i gael lle diogel yn y cwricwlwm ym mhob ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed. Yn yr ymatebion i'n cais am dystiolaeth, nodwyd yn aml fod y Gymraeg a dwyieithrwydd yn gryfderau yn y system addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn awgrymu bod y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith, ac felly ei safonau, yn anwastad. Ar y cyfan, mae arweinwyr ysgol ac athrawon, mewn ysgolion cynradd yn enwedig, wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a safonau'r iaith. Er hynny, maent yn cydnabod bod diffygion sylweddol yn sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a bod yr wybodaeth am fethodoleg addysgu ail iaith yn gyfyngedig.

Yn ôl tystiolaeth a welwyd gan yr Adolygiad, mae safonau yn y Gymraeg yn gadarn at ei gilydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Estyn hefyd wedi barnu bod mwyafrif y plant yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd priodol wrth siarad a gwrando ar Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, a bod agwedd plant at ddysgu Cymraeg yn gadarnhaol[37]. Fodd bynnag, anaml y bydd y dechrau calonogol hwn yn parhau yng Nghyfnod Allweddol 2 a thu hwnt. At hynny, mae Estyn wedi nodi bod llai o ymarfer da wrth ddysgu Cymraeg fel ail iaith nag mewn pynciau eraill. Mae adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn dangos bod lefelau cyrhaeddiad y plant a phobl ifanc mewn Cymraeg ail iaith ar lefel TGAU yn is nag ar gyfer unrhyw bwnc arall.

Mae'r Athro Davies yn dweud mai '...profiad diflas dros ben' yw dysgu'r iaith i lawer iawn o bobl ifanc ac nad ydynt ' ...yn gweld y pwnc yn berthnasol nac o unrhyw fudd iddynt'[38]. Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn teimlo nad yw'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgu Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus y tu allan i wersi Cymraeg ac, yn sicr, nid y tu allan i'r ysgol.

---

[37] Estyn (2013) *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen* Estyn

[38] Llywodraeth Cymru (2013) *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 – Adroddiad ac Argymhellion* Llywodraeth Cymru

Mae'r Adolygiad wedi derbyn y ddadl o blaid cadw'r Gymraeg yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol i ddysgwyr 3 i 16 oed, ond mae'n glir bod ystyriaethau o ran ansawdd y bydd angen rhoi sylw iddynt er mwyn iddi gael ei derbyn yn llwyr gan blant a phobl ifanc, eu rhieni a gofalwyr a nifer mawr o'u hathrawon. Yn benodol, mae angen meithrin hyder mewn plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith, nid yn unig mewn gwersi ond hefyd mewn gweithgareddau a sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r ysgol.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad ac, yn benodol, yr argymhellion cynhwysfawr yn adroddiad yr Athro Davies, mae'r Adolygiad yn gwneud yr argymhellion canlynol.

## Argymhellion

**21. Dylai'r Gymraeg barhau'n orfodol hyd at 16 oed.**

**22. Dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar.**

**23. Dylai cynnydd yn y Gymraeg tuag at gymhwysedd rhyngweithredol yn 16 oed gael ei adlewyrchu'n briodol yn y Camau Cynnydd a Deilliannau Cyflawniad cysylltiedig.**

**24. Dylai'r gwerth y mae plant a phobl ifanc, athrawon, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd yn ei roi ar y Gymraeg gael ei hyrwyddo drwy ganolbwyntio'n fwy ar ei gwerth masnachol yn y farchnad swyddi, y manteision gwybyddol o ddwyieithrwydd sydd wedi'u hawgrymu a'i phwysigrwydd o ran galluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol a'r presennol.**

**25. Dylai buddsoddi a gwelliannau yn y ddarpariaeth ac mewn codi safonau ganolbwyntio ar gryfhau'r iaith mewn ysgolion cynradd er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu drwy'r Gymraeg ac ieithoedd eraill yn yr ysgol uwchradd. Bydd angen rhoi cymorth i ysgolion uwchradd hefyd i'w galluogi i wella ac addasu eu darpariaeth.**

**26. Dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg weithio fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg, er mwyn helpu athrawon ac ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.**

**27. Dylai cysylltiadau systematig gael eu creu rhwng ysgolion ac asiantaethau allanol sy'n gallu rhoi cymorth ar gyfer addysgu, dysgu a darparu adnoddau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd tramor modern, gan gynnwys darparwyr addysg bellach ac uwch a Mentrau Iaith.**

**28. Dylai defnydd gwell a mwy creadigol o lawer gael ei wneud o dechnoleg wrth addysgu a dysgu Cymraeg yn ogystal ag ieithoedd tramor modern.**

**29. Dylai Llywodraeth Cymru ailalinio cymwysterau iaith Gymraeg yn 16 oed â'r pwyslais arfaethedig ar siarad a gwrando a defnyddio'r iaith yn y gweithle.**

**30. Dylai'r goblygiadau o ran gwella cymhwysedd yn y Gymraeg yn y gweithlu addysg gael eu trafod drwy'r Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg ac adolygiad yr Athro Furlong o addysg athrawon.**

## Dewis

Mae dewis yn bwysig er mwyn helpu i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn eu haddysg. Gellir cyflawni'r dibenion cwricwlwm mewn ffyrdd amrywiol iawn gan ddarparu ar gyfer amrywiadau mawr ym mhrofiadau plant a phobl ifanc unigol. Mae'r Adolygiad yn rhagdybio y bydd yr holl blant hyd at 14 oed yn gweithio i gyrraedd y naill Gam Cynnydd ar ôl y llall o fewn ac ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad. Fodd bynnag, gan fod tair blynedd rhwng y camau hyn, gellir cynnig rhywfaint o ddewis, er enghraifft o ran pynciau ar gyfer ymchwil, yn y cyfnodau hyn os bydd yr ysgol yn gweld bod hynny'n briodol. Yn yr un modd, bydd yn bwysig bod dulliau addysgu a dysgu'n cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddewis gweithgareddau a phrofiadau penodol, yn unol eto â'r dull gweithredu cyffredinol yn yr ysgol.

O tua 14 oed ymlaen, bydd pobl ifanc yn dechrau arbenigo a gwneud dewisiadau. Y syniad sy'n rhedeg drwy'r argymhellion hyn yw y bydd yr holl bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed, beth bynnag fydd eu dewisiadau, yn parhau i gael profiadau a chyfleoedd i astudio sy'n hyrwyddo'r pedwar diben addysg, yn ogystal â pharhau i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, sgiliau rhifedd, cymhwysedd digidol a sgiliau ehangach, yn unol â gofynion Bagloriaeth Cymru ar ei newydd gwedd. Dylid rhoi hawl i bobl ifanc ddewis cyrsiau ac ymgymryd â gweithgareddau ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ar sail Deilliannau Cyflawniad ar y Cam Cynnydd perthnasol, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gofynion y Llwybrau Dysgu 14–19 a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Hyd y gellir, dylai ysgolion ddarparu profiadau i bob person ifanc sy'n adlewyrchu'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd rhai o'r rhaglenni hyn yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig ond mae'n bosibl y bydd gweithgareddau eraill sydd wedi'u cynllunio'n arwain at fathau eraill o gyflawniad a gaiff eu cydnabod mewn ffyrdd gwahanol.

Er y bydd pobl ifanc yn dewis rhai o'r cyrsiau ar gyfer y cyfnod rhwng 14 ac 16 oed, mae rhai agweddau ar y cwricwlwm y dylai'r holl bobl ifanc barhau i'w hastudio beth bynnag yw eu dewisiadau. Ymhlith yr agweddau hyn bydd y rhai sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, fel y Gymraeg, ac iechyd a lles, y rhai sy'n hanfodol i ddyfodol economi Cymru, fel gwyddoniaeth, a rhai fel addysg grefyddol sy'n bwysig er mwyn gwireddu rhai o nodweddion y pedwar diben na fyddent yn cael eu gwireddu fel arall, a llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

### ❯❯❯ Argymhelliad

**31. Rhwng 14 ac 16 oed, y dylai'r holl bobl ifanc ddewis cyrsiau neu ymgymryd â gweithgareddau o bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan felly gynnal ehangder eu haddysg a chwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwyddoniaeth ac iechyd.**



# **Pennod 5:** Addysgeg

Bydd y gallu i gyflawni cynigion yr Adolygiad ar ddibenion a strwythur y cwricwlwm yn dibynnu yn y pen draw ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae swm cynyddol o dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod addysgu da yn hanfodol bwysig i sicrhau dysgu effeithiol[39 40 41 42 43 44]. Felly, er mwyn sicrhau bod argymhellion yr Adolygiad hwn yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd ar ddysgu a chyflawniad, bydd yn hanfodol ystyried yr holl oblygiadau o ran addysgeg. Yn y bennod hon, felly, rydym yn trafod y gyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng dibenion y cwricwlwm ac addysgeg.

Mae addysgeg yn cwmpasu mwy na'r 'addysgu' sy'n digwydd drwy ddulliau yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Mae'n ymwneud â dethol y dulliau hynny'n ystyriol yng nghyd-destun dibenion y cwricwlwm ac anghenion a chyfnod datblygiadol y plant a phobl ifanc. Mae'n galw am gyfuno gwybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol â barn fanwl ynghylch yr hyn sydd ei angen i hybu dysgu effeithiol mewn cyd-destunau penodol. Mae wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud athro neu athrawes ragorol.

## Beth yw goblygiadau cynigion yr Adolygiad o safbwynt addysgeg?

Mae'r canlynol, mewn gwahanol ffyrdd, yn cyfrannu at yr elfennau sy'n arwain at addysgu da: arbenigedd mewn pynciau a methodolegau; sgiliau crefft cadarn yn yr ystafell ddosbarth; dealltwriaeth o'r ffactorau cymdeithasol a seicolegol sy'n dylanwadu ar ddysgu; a'r gallu i symbylu ac ysbrydoli plant i ddymuno dysgu ac i ddysgu'n annibynnol. Mae perygl o ddehongli newidiadau yn strwythurau'r cwricwlwm fel petaent yn ffafrio dulliau addysgegol penodol. Er mwyn bod yn glir, nid yw'r argymhellion yn yr Adolygiad hwn yn golygu bod pwyslais ar unrhyw ddulliau addysgu penodol: mae penderfyniadau ynghylch addysgu a dysgu'n ymwneud yn benodol iawn â chyd-destunau a dibenion, a'r athrawon eu hunain sydd yn y lle gorau i'w gwneud. Felly ni fyddai'n briodol i'r Adolygiad hwn gynnig cyfarwyddiadau manwl ynghylch dulliau addysgu.

Er hynny, mae nifer o egwyddorion addysgegol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r dibenion sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3 a'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu sydd wedi'u hargymell[45].

---

[39] Donaldson, G (2011) *Teaching Scotland's Future: Report of a review of teacher education in Scotland* Scottish Government

[40] Elmore, R F (2004) *School Reform from the Inside Out: Policy, Practice And Performance* Harvard Education Press

[41] Hargreaves, A and Fullan, M (2012) *Professional Capital: Transforming Teaching in Every School* Teachers' College Columbia University

[42] Hattie, J (2009) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-analyses Relating to Achievement* Routledge

[43] Payne, C M (2008) *So Much Reform So Little Change: The Persistence of Failure in Urban Schools* Harvard Educational Press

[44] OECD (2005) *Teachers Matter: Attracting, Developing and Retaining Effective Teachers* OECD

[45] Er bod natur a chynnwys yr egwyddorion a amlinellir yma'n wahanol, mae'r dull cyffredinol yn debyg i'r dull a ddisgrifir yn *Principles into practice: A teacher's guide to research evidence on teaching and learning*, a luniwyd gan y Prosiect Ymchwil Dysgu ac Addysgu, a ddarparwyd i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn 2007.

## 1. Mae addysgu a dysgu da yn canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm

Un o themâu canolog yr Adolygiad yw'r angen i fod yn glir ynghylch dibenion cyffredinol y cwricwlwm. Dylai'r egwyddor honno fod yn gymwys i'r un graddau i'r dewis o ddulliau addysgu a dysgu. Er ei bod yn anodd canolbwyntio ar gyd-destun mor hirdymor o ddydd i ddydd, mae'n bwysig bod cydbwysedd y profiadau a gynigir i blant a phobl ifanc yn cael ei adolygu'n rheolaidd mewn perthynas â'r dibenion cwricwlwm.

Mae'n anochel y bydd y pedwar diben cwricwlwm a gynigir gan yr Adolygiad yn galw am ddefnyddio repertoire eang o ddulliau addysgu a dysgu. Drwy gynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, mae'r strwythur newydd yn rhoi arwyddion clir ynghylch y dulliau addysgu cysylltiedig. Y bwriad yw rhyddhau creadigrwydd ac egni athrawon er mwyn darparu cyfleoedd dysgu cyfoethog i blant a phobl ifanc.

## 2. Mae addysgu a dysgu da yn rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd

Dylai'r Camau Cynnydd arfaethedig bennu disgwyliadau sy'n herio plant a phobl ifanc i anelu'n uchel o ran dyheadau a chyflawniad personol. Dylid addysgu ar sail rhagdybiaethau optimistaidd ynghylch y gallu i wneud gwahaniaeth mewn ffyrdd a fydd yn symbylu dyheadau uchel o'r fath ym mhob dysgwr: 'Notions such as talent, ability and intelligence...are not sufficient to explain learning or achievement'[46]. Mae'n anodd newid credoau hunangyfyngol ynghylch 'potensial' penodedig a gallant gael effaith negyddol iawn ar ddysgu. Dylid cyfleu neges gyson bod ymdrech barhaus yn rhan annatod o ddysgu da ac y gall arwain at gyflawniadau uchel.

Mae canmoliaeth a chefnogaeth yn hanfodol ond mae'r cyfle i wneud camgymeriadau a dysgu ohonynt wrth geisio cyrraedd nodau ymestynnol yn meithrin hyder a chadernid. Bydd dulliau addysgu sy'n ennyn diddordeb dysgwyr mewn nodau sy'n fuddiol yn eu tyb nhw yn gallu sbarduno ymdrech ddisgresiynol ychwanegol ac ymagwedd 'rydw i'n gallu'. Yn aml, defnyddir profion neu arholiadau i greu cymhelliant o'r fath ond mae athro/athrawes dda yn peri i blant a phobl ifanc deimlo'r boddhad mwy cynhenid a geir o ymdrechu i gyflawni a llwyddo mewn tasgau ymestynnol. Drwy hynny, mae dysgu gydol oes yn gallu dod yn fater o gael boddhad personol yn hytrach nag ymateb yn achlysurol i alwadau allanol.

Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael anawsterau o ryw fath neu'i gilydd wrth ddysgu ar wahanol adegau yn ei yrfa ysgol. Rhaid adnabod anawsterau o'r fath yn gynnar a chymryd camau i'w datrys cyn iddynt ymwreiddio. Felly mae ymyriadau cynnar yn agwedd hanfodol ar addysgu a dysgu da.

---

[46] Hattie, J and Yates, G (2013) *Visible Learning and the Science of How We Learn* Routledge

## 3. Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol

Yn aml, bydd newidiadau yn y cwricwlwm yn cael eu cysylltu â chamau i hyrwyddo dulliau penodol o addysgu a dysgu. Ar y naill law, gellir eu gweld yn ffordd o ailddatgan dulliau 'traddodiadol', a elwir weithiau'n 'addysgu uniongyrchol' ac, ar y llaw arall, gellir gweld eu bod yn ffafrio dysgu drwy ddarganfod neu adeileddiaeth. Nid yw pegynu o'r fath yn adlewyrchu natur gymhleth y penderfyniadau a wneir ynghylch dulliau addysgu a dysgu priodol. Felly, gwelir nad yw'r Adolygiad hwn yn arddel unrhyw safbwynt penodol; yn hytrach, mae'n awgrymu bod angen repertoire eang o brofiadau addysgu a dysgu sy'n adlewyrchu'r dibenion cwricwlwm.

Mae perygl arbennig mewn portreadu addysgu uniongyrchol fel dull didactig o hyfforddi'r dosbarth cyfan. Fodd bynnag, mae Hattie yn rhoi'r diffiniad effeithiol canlynol o addysgu uniongyrchol: 'The teacher decides the learning intentions and success criteria, makes them transparent to the students, demonstrates them by modelling, evaluates if they (the students) understand what they have been told by checking for understanding, and re-telling them what they have been told by tying it all together with closure'[47]. Yr elfennau hanfodol wrth arfer y dull hwn yw gosod dibenion a meini prawf llwyddiant clir, modelu ac ymarfer, ac adborth rheolaidd a chraff. Yn y modd hwn, mae addysgu uniongyrchol yn galw ar yr athro/athrawes i chwarae rhan drwy 'sgaffaldio' y broses dysgu. Agwedd bwysig ar y sgaffaldio hwnnw yw creu cyd-destunau lle y gall plant a phobl ifanc ddangos y gallu i ddysgu'n annibynnol mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd.

## 4. Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

Mae lle amlwg yn y dibenion cwricwlwm i'r nod o feithrin gallu plant a phobl ifanc i werthuso gwybodaeth yn feirniadol, creu cysylltiadau, meithrin dealltwriaeth ddwfn o gysyniadau a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau i sefyllfaoedd newydd er mwyn datrys problemau cymhleth mewn ffordd greadigol[48]. Mae addysgeg sy'n gwneud pob defnydd o sgiliau ehangach o fewn ac ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, yn enwedig sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol, yn debygol o ysgogi dysgu effeithiol o'r fath gan blant a phobl ifanc.

Mae'r OECD yn awgrymu bod y broses datrys problemau yn cynnwys ymchwilio i'r broblem a'i deall ac ystyried ei chyd-destun; disgrifio a threfnu gwybodaeth a gasglwyd i greu damcaniaethau; cynllunio a chynnal ymchwiliadau, gan bennu meini prawf llwyddiant; a monitro a myfyrio ar gynnydd a deilliannau[49]. Mae

---

[47] Hattie, J (2009) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-analyses Relating to Achievement* Routledge

[48] OECD (2008) *Innovating to Learn, Learning to Innovate* OECD

[49] Mae esboniadau o bob un o'r rhain yn nogfen OECD (2013), *Pisa 2012 Assessment and Analytical Framework Mathematics, Reading, Science, Problem Solving and Financial Literacy* OECD

meddwl yn greadigol a beirniadol yn rhan annatod o'r broses datrys problemau[50], gan ei fod yn creu prosesau ar gyfer dadansoddi, syntheseiddio a gwerthuso syniadau a chynhyrchion, a chreu cysylltiadau unigryw rhyngddynt neu oddi mewn iddynt. Mae creadigrwydd o'r fath yn dibynnu'n helaeth ar y gallu i gael gafael ar wybodaeth ddilys o ansawdd uchel o amrywiaeth o ddisgyblaethau pwnc a fydd yn gyfrwng i arloesi.

Er mwyn iddynt ymroddi i ddysgu, mae angen amgylcheddau cyfoethog, symbylol ar blant a phobl ifanc lle y gallant ymchwilio ac arbrofi â syniadau ac adnoddau, cydweithio â'u cyfoedion a chreu cysylltiadau dynamig gan deimlo bod diben clir i hynny er mwyn llunio ystyr.

Bydd addysgu da yng nghyd-destun cynigion yr Adolygiad ar gyfer y cwricwlwm yn cryfhau ac yn ymestyn y defnydd o sgiliau ehangach a bydd yn gallu pennu gweithgareddau a strategaethau i hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol ac yn sicrhau bod modd monitro ac asesu'r prosesau hyn er mwyn sicrhau deilliannau dysgu cadarnhaol.




---

[50] OECD (2013) *Pisa 2012 Assessment and Analytical Framework Mathematics, Reading, Science, Problem Solving and Financial Literacy* OECD

## 5. Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb

Mae'r pwyslais mawr ar ddilyniant sy'n cael ei argymell gan yr Adolygiad yn golygu y bydd angen i athrawon osod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb. Wrth ddechrau yn yr ysgol, bydd dyheadau, diddordebau a phrofiadau gwahanol gan blant a phobl ifanc ac felly byddant yn mynd ati i ddysgu yn eu ffordd eu hunain. Ni fydd ymagwedd at ddysgu sy'n cynnig yr un dull ar gyfer pawb yn gallu cwrdd â'r anghenion amrywiol hyn. Er hynny, rhaid i ni beidio â'i gymryd yn ganiataol y byddwn yn gallu adnabod anghenion o'r fath a bod yn effro i'r perygl o wahanu plant yn grwpiau ar sail arwynebol.

Bydd y Camau Cynnydd a gynigir gan yr Adolygiad yn creu cyd-destun lle y bydd athrawon yn gallu dewis dulliau addysgu a dysgu sy'n datblygu o gam i gam ond sydd, er hynny, yn rhoi cryn ryddid i gynnig profiadau deniadol sy'n cwrdd ag anghenion eu plant a'u pobl ifanc.

## 6. Mae addysgu a dysgu da yn creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu

Bydd y dibenion cwricwlwm a'r Camau Cynnydd yn ategu'r angen i sicrhau bod y dysgu'n ystyrlon ac yn ddilys. Disgrifiad Mick Waters o addysgu da yw 'bringing the world into range'[51]. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gweld bod eu dysgu'n berthnasol i'r byd y tu allan i'r ysgol a bod cyfleoedd i ffurfio cysylltiadau â'r byd hwnnw'n cael eu gwireddu. Mae nifer o ysgolion wedi cydnabod eisoes fod angen ymestyn ymhellach na'u harbenigedd eu hunain ac wedi ffurfio cysylltiadau cryf â chyrff ac unigolion y tu allan. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog asiantaethau allanol i gydweithio ag ysgolion. Bydd ymwelwyr ac ymweliadau yn gallu helpu i ddod â syniadau haniaethol yn fyw. Yn yr un modd, mae'r rhyngrwyd yn cynnig llu o gyfleoedd i gael gafael ar adnoddau, ymchwilio i ffynonellau ac ymdrin â materion yn y byd go iawn.

Mae perfformiad yn ei ystyr ehangaf yn bwysig hefyd wrth greu dilysrwydd. Gellir meithrin sgiliau arwain drwy chwarae rhan yn yr ystafell ddosbarth a hefyd drwy gymryd rhan yn fwy ffurfiol mewn clybiau a chymdeithasau. Mae'n bwysig bod ffyrdd o gymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn cael eu dangos mewn sgyrsiau, dadleuon, dramâu, corau ac yn y blaen – ar ba bynnag ffurf sydd orau i ddangos bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei gymhwyso mewn ffyrdd priodol a naturiol.

## 7. Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

Rydym yn edrych yn fwy manwl ar asesu ar gyfer dysgu ym Mhennod 6 ond mae yr un mor berthnasol i addysgu a dysgu da ag y mae i asesu. Mae'r dull asesu ar gyfer dysgu yn galluogi ymarferwyr i ddeall effeithiolrwydd y dysgu ac

---

[51] Waters, M (2013) *Thinking Allowed on Schooling* Independent Thinking Press

yn golygu rhoi adborth rheolaidd ac ystyrlon ac addasu addysgu a deunyddiau i gwrdd ag anghenion unigolion. Yn ogystal â hyn, mae'n helpu dysgwyr i godi safonau a meithrin uchelgais: gall dysgu fod yn effeithiol iawn os rhoddir adborth i ddysgwyr sy'n eu helpu i ystyried materion ac yn rhoi cyfarwyddyd iddynt ar y camau nesaf. Yn yr un modd, mae cydweithio ac adborth rhwng cyfoedion yn gallu creu amgylchedd diogel i gyfleu syniadau a rhoi prawf arnynt.

Mae Dylan Wiliam wedi awgrymu bod asesu effeithiol gan athrawon yn gallu 'dyblu' cyflymder y dysgu – hynny yw, os caiff ei weithredu'n briodol, gallai dysgwyr wneud yr hyn a oedd yn flwyddyn o gynnydd o fewn chwe mis[52]. Yn ôl Wiliam, mater cymharol syml yw gweithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu; yr her yw newid ymddygiad yr ymarferwr er mwyn cynnwys arferion asesu ar gyfer dysgu yn gyson yn yr arferion ystafell ddosbarth.

## 8. Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad

Un o brif nodweddion addysg yr unfed ganrif ar hugain fydd y capasiti i greu cysylltiadau a throsglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng gwahanol gyd-destunau er mwyn delio â phroblemau anghyfarwydd[53]. Fel y nodwyd yn gynharach, ni ddylid edrych ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm arfaethedig fel unedau ar wahân neu feysydd pwnc i'w hamserlennu, ac ni ddylid datblygu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach ar wahân i'w gilydd. Yn hytrach, pwrpas pob un ohonynt yw creu cysylltiadau ac undod oddi mewn a rhwng y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Byddai cysylltiadau ffug yn peri i'r ymdrech fod yn ddiystyr, ond os gellir dod o hyd i gysylltiadau cryf oddi mewn a rhwng Meysydd Dysgu a Phrofiad, byddant yn debygol o wella a chryfhau'r dysgu yn y disgyblaethau sydd wedi'u cynnwys. Dylid ymchwilio i ddulliau addysgegol sy'n rhoi'r gallu i greu cysylltiadau drwy gwestiynau, cysyniadau neu sgiliau cyffredin oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad.

## 9. Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer

O ganlyniad i gynigion yr Adolygiad, bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd dros Lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ynghyd â'r sgiliau ehangach, yn cael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ar ôl ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn y pynciau a Meysydd Dysgu presennol. Bydd angen adolygu'r gwaith hwn maes o law yng nghyd-destun strwythur diwygiedig y cwricwlwm. Fodd bynnag, bydd yr egwyddor o ymgorffori'n parhau. Yn yr un modd, bydd y fframwaith

---

[52] www.journeytoexcellence.org.uk/videos/expertspeakers/assessmentforlearningdylanwiliam.asp

[53] OECD (2013) *Innovative Learning Environments* Educational Research and Innovation, OECD Publishing

cymhwysedd digidol arfaethedig a'r sgiliau ehangach yn cael eu hymgorffori yn y Deilliannau Cyflawniad a fydd yn nodi cyfleoedd i'w cymhwyso yn ystod y broses addysgu a dysgu.

Yr her o ran addysgu o ganlyniad i fabwysiadu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd fydd parhau i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau hyn yn ystod y broses addysgu a dysgu fel y byddant yn cael eu cymhwyso mewn ffordd naturiol a dilys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol.

## 10. Mae addysgu a dysgu da yn cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain

Mae'r dibenion cwricwlwm yn rhoi pwyslais ar yr angen i feithrin hyder a chapasiti i ddysgu drwy gydol oes. Bydd y dull o addysgu'r plant a phobl ifanc yn ddylanwad cryf ar ddatblygiad capasiti o'r fath. Mae angen i ddysgwyr gyfrannu at gynllunio eu dysgu eu hunain drwy gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch lle y maent wedi cyrraedd a beth yw'r ffordd orau o'u helpu i wireddu eu dyheadau yn y dyfodol.

Mae metawybyddiaeth, neu 'dysgu i ddysgu', yn gallu helpu dysgwyr i gymryd mwy o reolaeth dros eu dysgu eu hunain[54]. Mae metawybyddiaeth yn ymwneud â'r wybodaeth sydd gan yr unigolyn am y ffordd y mae ef a phobl eraill yn meddwl, a gwybod sut a pha bryd i ddefnyddio sgiliau/strategaethau ar gyfer dysgu mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae hefyd yn cynnwys y gallu i feddwl yn strategol a defnyddio strwythurau (er enghraifft, cynllunio, monitro a gwerthuso) i gyrraedd nod neu ddatrys problem. Er mwyn dod yn ddysgwyr galluog, bydd angen i blant a phobl ifanc allu cymryd cam yn ôl ac arsylwi ar eu proses dysgu eu hunain, a gweld sut i'w gwella. Drwy gydweithio ag ymarferwyr a chyfoedion, gall dysgwyr fireinio eu sgiliau metawybyddol, gan fod cydweithio'n rhoi cyfle iddynt siarad am eu prosesau meddwl, eu cymharu ag eraill a mireinio eu sgiliau dysgu o ganlyniad. Drwy wneud hyn, bydd y plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses dysgu ac yn deall sut i ddysgu a sut i greu'r amodau gorau ar gyfer eu dysgu eu hunain.

Bydd ar rai dysgwyr angen mwy o gymorth, mwy o enghreifftiau, mwy o ymarfer ac yn y blaen ond bydd yn bwysig o hyd eu bod, lle bynnag bo'n bosibl, yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn gosod targedau uchelgeisiol i'w hunain hefyd. Yr elfen hanfodol mewn dysgu wedi'i bersonoli yw'r rhyngweithio rhwng athrawon a phlant a phobl ifanc ac ymysg y plant a phobl ifanc eu hunain. Bydd yn bwysig bod rhyngweithio o'r fath yn hyblyg ac yn ymateb i anghenion sy'n codi.

## 11. Mae addysgu a dysgu da yn hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol

Ceir yr awgrym hwn mewn adroddiad gan yr OECD a gyhoeddwyd yn 2013: '...learning cannot – and should not – be understood as a purely cognitive activity: practitioners need to be aware of and responsive to students' emotions

---

[54] Gwefan Sutton Trust, Education Endowment Foundation yn http://educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit/meta-cognitive-and-self-regulation-strategies/

and motivations in order for successful learning to happen…They need to feel competent to do what is expected of them and learn better when they experience positive emotions'[55].

Mae addysgeg sy'n hybu agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu yn bwysig ym mhob agwedd ar y cwricwlwm ac yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r dibenion cwricwlwm. Mae hefyd yn agwedd bwysig ar y diffiniad o'r cwricwlwm sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Adolygiad hwn: mae'r hinsawdd ar gyfer dysgu yn rhan o'r profiad dysgu. Bydd dulliau sy'n hybu lles cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr yn cynnig cyfleoedd i feithrin deallusrwydd emosiynol a metawybyddiaeth. O ganlyniad, bydd dysgwyr yn gallu myfyrio ar eu dysgu eu hunain a deall y byddant yn gallu cael effaith gadarnhaol ar y dysgu gan bobl eraill.

## 12. Mae addysgu a dysgu da yn hybu cydweithio

Y gallu i weithredu'n effeithiol fel aelod o dîm yw un o'r sgiliau allweddol y bydd cyflogwyr yn cyfeirio ato'n aml fel un sy'n hanfodol yn y gweithle modern ac mae'n agwedd bwysig ar gynigion yr Adolygiad. Mae dysgu cydweithredol hefyd yn bwysig ohono'i hun. Mae Hattie yn dod i gasgliad diamwys yn ei ymchwil drwy ddatgan, '…cooperative learning is effective'[56]. Mae'n cyfeirio at amrywiaeth o dystiolaeth o ymchwil sy'n dangos bod dysgu gyda chyfoedion yn cael effeithiau cadarnhaol ar gymhelliant, datrys problemau a chyflawniad. Yn y cyd-destun hwn, mae adborth gan gyfoedion yn neilltuol o effeithiol a bydd cynllunio ac addysgu da yn creu cyd-destunau strwythuredig ar gyfer cyflwyno adborth yn adeiladol.




[55] OECD (2013) *Innovative Learning Environments* Educational Research and Innovation, OECD Publishing

[56] Hattie, J (2009) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-analyses Relating to Achievement* Routledge

### Argymhellion

32. **Dylai pob addysgu a dysgu anelu at gyflawni'r pedwar diben cwricwlwm.**
33. **Dylai athrawon ddilyn yr egwyddorion addysgegol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn wrth gynllunio eu dysgu ac addysgu, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n ymwneud yn uniongyrchol â'r dibenion cwricwlwm.**
34. **Dylai plant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu o arbenigedd a phrofiad o'r tu allan i'r ysgol.**

Bydd addysgeg gadarn yn hanfodol wrth weithredu cynigion yr Adolygiad ar y cwricwlwm ac asesu yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu llawer mwy na gweithredu repertoire o ddulliau sydd wedi'i bennu ymlaen llaw ac yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a'r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu. Mae'r goblygiadau o ran creu a datblygu athrawon sy'n ymarferwyr myfyriol yn sylweddol. Felly bydd cysylltiad agos rhwng y camau i weithredu cynigion yr Adolygiad a Bargen Newydd Llywodraeth Cymru i'r Gweithlu Addysg a'r cwestiynau ehangach am addysg athrawon sy'n cael eu hystyried gan yr Athro John Furlong.



# **Pennod 6:** Asesu

Gofynnwyd i'r Adolygiad drafod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, gan gydnabod y rhan hanfodol sydd i asesu yn y dysgu gan blant a phobl ifanc a'r gwendidau yn y trefniadau presennol ar gyfer asesu. Yn y bennod hon, rydym yn ystyried y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau presennol a'r camau y mae angen eu cymryd i wella asesu. Rydym hefyd yn ystyried y goblygiadau o ran asesu sydd yn nibenion a strwythur arfaethedig y cwricwlwm, gan roi sylw i'r egwyddorion addysgegol a nodwyd yn y bennod flaenorol.

## Y trefniadau presennol

Mae datblygiadau mewn polisi addysg yng Nghymru wedi arwain at newidiadau mawr yn y trefniadau ar gyfer asesu ac atebolrwydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos cefnogaeth gyson i'r math o ddull o asesu ar gyfer dysgu sydd wedi'i grybwyll yn y bennod flaenorol[57]. Yn dilyn cyhoeddi *Llwybrau Dysgu drwy asesiadau statudol: Cyfnodau Allweddol 2 a 3*[58], rhoddwyd y prif gyfrifoldeb dros asesu disgyblion yng Nghymru hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 i athrawon. Gwneir barn ar sail y 'cyd-fynd orau' mewn perthynas â lefelau sydd wedi'u diffinio. Darparwyd canllawiau i helpu athrawon i wneud barn o'r fath. Mae'r canlyniadau yn cael eu cyhoeddi ac maent hefyd yn cael eu casglu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru sy'n eu defnyddio wedyn at amrywiaeth o ddibenion monitro a gwybodaeth. Yn fwy diweddar, mae profion ar gynnydd plant a phobl ifanc mewn darllen a rhifedd wedi'u cynnal yn flynyddol ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9 ac mae athrawon hefyd yn asesu cynnydd plant a phobl ifanc ar gwrdd â disgwyliadau yn y FfLlRh. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi tablau cynghrair o berfformiad ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod gwendidau yn ei fframwaith asesu ac nad yw dulliau asesu ar gyfer dysgu wedi'u deall yn dda nac wedi'u gwreiddio[59]. Mae ei chynllun gwella addysgol yn cydnabod bod angen darparu'r math o adborth o ansawdd uchel a geir o asesu ffurfiannol da – asesu er mwyn pennu'r camau nesaf mewn addysgu a dysgu drwy ganfod a yw plant a phobl ifanc yn gwneud y cynnydd a fwriadwyd – er mwyn gwella cyflawniadau gan blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Roedd pryder ynghylch asesu'r dysgu gan blant a phobl ifanc wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad diweddar ar addysg yng Nghymru gan yr OECD[60] a nododd yr angen hwn: '...Ensure that student assessments support learning for all and align to national objectives'. Yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar

---

[57] Llywodraeth Cymru (2010) *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14* Llywodraeth Cymru

[58] Daugherty et al. (2004) *Llwybrau Dysgu drwy asesiadau statudol: Cyfnodau Allweddol 2 a 3* Hawlfraint y Goron

[59] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* Llywodraeth Cymru

[60] OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* OECD Paris

gyfer 2012–2013, nodwyd mai'r argymhelliad mwyaf cyffredin mewn adroddiadau arolygu oedd bod angen gwella'r asesu gan athrawon, a bod hyn wedi'i nodi'n faes pwysig o ran gwella ar gyfer bron i 40 y cant o'r ysgolion a arolygwyd. Hyd yn oed mewn ysgolion lle y cafwyd arolygiadau da ar y cyfan, mae diffyg mewn asesu'n cael ei nodi'n aml. Yn yr un modd, yn y ddogfen *Cwricwlwm Cymru: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru – Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach* (2013), cafwyd awgrym cryf bod y trefniadau asesu'n ddryslyd ac nad oeddent bellach yn addas i'w diben.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn yn ategu'r casgliadau hyn. Anfodlonrwydd ar y trefniadau asesu presennol oedd un o'r negeseuon cryfaf a gawsom. Er enghraifft, roedd yr adroddiad ar ein cais am dystiolaeth wedi tynnu sylw at y farn ganlynol mewn perthynas ag un agwedd ar asesu – 'mae'r Cyfnod Sylfaen yn defnyddio deilliannau, mae Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn defnyddio lefelau, mae Cyfnod Allweddol 4 yn mesur cyrhaeddiad plant a phobl ifanc gan ddefnyddio graddau ac mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn cyflwyno canlyniadau ar ffurf sgoriau safonedig. Mae rhai o'r gofynion statudol yn rhai blynyddol tra bo rhai eraill yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod neu'r cyfnod allweddol. Nid oes unrhyw drefniadau asesu statudol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, ond mae'n ofynnol i ysgolion adrodd ar gynnydd wrth rieni a gofalwyr. O'r herwydd mae angen creu cyfres newydd o drefniadau asesu sy'n gyson ac yn ystyrlon'[61].

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion ar gyfer gwella'r asesu gan athrawon a rhagwelir y dylai'r rhain, ynghyd â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, gyfrannu'n sylweddol at wneud yr asesu gan athrawon yng Nghymru'n fwy dilys a dibynadwy.

## Pa newidiadau sydd eu hangen?

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn dangos bod angen nifer o newidiadau er mwyn gwella'r asesu mewn addysg yng Nghymru, i ddelio â'r gwendidau presennol a sicrhau bod y trefniadau asesu'n ategu'r dibenion addysg.

Dylai'r trefniadau asesu:

- alinio'r asesu â'r dibenion dysgu: asesu beth sy'n bwysig
- bod yn glir am y rhesymau dros asesu a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer y defnydd a wneir o'r canlyniadau asesu
- hyrwyddo'r defnydd o amrywiaeth fawr o dechnegau sy'n addas i'w diben
- cynnwys myfyrwyr yn eu hasesu eu hunain
- sicrhau bod adroddiadau i rieni a gofalwyr yn canolbwyntio ar gynnydd

---

[61] Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur – Adroddiad Terfynol* Llywodraeth Cymru

- bod mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen
- gwneud defnydd systematig o dystiolaeth asesu ynghyd â thystiolaeth arall ar gyfer hunanwerthuso gan yr ysgol
- delio â'r goblygiadau o ran capasiti athrawon mewn arferion asesu da
- ffurfio fframwaith asesu a gwerthuso cydlynol a chytûn wedi'i seilio ar weledigaeth a strategaeth glir yn unol â'r elfennau uchod.

Rydym yn trafod pob un o'r elfennau hyn yn ei thro isod.

## 1. Alinio'r asesu â'r dibenion dysgu: asesu beth sy'n bwysig

Mae dilysrwydd unrhyw fath o asesu'n dibynnu ar ei berthynas â dibenion a deilliannau arfaethedig y broses addysgu a dysgu. Yr her yw creu llinell weledigaeth glir rhwng dibenion cyffredinol y cwricwlwm cyfan a'r bwriadau dysgu yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd.

Nid yw dibenion sylfaenol cyffredinol wedi cael eu datgan ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol presennol ac mae'r ffaith ei fod wedi'i drefnu'n bynciau a lefelau (ar ôl y Cyfnod Sylfaen) wedi tueddu i amharu ar ddilysrwydd yr asesu. Mae'r dysgu wedi'i ddisgrifio'n wahanol ym mhob pwnc ac mae'r dull 'cyd-fynd orau' ar gyfer asesu lefelau'n creu gwahaniaethau mawr rhwng y pwysoliadau ar wahanol agweddau ar gyflawniad gan blant a phobl ifanc. Ychydig o wybodaeth a geir o'r dull 'cyd-fynd orau' am gyflawniad gwirioneddol gan ei bod yn bosibl bod perfformiad da mewn un agwedd ar bwnc yn cuddio perfformiad gwannach mewn agweddau eraill.

Amcan y cynigion sydd wedi'u cyflwyno gan yr Adolygiad yw cryfhau'r berthynas rhwng y dibenion cyffredinol, y cwricwlwm a chynlluniau gwersi ac asesu a rhoi mwy o bwyslais ar ddilyniant. Un o egwyddorion sylfaenol yr Adolygiad yw y bydd strwythur y cwricwlwm a'r trefniadau asesu cysylltiedig yn cyfleu'r pedwar diben cwricwlwm cyffredinol. Mae hyn yn cael ei wireddu drwy ddefnyddio'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn gyfrwng ar gyfer trefnu gwybodaeth, sgiliau ac anian perthnasol. Mae'r Deilliannau Cyflawniad ym mhob un o'r pum Cam Cynnydd arfaethedig hefyd wedi'u diffinio ar sail y pedwar diben cwricwlwm. Bydd y dibenion clir, y set lai o drefnyddion cwricwlwm a'r Camau Cynnydd a ddiffiniwyd yn sail fwy cydlynol ar gyfer dysgu ac addysgu yn ogystal ag asesu.

Bydd nifer o'r bwriadau mwyaf buddiol ar gyfer dysgu gan blant a phobl ifanc yn anodd eu hasesu. Rhaid cael gwybodaeth berthnasol a chymesur drwy'r asesu am y cynnydd a llwyddiant yn yr holl ddeilliannau arfaethedig. Os bydd gormod o bwyslais ar set gyfyng o ddeilliannau (yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig ag asesu lle y mae llawer yn y fantol), mae perygl o leihau cwmpas y cwricwlwm ac mae tystiolaeth bod hyn wedi digwydd mewn nifer sylweddol o ysgolion yng Nghymru. Mae dilysrwydd asesu'n dibynnu ar yr hyn y mae'n ei ddweud am ddysgu mewn perthynas â dibenion y dysgu. Er hynny, mae'n bwysig pwysleisio y dylai graddau'r asesu fod yn gymesur â'i fuddion bob amser.

### Argymhellion

**35. Dylai'r trefniadau asesu sicrhau y bydd yr holl fwriadau a dilyniant pwysig o ran dysgu mewn perthynas â'r pedwar diben cwricwlwm yn cael eu hasesu mewn ffordd berthnasol a chymesur.**

**36. Dylai'r trefniadau asesu gael eu seilio ar y bwriadau a nodir yn y Deilliannau Cyflawniad ar bob Cam Cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.**

## 2. Bod yn glir am y rhesymau dros asesu a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer y defnydd a wneir o'r canlyniadau asesu

Rhaid cynllunio'n ofalus ymlaen llaw ar gyfer asesu. Efallai fod datganiad o'r fath yn ymddangos yn amlwg ohono'i hun ond, wrth ymarfer, bydd yr asesu'n digwydd yn anffurfiol yn aml ac mae'n bosibl mai dim ond tua diwedd y drefn addysgu y bydd yn cael ei ystyried yn ffurfiol, a hynny'n aml drwy osod prawf neu aseiniad at ddibenion adrodd.

Mae Dylan Wiliam wedi dweud mai asesu yw'r bont rhwng addysgu a dysgu[62]. Nid oes perthynas awtomatig rhwng yr hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir a dim ond drwy asesu trylwyr y gallwn ddarganfod pa ddysgu sydd wedi digwydd. Gellir defnyddio'r dystiolaeth o'r asesiadau hynny mewn ffordd ffurfiannol i bennu'r camau nesaf neu mewn ffordd gyfunol i ddisgrifio'r hyn a ddysgwyd. Mae modd defnyddio'r un dystiolaeth o asesu at y naill ddiben neu'r llall – nid y dull o asesu sy'n creu'r gwahaniaeth rhyngddynt ond y defnydd a wneir o'r data asesu. Mae'n bwysig bod yn glir o'r dechrau am y defnydd a wneir o'r data a chynnwys asesu o fewn y broses addysgu a dysgu.

Mae'n bwysig bod asesu ffurfiannol yn rhan annatod a naturiol o'r broses addysgu ac nid yn elfen a ychwanegir. Mae nodweddion asesu ffurfiannol effeithiol wedi'u disgrifio yng ngwaith Paul Black a Dylan Wiliam[63] ac maent hefyd wedi'u nodi'n glir mewn dogfennau fel *Assessment for Learning* yr Assessment Reform Group[64] ac, yn fwy diweddar yn y ddogfen *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* (2010)[65] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys: cynllunio'n effeithiol; bod â dibenion clir; deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddysgu; defnyddio gwahanol dechnegau mewn ffordd hyblyg; gweld asesu'n rhan barhaus ac adeiladol o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth; rhannu meini prawf asesu; adnabod anawsterau'n gynnar wrth ddysgu; rhoi adborth a chymorth effeithiol ac amserol i fyfyrwyr sy'n canolbwyntio ar wella eu dysgu; a hyrwyddo hunanasesu ac asesu gan gyfoedion.

Mae nodweddion asesu cyfunol da yn debyg ond yn rhoi mwy o bwyslais ar asesu natur gronnol yr hyn a ddysgwyd ar bwyntiau priodol yn ystod cwrs neu gyfres o wersi. Wrth asesu'n gyfunol, gellir gofyn i blant a phobl ifanc gyfuno gwahanol agweddau ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu dros gyfnod penodol. Mae'n debygol y bydd mwy o bwyslais ar weithdrefnau cofnodi sy'n galluogi

---

[62] Wiliam, D (2011) *Embedded Formative Assessment* Solution Tree Press

[63] Black, PJ and Wiliam, D (1998) *Inside the Black Box: Raising Standards through classroom assessment* Granada Learning

[64] Assessment Reform Group (2002) *Assessment for Learning: 10 principles* Assessment Reform Group

[65] Llywodraeth Cymru (2010) *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* Llywodraeth Cymru

athrawon i gadw golwg ar y dysgu gan bob plentyn a pherson ifanc, heb deimlo rheidrwydd i gofnodi pob dim. Wrth asesu'n gyfunol, gall fod yn fwy pwysig lleihau'r amrywiadau yn y safonau a gymhwysir gan wahanol athrawon yn ogystal â'r posibilrwydd o gael dyfarniadau â thuedd. Mae hefyd yn bwysig bod ysgolion yn gweithredu mewn ffordd gynlluniedig ac ystyriol ar sail yr asesiadau cyfunol y maent yn eu cael gan athrawon ac yn rhoi gwybodaeth am gynnydd mewn ffordd briodol i rieni a gofalwyr[66].

Yn adroddiad yr OECD nodir: 'In all student assessment systems, there is a need for clear external reference points in terms of expected levels of student performance at different levels of education'[67]. Bydd y Deilliannau Cyflawniad ar gyfer pob Cam Cynnydd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y cynllunio a'r asesu y mae'r OECD yn cyfeirio atynt a'r bwriad yw y byddant yn bwyntiau cyfeirio tymor hir. Maent wedi'u gosod yn fwriadol ar gyfer cyfnodau o dair blynedd er mwyn caniatáu i athrawon gynllunio ac asesu'r hyn a ddysgir heb gyfeirio'n gyson at feini prawf sydd wedi'u pennu'n allanol.

Ffordd ychwanegol o ddefnyddio gwybodaeth asesu, heblaw at ddibenion ffurfiannol a chyfunol, yw ar gyfer atebolrwydd a monitro cynnydd yn allanol. Seiniwyd y rhybudd hwn mewn adroddiad pwysig gan yr OECD ar werthuso ac asesu: '...high-stakes uses of evaluation and assessment results might lead to distortions in the education process...', a hefyd '...it is important to design the accountability uses of evaluation and assessment results in such a way that these undesirable effects are minimised'[68].

Mae'r Adolygiad yn ategu'r dadansoddiad a'r casgliadau yn adroddiad yr OECD. Byddwn yn trafod y goblygiadau o ran atebolrwydd ym Mhennod 7 ond mae'n bwysig cadarnhau yma mai prif bwrpas asesu yw darparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o sicrhau cynnydd gan blant a phobl ifanc yn eu dysgu ac adrodd i'w rhieni a'u gofalwyr ar y cynnydd hwnnw. Drwy wneud hynny, dylai asesu fod yn fodd i wella'r dysgu gan blant a phobl ifanc, yr addysgu gan athrawon ynghyd â dealltwriaeth rhieni a gofalwyr.

### Argymhelliad

**37. Dylai'r trefniadau ar gyfer asesu roi blaenoriaeth i'w rôl ffurfiannol mewn addysgu a dysgu.**

## 3. Hyrwyddo'r defnydd o amrywiaeth fawr o dechnegau sy'n addas i'w diben

Os oes bwriad i gymhwyso asesu at bob un o'r dibenion cwricwlwm, gan gwmpasu ystod eang iawn o sgiliau, gwybodaeth ac anian, bydd angen i athrawon arfer repertoire eang o dechnegau asesu sy'n briodol i'r gwahanol ddeilliannau. Mae'n bosibl ac yn briodol arsylwi ar bob math o weithgarwch dysgu i ganfod a yw'r dysgu arfaethedig wedi digwydd ai peidio.

---

[66] Teaching and Learning Research Programme and the Assessment Reform Group (2009) *Assessment in schools: Fit for purpose? A Commentary by the Teaching and Learning Research Programme* TLRP

[67] OECD (2013) *Synergies for Better Learning: An International Perspective on Evaluation and Assessment* OECD

[68] ibid. OECD (2013)

Mae'r ddogfen *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14*[69] yn nodi rhai egwyddorion buddiol ar gyfer asesu effeithiol. Yn benodol, mae angen i wybodaeth asesu fod yn ddilys (hynny yw, yn asesu'r hyn y mae i fod i'w asesu), yn ddibynadwy (byddai'n arwain at yr un canlyniadau o'i chymhwyso at grwpiau tebyg o blant a phobl ifanc), yn hawdd ei thrafod ac yn ystyrlon i bawb – hynny yw, i blant a phobl ifanc, athrawon, rhieni, gofalwyr a chynulleidfaoedd eraill. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylai systemau asesu ysgolion gynnwys a defnyddio gwahanol ffurfiau o wybodaeth, ac y dylent gydnabod bod gan wahanol gynulleidfaoedd wahanol anghenion o ran gwybodaeth. Mae systemau effeithiol yn defnyddio gwybodaeth ansoddol, fel sylwadau gan athrawon a phlant a phobl ifanc, a gwybodaeth feintiol, fel deilliannau, graddau, lefelau a'r wybodaeth a geir o brofion. Mae'r ddogfen yn nodi hefyd fod yr wybodaeth o weithgareddau asesu'n helpu i ddarparu iaith gyffredin ar gyfer trafod cynnydd a gwelliant.

Gellir casglu llawer o'r hyn sydd ei angen ar gyfer asesu drwy dechnegau a dulliau cyfarwydd: holi penagored a threiddgar ar lafar ac mewn ysgrifen i roi prawf ar ddealltwriaeth a llywio'r camau dysgu nesaf; tasgau addas ar gyfer unigolion a grwpiau; aseiniadau; cwisiau; profion; traethodau; prosiectau ac ati. Ymhlith y dulliau mwy dyfeisgar y mae asesiadau cysylltiedig â pherfformiad sy'n cynnwys, er enghraifft, chwarae rôl, arbrofion ymarferol, cyflwyniadau, portffolios, ac ati. Dylid ymchwilio i gyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o recordio digidol, er enghraifft drwy wneud defnydd o'r ymarfer presennol mewn ysgolion arbennig i ddangos bod targedau dysgu wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.



Gellir cael lefel uchel o ddilysrwydd mewn asesu gan athrawon gan fod modd cynnwys holl ystod y dysgu arfaethedig ynddo, ei gysylltu â'r gwaith cwrs a'i gynnwys ynddo, a'i gynnal yn rheolaidd neu'n barhaus hyd yn oed. Fodd bynnag, mae'r dilysrwydd hwnnw'n dibynnu'n helaeth ar gapasiti'r athro/athrawes i gynllunio asesiadau sy'n adlewyrchu'r nodau dysgu a gall hynny fod yn waith hir a chymhleth. Oherwydd hyn, gall asesiadau gan athrawon fethu ag adlewyrchu ehangder a dibenion dysgu, yn enwedig o ran gwneud cyfiawnder â gwybodaeth a sgiliau mwy cymhleth. Felly, mae'n debygol y bydd angen cymorth ar athrawon, drwy ddatblygiad proffesiynol ac esiamplau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar asesu.

Mewn rhai agweddau ar asesu – yn enwedig wrth gasglu neu gymharu'r canlyniadau ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau neu ysgolion, er enghraifft, at ddibenion gwella ysgolion – mae dibynadwyedd yn fwy pwysig. Gall athrawon gymhwyso safonau marcio gwahanol, a gellir cael amrywiadau mewn amodau perfformiad a thuedd anymwybodol, fel bod amheuaeth yn codi ynghylch dibynadwyedd asesiadau o'r fath. Os bydd angen, gellir delio â hyn drwy gydweithio rhwng athrawon i gytuno ar safonau a chymedroli'r canlyniadau. Fodd bynnag, os yw'r asesu ar gyfer dysgu yn hytrach nag ar gyfer adroddiadau, bydd ystyriaethau o ran dibynadwyedd yn llai pwysig.

[69] Llywodraeth Cymru (2010) *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14* Llywodraeth Cymru

Mae profion, ar ffurf cwestiynau aml-ddewis neu benagored, yn elfen bwysig yn y repertoire o dechnegau asesu. Mae profion rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth yn agwedd hirsefydlog ar addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mae llunio profion sy'n canolbwyntio ar fwy na chofio a chymhwyso syml yn waith hir a chymhleth. Rhaid sicrhau, lle bo'n briodol, fod y profion yn cwmpasu'r holl ddysgu arfaethedig a'u bod yn cael eu gweld yn ddim ond un o blith nifer o ffyrdd o gyfrannu at y broses addysgu a dysgu. Yn rhy aml, rhoddir gormod o bwyslais ar brofion nad ydynt yn cyfrannu ond ychydig at asesu'r hyn sy'n bwysig.

Y fantais mewn profion allanol, safonedig yw eu bod yn ddibynadwy iawn ond mae'n bosibl mai prin fydd eu dilysrwydd mewn perthynas ag ehangder y dysgu arfaethedig. Fel y nodwyd yn gynharach, mae pob plentyn a pherson ifanc yn ymgymryd â Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar hyn o bryd ym mhob blwyddyn rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9. Roedd nifer o'r rheini a gysylltodd â'r Adolygiad yn credu bod profion yn rhywbeth buddiol i ategu asesu gan athrawon a allai roi meincnodau i gefnogi addysgu a dysgu. Er hynny, roedd athrawon plant iau yn enwedig yn teimlo nad oeddent o fudd mawr ac nad oeddent o reidrwydd yn cyfiawnhau'r ymyrraeth ag addysgu a dysgu ac, mewn rhai achosion, y graddau o bryder yr oeddent yn ei greu. Ar ben hynny, nodwyd yn adroddiad yr OECD[70] mai Cymru yw'r unig wlad sy'n cynnal profion cenedlaethol o'r math hwn yn flynyddol. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae lle i adolygu'r trefniadau presennol i leihau effaith negyddol y profion hyn gan gadw eu swyddogaethau buddiol.

Gwelwyd datblygiadau diddorol yn y profion a gynhelir mewn gwledydd eraill. Drwy ddefnyddio dulliau profi ymaddasol, gellir newid graddau'r anhawster mewn cyfres o gwestiynau er mwyn ystyried patrwm yr ymatebion. Felly byddai cyfres o atebion cywir yn arwain at lwybr mwy cymhleth tra byddai'r rheini sy'n cael anhawster yn cael eu cyfeirio ar hyd llwybr llai cymhleth. Gall y costau cychwynnol ar gyfer dull o'r fath fod yn sylweddol ac mae'n creu heriau technegol o ran pennu union lefel yr anhawster cymharol mewn cwestiynau, ond byddai'n bwysig edrych ar y posibiliad o ddefnyddio'r dull hwn. Mae datblygiadau mewn technoleg ddigidol, sy'n deillio'n rhannol o dechnegau gemau cyfrifiadurol, yn creu posibiliadau newydd o ran asesu mwy rhyngweithiol. Er enghraifft, gellir cael ffyrdd eithaf soffistigedig o asesu dysgu cymhleth drwy ddefnyddio dulliau efelychu. Mae Denmarc wedi defnyddio profion ymaddasol ers rhai blynyddoedd ac mae'r Iseldiroedd a Gogledd Iwerddon yn ymchwilio i'w posibiliadau hefyd.

Mae'n anochel y bydd y pwyslais y mae'r Adolygiad yn argymell ei roi, drwy'r dibenion cwricwlwm, ar ystod eang o sgiliau, cymwyseddau, gwybodaeth ac anian yn creu heriau o ran asesu. Mae datblygiadau mewn nifer o wledydd yn dangos enghreifftiau pwysig o ffyrdd posibl o asesu cymwyseddau ehangach o'r fath[71]. Yn eu plith y mae'r offeryn diagnostig ar-lein yn Awstralia, y Prosiect Monitro Addysgol Cenedlaethol yn Seland Newydd, y rhaglen 'dysgu i ddysgu' yn y Ffindir, y Llyfryn Cymhwysedd Personol yn Ffrainc a'r offer dysgu anwybyddol yng Nghymuned Fflemeg Gwlad Belg. Yn eu gwahanol ffyrdd, maent i gyd yn ceisio creu offer a thechnegau asesu a fydd yn caniatáu i ystod ehangach o gymwyseddau gael eu hasesu mewn ffordd ddilys a dibynadwy.

---

[70] OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* OECD Paris

[71] ibid. OECD (2014)

Mae datblygiadau diweddar yn Singapôr yn berthnasol iawn i gynigion yr Adolygiad. Mae Singapôr, sy'n ennill sgoriau uchel ym mhrofion PISA, am roi mwy o bwyslais yn ei chwricwlwm a'i threfniadau asesu ar greadigrwydd a datrys problemau. Mae'n canolbwyntio ar dasgau integreiddiol sy'n galw am wybodaeth a sgiliau o wahanol feysydd pwnc. Rhaid i'r myfyrwyr gydweithio ac ysgrifennu adroddiadau a llunio cyflwyniadau llafar. Mae'r asesu'n ymwneud â'r broses a'r cynnyrch a chaiff ei gyflawni gan athrawon ystafell ddosbarth ar sail meini prawf sydd wedi'u pennu'n ganolog. Fodd bynnag cafwyd canlyniadau cymysg o'r gwerthusiadau o lwyddiant y gwaith hwn a rhoddwyd cryn bwyslais ar bwysigrwydd datblygiad proffesiynol effeithiol a pharhaus[72].

### Argymhellion

**38. Dylai amrywiaeth fawr o dechnegau asesu sydd wedi'u dewis ar sail meini prawf 'addas i'w diben' gael eu defnyddio i adlewyrchu ehangder y dibenion cwricwlwm.**

**39. Dylai asesu gan athrawon, sy'n caniatáu asesu ystod eang o ddysgu, barhau'n brif gyfrwng ar gyfer asesu cyn ymgeisio am gymwysterau.**

**40. Lle y mae bwriad i ddefnyddio canlyniadau asesu ar gyfer cymharu, dylai materion sy'n ymwneud â dibynadwyedd asesu gan athrawon gael eu datrys drwy gymedroli effeithiol; os mai asesu ar gyfer dysgu yw prif bwrpas yr asesu, bydd llai o angen i sicrhau dibynadwyedd rhwng ysgolion.**

**41. Dylai athrawon roi lle pwysig i brofion yn y trefniadau asesu cyffredinol ond dylid cydnabod cyfyngiadau profion o'r fath o ran cwmpasu'r holl fathau o ddysgu arfaethedig.**

**42. Mae profion allanol, safonedig yn rhoi gwybodaeth bwysig ar gyfer meincnodi a dylid eu defnyddio ar y cyd â phrofion ysgol ac asesu gan athrawon. Dylid eu defnyddio mor anaml â phosibl oherwydd eu heffaith ar y cwricwlwm ac addysgu a dysgu.**

**43. Dylai dulliau arloesol o asesu, gan gynnwys dulliau rhyngweithiol, gael eu datblygu gan fanteisio ar y posibiliadau cynyddol mewn technoleg ddigidol.**

## 4. Cynnwys myfyrwyr yn y broses asesu drwy hunanasesu ac asesu gan gyfoedion

Er mwyn i blant a phobl ifanc feithrin eu gallu i ddysgu drwy gydol eu hoes, bydd angen iddynt allu myfyrio a dadansoddi eu cynnydd eu hunain a'u hanghenion am ddysgu pellach. Mae hyn yn golygu meithrin sgiliau hunanasesu a'r anian ar gyfer defnyddio'r sgiliau hynny a gweithredu ar eu sail. Felly mae hunanasesu'n ffordd bwysig o helpu plant a phobl ifanc i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Drwy fyfyrio ar eu dealltwriaeth a'u perfformiad ar sail meini prawf clir, byddant yn gallu adnabod meysydd sy'n peri anhawster na fyddant mor amlwg o reidrwydd i berson allanol sy'n arsylwi. Bydd plant a phobl ifanc hefyd yn gallu cyflwyno tystiolaeth ychwanegol am eu perfformiad mewn perthynas â'r pedwar diben cwricwlwm cyffredinol i roi darlun mwy cyflawn o'u cynnydd.

72 OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* OECD Paris

Mae asesu gan gyfoedion yn ddull lle y mae plant a phobl ifanc yn asesu gwaith ei gilydd mewn parau neu grwpiau. Mae meddwl am berfformiad pobl eraill yn gallu bod yn brofiad dysgu pwysig i'r person sy'n asesu gan ei fod yn galw am ddealltwriaeth ddwfn o natur y dysgu ei hun er mwyn gwneud gwerthusiadau o'r fath. Mae hefyd yn ddull sy'n gallu ysgogi gwahanol fathau o ymateb oherwydd natur fwy hamddenol y cyd-destun a'r tebygolrwydd o fod yn fwy cyfarwydd â'r termau a ddefnyddir i holi.

Mae ffurf arfaethedig y Deilliannau Cyflawniad a fydd yn defnyddio'r geiriau 'Rydw i'n gallu…', 'Rydw i wedi…', yn un y gellir ei haddasu i iaith y bydd plant a phobl ifanc yn gallu ei deall a gellid ei hymestyn, er enghraifft, i gynnwys eu cyfraniadau eu hunain ar y ffurf 'Nawr mae angen i mi…'. Mae disgwyl hefyd y bydd y Deilliannau Cyflawniad yn darparu amcanion dysgu tymor hwy i'w rhannu â phlant a phobl ifanc, a meini prawf llwyddiant ar gyfer hunanasesu ac asesu gan gyfoedion.

Bydd cyfle mawr hefyd i ystyried y rhan y gallai plant a phobl ifanc ei chwarae yn y broses o adrodd i'w rhieni neu eu gofalwyr: wrth gyfathrebu â'r gynulleidfa arfaethedig honno, bydd plant a phobl ifanc yn gallu disgrifio eu cyflawniadau a'u hanawsterau a nodi beth y maent yn bwriadu ei wneud nesaf.

## Argymhellion

**44. Dylai hunanasesu ac asesu gan gyfoedion gael eu datblygu fel ffyrdd o annog plant a phobl ifanc i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.**

**45. Dylai adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd wrth ddysgu gynnwys cyfraniadau gan eu plant mewn perthynas â'u cyflawniadau a'u dyheadau eu hunain.**



## 5. Sicrhau bod cofnodion o gyflawniad ac adroddiadau yn canolbwyntio ar gynnydd ar sail nodau dysgu pwysig, gan gynnwys y pedwar diben cwricwlwm eang

Yn ogystal â'r asesu parhaus sy'n digwydd yn ystod y gwaith arferol mewn ystafell ddosbarth, mae angen rhoi barn fwy cyfunol i blant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr am gynnydd, cyflawniadau a'r camau nesaf i'w cymryd, lle bo'n briodol.

Mae angen i rieni a gofalwyr gael gwybodaeth reolaidd er mwyn cael gwybod am gynnydd eu plant a gweld sut y gallant eu helpu i ddysgu'n well. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu llunio yng nghyd-destun y Deilliannau Cyflawniad a'r Camau Cynnydd. Dylai'r adroddiadau gynnwys gwerthusiad o gyflawniadau a chynnydd plentyn ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a Chyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a hefyd ddisgrifio'r camau y bydd angen eu cymryd iddo wneud mwy o gynnydd. Dylai adroddiadau hefyd gynnwys tystiolaeth fwy cyfannol am ddatblygiad plant mewn perthynas â'r dibenion, a chyfeirio at gyflawniadau perthnasol sydd heb godi'n uniongyrchol o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Bydd mwy o gyfleoedd i ddefnyddio cyfryngau digidol i roi adborth mwy cyson ac un fantais ychwanegol o hynny yw y bydd yn annog rhieni a gofalwyr i ymwneud yn fwy uniongyrchol â dysgu eu plant.

Bydd cofnodion cronnol o gyflawniadau pob plentyn a pherson ifanc yn gallu tynnu sylw'n barhaus at gynnydd wrth ddysgu a hefyd yn fodd i gofnodi cyflawniadau ehangach sy'n ymwneud â'r dibenion cwricwlwm a thynnu sylw atynt. Gellir creu cofnodion o'r fath drwy ddatblygu e-bortffolios ac 'e-fathodynnau' personol sy'n nodi eu cyflawniadau pwysig wrth symud ymlaen drwy'r system. Bydd yn bosibl i'r plant a phobl ifanc ddatblygu portffolios o'r fath eu hunain, a bod yn 'berchen' arnynt, a gall hyn eu helpu i feithrin cymhwysedd digidol. Gallent gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau o brofion, dilyniant ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad a Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd, datganiadau am gynnydd ar y pedwar diben, cyflawniadau allgyrsiol ac yn y blaen.

Bydd angen i athrawon ddefnyddio dulliau syml o dracio'r cynnydd gan blant a phobl ifanc unigol mewn ffyrdd sy'n dangos cynnydd dros amser ac ar draws y cwricwlwm. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth o asesiadau sy'n cwmpasu gwahanol agweddau ar yr hyn y mae'r plant a phobl ifanc wedi'i ddysgu dros gyfnod penodol a lle y gofynnwyd iddynt gymhwyso'r hyn a ddysgwyd mewn cyd-destunau newydd.

Ar y pwyntiau trosglwyddo pwysig, er enghraifft rhwng yr ysgol fabanod a'r ysgol iau a rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, bydd angen mwy o drafodaethau wyneb yn wyneb rhwng athrawon a chydag unigolion ynghylch eu cryfderau a'u gwendidau, gan ddibynnu'n llai ar drosglwyddo data yn unig. Rhaid ystyried cynnydd yr holl blant a phobl ifanc ar y pwyntiau trosglwyddo hyn, nid y rheini sydd ag angen cymorth ychwanegol yn unig. Bydd y portffolio arfaethedig yn gallu chwarae rhan allweddol drwy fod yn sail i'r trafodaethau hyn a'u hwyluso.

### Argymhellion

**46. Dylai adroddiadau cyfunol i rieni a gofalwyr gynnwys asesiadau cyfannol o gyflawniadau mewn perthynas â'r dibenion cwricwlwm, gan wneud defnydd o brofiad o'r tu allan i'r ystafell ddosbarth ffurfiol.**

**47. Dylai plant a phobl ifanc ddatblygu eu e-bortffolio eu hunain, gan gynnwys 'e-fathodynnau' o bosibl, i gofnodi cyflawniadau a phrofiadau allweddol.**

**48. Dylai adroddiadau cyfunol ar bwyntiau trosglwyddo allweddol gael eu hategu gan dystiolaeth mewn portffolios a thrafodaethau wyneb yn wyneb sy'n cynnwys y staff addysgu perthnasol.**

**49. Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau digidol i gael adborth yn gynt gan rieni a gofalwyr a'u cynnwys yn fwy uniongyrchol er mwyn cefnogi dysgu.**

## 6. Bod mor ysgafn ei gyffyrddiad â phosibl ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen

Gan amlaf, ni fydd angen amser ychwanegol ar gyfer asesu gan athrawon, gan ei fod yn deillio o arsylwi a deialog parhaus yn yr ystafell ddosbarth. Mae agweddau eraill ar asesu'n galw am gynllunio gofalus, amser i'r plant gwblhau'r asesiadau, marcio, adborth a chofnodi. Wrth benderfynu ar gynlluniau ar gyfer asesu, mae angen dal y ddysgl yn wastad rhwng y mathau mwy anffurfiol o asesu parhaus a'r gweithgareddau asesu mwy ffurfiol. Mae trefniadau asesu sy'n rhy gymhleth yn mynd ag amser athrawon a phlant a phobl ifanc. Felly bydd dyfarniadau ynghylch pa agweddau ar ddysgu sydd i'w hasesu'n ffurfiol ac i ba raddau, beth sydd i'w gofnodi a pha mor fanwl, a faint o wybodaeth asesu sydd ei hangen i fesur cynnydd wrth ddysgu, yn bwysig iawn.

### Argymhelliad

**50. Dylai polisïau ac arferion lleol a chenedlaethol ar gyfer asesu gael eu cynllunio'n ofalus fel eu bod mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl, gan roi digon o wybodaeth yr un pryd i asesu cynnydd, ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen.**

## 7. Gwneud defnydd systematig o dystiolaeth asesu ynghyd â thystiolaeth arall i lywio hunanwerthuso gan yr ysgol

Dylai hunanwerthuso gan ysgolion wneud cyfraniad allweddol, gan wella ansawdd addysg a safonau cyflawniad. Mae angen i athrawon ac arweinwyr ar bob lefel gael gwybodaeth reolaidd o'r system cofnodi asesiadau er mwyn olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o blant a phobl ifanc. Y prif bwrpas wrth wneud hyn yw pennu unrhyw lwyddiannau a heriau penodol o fewn yr ysgol

gyfan, ond bydd yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig hefyd ar gyfer gwerthuso effaith yr addysgu, y cwricwlwm, yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Mae angen i arweinwyr a llywodraethwyr gael yr wybodaeth hon wrth werthuso cynnydd yr ysgol a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Yn ogystal â ffynonellau tystiolaeth eraill fel arsylwi ar weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a data perfformiad, gellir defnyddio'r Camau Cynnydd a'u Deilliannau Cyflawniad i greu darlun o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

Mae gofyniad hefyd am wybodaeth asesu ar gyfer monitro perfformiad cenedlaethol. Rydym yn trafod yr agwedd hon ym Mhennod 7.

**Argymhelliad**

**51. Dylai ysgolion wneud defnydd systematig o asesiadau o gynnydd gan athrawon, ynghyd â ffynonellau tystiolaeth eraill, i lywio eu hunanwerthusiad at ddibenion gwella ysgolion.**

## 8. Ystyried yr holl oblygiadau sydd mewn arferion asesu da o ran capasiti athrawon

Mae'r gallu i asesu dysgu, yn enwedig ffyrdd o gymhwyso dysgu cymhleth, yn gofyn llawer gan athrawon o ran arfer sgiliau proffesiynol. Er hynny, anaml y bydd asesu'n cael y prif sylw mewn datblygiad proffesiynol parhaus, boed mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon neu mewn dysgu ar hyd gyrfa ar ôl hynny. Mae addysgu a dysgu effeithiol yn galw am ddealltwriaeth sicr a manwl o'r cwricwlwm ac o'r cyfraniad gan asesu ffurfiannol a chyfunol ynghyd â'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chynllunio a dehongli'r amrywiaeth fawr o dechnegau sydd eu hangen ar gyfer asesu da.

Mae'r adolygiad o addysg athrawon sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr Athro John Furlong yn gyfle pwysig i ystyried y goblygiadau sylweddol sydd ynghlwm wrth arferion asesu o ran datblygu sgiliau proffesiynol athrawon.

**Argymhelliad**

**52. Dylai'r rhaglenni dysgu proffesiynol cychwynnol ac ar hyd gyrfa gynnwys elfennau sy'n meithrin capasiti athrawon i asesu'r holl ddibenion cwricwlwm a Deilliannau Cyflawniad.**

## 9. Ffurfio fframwaith cydlynol a chytûn ar gyfer asesu a gwerthuso, wedi'i seilio ar weledigaeth a strategaeth glir

Yr angen i sefydlu fframwaith asesu a gwerthuso y cytunir arno ar lefel genedlaethol yw un o'r prif argymhellion polisi yn yr adolygiad rhyngwladol pwysig o drefniadau asesu a gwerthuso a gynhaliwyd gan yr OECD[73]. Mae'r ffaith

[73] OECD (2013) *Synergies for Better Learning: An International Perspective on Evaluation and Assessment* OECD

nad oes fframwaith o'r fath yng Nghymru wedi cyfrannu at y dryswch ynghylch y dulliau gweithredu presennol. Yn unol â chynigion ehangach yr Adolygiad hwn, ei argymhellion ar gyfer y fframwaith yw '...aim to align curriculum, teaching and assessment around key learning goals and include a range of different assessment approaches and formats...'[74]. Dylai nodi'n glir y rhan sydd i'w chwarae gan asesu ffurfiannol ac asesu cyfunol a dylai wahaniaethu rhwng y gweithgareddau hynny sy'n asesu dysgu ac addysgu a'r rheini sy'n cyfrannu at hunanwerthuso, atebolrwydd allanol a monitro cenedlaethol. Yn benodol, dylai egluro sut y mae cydrannau'r fframwaith asesu'n delio â materion sy'n ymwneud â dilysrwydd a dibynadwyedd y dulliau a ddefnyddir.

### Argymhelliad

**53. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith asesu a gwerthuso cynhwysfawr i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.**

[74] OECD (2013) *Synergies for Better Learning: An International Perspective on Evaluation and Assessment* OECD



# **Pennod 7:** Goblygiadau

Yn y bennod hon, rydym yn edrych yn fwy manwl ar rai o'r goblygiadau a fydd yn codi wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad.

## Goblygiadau i ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd

Mae'r newidiadau yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu sydd wedi'u hargymell gan yr Adolygiad yn cynnig ffordd newydd o feddwl am addysg plant a phobl ifanc drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn cynnig mwy o gyfle i ysgolion cynradd ac uwchradd weithio ar y cyd i gynllunio a darparu cwricwlwm a dull o asesu sy'n datblygu o gam i gam rhwng 3 ac 16 oed. Maent yn cynnig cyfleoedd newydd i athrawon ddarparu profiadau dysgu diddorol ac ymestynnol i'r plant a phobl ifanc. Yn ogystal â hyn, os byddant yn cael eu sefydlu'n effeithiol, byddant yn rhoi profiad addysgol i blant a phobl ifanc sy'n ddyfnach ac yn fwy boddhaol a pherthnasol ac sy'n cydnabod eu cyflawniadau'n fwy eang.

Mae rhai o'r posibiliadau sy'n codi o'r trefniadau newydd wedi'u disgrifio isod.

### Ysgolion meithrin a chynradd

Nododd arweinwyr ysgolion meithrin a chynradd fod ethos, egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen presennol yn gryfder mawr yn yr ymarfer addysgol presennol yng Nghymru. Bydd cwricwlwm wedi'i seilio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad yn hytrach na phynciau'n galluogi ysgolion i wneud defnydd o ymarfer llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen ym mlynyddoedd canol a blynyddoedd diweddarach addysg gynradd ac wedi hynny. Mae nifer bach o ysgolion eisoes wedi ymestyn athroniaeth ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen fel hyn i gynnwys yr ystod oedran 7–11. Yn aml, maent wedi barnu ei fod yn llwyddo i ennyn mwy o ddiddordeb ymysg plant a phobl ifanc ac i ddileu'r ffiniau rhwng pynciau a welir mor aml yn cyfyngu ar greadigrwydd a hyblygrwydd yn y cwricwlwm.

Mewn ysgolion a lleoliadau lle y mae ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn dda neu'n rhagorol a lle y mae athrawon ac ymarferwyr yn meddwl ac yn cynllunio'n greadigol i alluogi pob plentyn i gael profiad o holl Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen presennol dros amser, mae'n bosibl na fydd y cwricwlwm newydd yn ymddangos yn wahanol iawn. Wrth gwrs, bydd angen i ysgolion ystyried y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd yn lle'r Meysydd Dysgu presennol ond, mewn lleoliadau ac ysgolion llwyddiannus, y disgwyl yw na fydd angen newid mawr o ran meddwl nac ymarfer. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o werthusiadau diweddar yn awgrymu bod cryn waith i'w wneud o hyd i sefydlu athroniaeth ac ymarfer o ansawdd uchel ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a gwelliannau angenrheidiol yn y dysgu gan blant yn yr holl ysgolion.

Mae'n debygol y bydd mwy o newidiadau ar gyfer athrawon yn yr ystod oedran 7–11 (a elwir yn Gyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd). Yn hytrach na theimlo bod pwysau arnynt i gynnwys holl bynciau'r cwricwlwm bob wythnos, a gwneud

hynny'n annigonol, fel y mae nifer o athrawon wedi dweud, byddant yn gallu meddwl yn fwy hyblyg a chreadigol ynghylch cynllunio profiadau dysgu ar gyfer eu plant a'u pobl ifanc. Gan y bydd llai o gynnwys penodedig, bydd hawl gan blant a phobl ifanc i gael amrywiaeth o ddysgu a phrofiadau ym mhob maes a fydd yn ffurfio cwricwlwm eang a chytbwys dros amser. Gall ysgolion ac athrawon ddewis trefnu'r dysgu ym mha ffordd bynnag sy'n debygol o arwain at y deilliannau a safonau gorau ar gyfer eu plant a'u pobl ifanc. Gall hyn gynnwys dysgu drwy dopigau, prosiectau, wythnosau thematig, wythnosau ymchwilio, digwyddiadau arbennig, ac ystyried ac ymchwilio i faterion pwysig.

Rydym yn rhagweld y bydd newidiadau mewn trefniadau asesu ac atebolrwydd yn cryfhau'r ymdeimlad hwn o symud i gyfeiriad newydd. Bydd athrawon yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio dulliau asesu i hyrwyddo dilyniant yn y dysgu gan bob plentyn, gan bennu anawsterau a dangos beth fydd y camau nesaf. Dylai profion fod yn was ac nid yn feistr yn y broses hon. Bydd cymedroli gan gyfoedion yn helpu i wneud yr asesu'n fwy dibynadwy ond bydd yn cynnig cyfleoedd sydd yr un mor bwysig ar gyfer trafodaeth broffesiynol ynghylch disgwyliadau a sut i asesu'r agweddau pwysicaf ar ddysgu.

Mae'n bwysig na fydd athrawon byth yn teimlo eu bod yn gorfod gweithio mewn un Maes Dysgu a Phrofiad yn unig. Yn hytrach, dylent deimlo eu bod yn fwy rhydd i greu cysylltiadau gwirioneddol rhwng Meysydd, gan ddefnyddio'r Camau Cynnydd a Deilliannau Cyflawni i'w galluogi i sicrhau parhad a dilyniant yn y dysgu gan bob plentyn.

O safbwynt y plant a phobl ifanc, bydd y trefniadau newydd yn helpu i sicrhau eu bod yn profi'r holl fanteision sydd ynghlwm wrth addysg gynradd. Bydd y dibenion cwricwlwm yn helpu i sicrhau eu bod yn datblygu'n unigolion sydd â chymeriad crwn, sydd â sgiliau cryf mewn llythrennedd a rhifedd ac sy'n gallu dysgu a defnyddio cymwyseddau digidol mewn cyd-destunau creadigol. Bydd eu sgiliau Cymraeg yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy addysg gynradd. Byddant yn hyderus ac yn gwybod sut i aros yn iach a diogel. Byddant yn cael eu hannog i ymwneud yn uniongyrchol â siapio eu dysgu eu hunain, gan gynnig enghreifftiau o gyflawniadau y maent yn falch ohonynt.

Er enghraifft, gellid seilio astudiaeth o afon leol ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnig cyfleoedd o bob math mewn meysydd eraill. Gellid ei gysylltu â Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol drwy wrando ar ddarn o gerddoriaeth fel Vltava gan Smetana a chyfansoddi cerddoriaeth neu greu dehongliadau gweledol neu berfformiadau dawns neu ddrama i gyfleu taith yr afon rhwng ei tharddle a'r môr. Bydd cyfleoedd i ddefnyddio iaith ffeithiol a chreadigol yn bwrpasol i greu llyfrynnau neu farddoniaeth ac i gymhwyso sgiliau mathemategol a gwyddonol i arsylwi ac ymchwilio i ffenomenau naturiol a mesur dyfnder a chyflymder. Bydd yn galluogi plant a phobl ifanc i wella eu hiechyd a lles drwy fwynhau awyr iach a cherdded yn ddiogel yn y bryniau i chwilio am darddle nant leol a defnyddio sgiliau darllen mapiau i ddilyn y cyfan neu ran o'i thaith.



Nid yw hyn yn rhywbeth newydd. Dyma beth y mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac ymarferwyr llwyddiannus yng Nghymru wedi'i wneud yn effeithiol ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos yn aml fod ymarfer da o'r fath yn digwydd er gwaethaf ac nid oherwydd gofynion y cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Y bwriad wrth gyflwyno ffocws newydd a ffordd wahanol o drefnu a meddwl am y cwricwlwm drwy Feysydd Dysgu a Phrofiad a Chamau Cynnydd yw ailfywiogi addysg a sicrhau bod dysgu'n rhywbeth cyffrous a pherthnasol i blant a phobl ifanc ac athrawon.

## Ysgolion uwchradd

Ar gyfer arweinwyr ysgol, bydd y trefniadau newydd yn rhoi mwy o ryddid i gynllunio ac yn darparu cwricwlwm mwy perthnasol a fydd yn codi safonau ac yn cwrdd ag anghenion eu pobl ifanc drwy fframwaith o ddisgwyliadau cenedlaethol sy'n llai ond yn fwy cydlynol a chyson. Nid yw'r trefniadau newydd yn argymell strwythur amserlen penodol a gall ysgolion drefnu'r diwrnod, yr wythnos a'r flwyddyn ysgol mewn ffyrdd dyfeisgar a fydd yn sicrhau ehangder a dilyniant yn y dysgu gan bob person ifanc gan osgoi'r darnio sy'n gallu codi o amserlen sydd wedi'i seilio'n llwyr ar bynciau. Bydd y disgwyliad o ran codi safonau'n parhau ond bydd mesuriadau perfformiad yn cael eu haddasu ar gyfer y trefniadau newydd ac yn ategu'r angen i gynllunio cwricwlwm sy'n cyflawni'r pedwar diben cwricwlwm.

Ym mlynyddoedd cynnar addysg uwchradd, bydd yn bwysig cynllunio'r cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n cyflawni'r disgwyliadau sydd gan nifer mawr o bobl

ifanc sy'n edrych ymlaen yn eiddgar at symud o addysg gynradd ond sy'n cael eu dadrithio wedyn gan gwricwlwm sydd yn aml yn annilys ac yn anniddorol. Dylai'r blynyddoedd hyn fod yn uchafbwynt cyffrous i'r dilyniant o ddysgu a ddechreuodd yn y Cyfnod Sylfaen, a fydd yn cael ei gryfhau a'i ymestyn yn awr drwy addysgu arbenigol mewn pynciau. Dylid defnyddio'r blynyddoedd hyn i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth a fydd yn sail i gymwysterau yn y dyfodol ond nid yw hynny'n golygu mai rhyw fath o 'ystafell aros' yw'r blynyddoedd hyn cyn gweithio ar gyfer y cymwysterau hynny nac y dylai cyrsiau gael eu cynllunio ar sail y gofynion disgwyliedig mewn arholiadau. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei newydd gwedd, a'i phwyslais ar sgiliau a 'heriau', eisoes wedi creu goblygiadau newydd i'r cwricwlwm uwchradd yn fwy cyffredinol. Mae'r strwythur cwricwlwm newydd yn annog datblygu'r elfennau hyn yn y 'Bac' drwy'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad ac ym mhob rhan o addysg uwchradd. Drwy wneud hyn, rydym yn rhagweld y bydd cynigion yr Adolygiad yn darparu'n well ar gyfer perfformiad mewn cymwysterau.

Ar gyfer athrawon, bydd y trefniadau'n llai cymhleth o lawer nag ar hyn o bryd. Bellach bydd yr holl ganllawiau mewn un lle a bydd disgwyliadau o ran llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a sgiliau ehangach wedi'u hymgorffori ac ni fydd angen cynllunio ar eu cyfer ar wahân. Bydd y dibenion cwricwlwm yn bwyntiau cyfeirio cyson ar gyfer penderfyniadau am y ffordd orau o drefnu ac asesu dysgu. Bydd y rhain, ynghyd â'r cynigion ar strwythur a threfniadau asesu, yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal dysgu ymestynnol a dwfn a chymhwyso'r hyn sy'n cael ei ddysgu ar draws y cwricwlwm. Bydd llai o gyfarwyddiadau manwl a mesuriadau perfformiad cul i gyfyngu ar ddulliau addysgu a dysgu.

Bydd cynigion yr Adolygiad yn rhoi cyfle mwy o lawer i athrawon gynnwys asesu mewn addysgu a dysgu mewn ffordd adeiladol a chyfannol. Maent yn cadarnhau bod asesu gan athrawon yn bwysig ond yn awgrymu ffyrdd o osgoi'r camystumio a geir o roi gormod yn y fantol mewn asesu o'r fath. Un o'r heriau i athrawon uwchradd fydd meithrin y sgiliau sydd eu hangen i asesu'r math o ddysgu dwfn a chymhwysol sydd wedi'i argymell gan yr Adolygiad. Bydd y cydweithio rhwng ac oddi mewn i ysgolion yn bwysig wrth feithrin arbenigedd o'r fath.

Mae'r Meysydd Dysgu a Phrofiad arfaethedig yn cynnwys dysgu am bynciau a dysgu cyfryngol. Mae'r Camau Cynnydd yn darparu cerrig milltir clir ar gyfer dysgu heb gyfyngu ar benderfyniadau ar addysgu a dysgu o ddydd i ddydd. Mae'n debygol y bydd y cynllunio gorau'n digwydd drwy gydweithio rhwng athrawon i ateb gofynion y Deilliannau Cyflawniad, i gynllunio cyfleoedd ar gyfer addysgu mewn tîm ac i bennu a datblygu adnoddau.

Ar gyfer pobl ifanc, bydd y trefniadau newydd yn darparu addysg ar gyfer cyflawni dibenion cwricwlwm sydd â'r bwriad o'u paratoi ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol. Byddant yn dysgu ar sail cwricwlwm eang ac ymestynnol a fydd yn meithrin eu sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gyson. Byddant yn ymdrin â diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm ac yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg at safon weithredol o leiaf. Bydd anogaeth iddynt fod yn greadigol a chael dyheadau uchel. Byddant yn cael cymorth i wireddu'r

dyheadau hynny ac ni fydd unrhyw derfyn artiffisial ar eu cynnydd. Bydd y cynnydd hwnnw'n cael ei gydnabod mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, drwy lunio portffolios a fydd yn cynnwys enghreifftiau o gyflawniadau y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol sy'n gysylltiedig â'r dibenion cwricwlwm.

Er enghraifft, gallai ysgol ddarparu rhaglen ar gyfer Blwyddyn 7 yn ystod rhan helaeth o'r wythnos ysgol sy'n meithrin sgiliau o bob math drwy ddull thematig, gan hwyluso dilyniant o'r ymarfer yn yr ysgol gynradd. Gellid cynnwys cyfres o brosiectau mewn rhaglen o'r fath dros y flwyddyn a'i chynllunio ar sail methodoleg y sgiliau meddwl, sef 'cynllunio, datblygu a myfyrio'. Byddai'r prosiectau'n cwmpasu'r holl bynciau, er y gellid darparu addysgu arbenigol ar gyfer llythrennedd a rhifedd a meysydd fel ieithoedd tramor modern ac addysg gorfforol. Gellid seilio'r prosiectau ar amrywiaeth o dopigau diddorol sy'n datblygu gwahanol sgiliau a meysydd pwnc, er enghraifft, ar dopigau fel 'cynaliadwyedd' ac 'arloesedd'. Byddai timau staff o'r holl bynciau'n cynllunio ac yn cyflwyno'r cwricwlwm, tra byddai amserlennu ar sail gwersi lluosog yn rhoi hyblygrwydd i greu grwpiau addysgu o wahanol feintiau a hefyd i addysgu mewn tîm.

Yn y pen draw, bydd y cwbl yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd. Mae'r broblem o gynnal cymhelliant pobl ifanc, yn enwedig ym mlynyddoedd cynnar addysg uwchradd, yn un a welir mewn ysgolion ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn gallu datrys y broblem hon ond y bwriad yw y byddant yn rhoi mwy o ryddid i ysgolion ac athrawon greu dulliau o addysgu a dysgu a fydd yn well o ran cwrdd ag anghenion a dyheadau eu plant a'u pobl ifanc.

## Goblygiadau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae'r Adolygiad hwn yn cyflwyno cwricwlwm a fframwaith asesu ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru lle bynnag y maent yn derbyn eu haddysg. Mae ysgolion arbennig yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu amrywiol iawn ac mae llawer o'u harferion da presennol, gan gynnwys eu harferion asesu, eisoes yn cyd-fynd â chynigion yr Adolygiad. Gellir cymhwyso'r pedwar diben cwricwlwm a ddisgrifiwyd i bob plentyn a pherson ifanc. Yn yr un modd, dylai'r Camau Cynnydd a'r Deilliannau Cyflawniad fod yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc, gan greu cyfleoedd iddynt elwa ar brofiadau amrywiol iawn.

Dylai fod yn gymharol hawdd i addasu'r rhaglenni dysgu a gynigir mewn ysgolion arbennig ar hyn o bryd er mwyn gallu cyflwyno cwricwlwm sy'n cynnwys y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, y tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach. Yn unol â'r arfer bresennol bydd angen iddynt gynllunio dulliau addysgegol er mwyn bodloni anghenion dysgu penodol eu plant a'u pobl ifanc unigol. Bydd y cwricwlwm yn creu cwmpas ar gyfer creadigrwydd ac arloesi a bydd yn hollbwysig fod athrawon a gweithwyr cymorth dysgu (staff cymorth mewn

ystafelloedd dosbarth) yn defnyddio'r cwmpas hwn i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni dysgu sy'n berthnasol ac yn ystyrlon i'r plant a'r bobl ifanc yn eu hysgolion.

Bydd modd i ysgolion ddewis y strategaethau gweithredu mwyaf priodol, gan ystyried eu hamgylchiadau. Bydd gan rieni, gofalwyr a phlant a phobl ifanc rolau hollbwysig o safbwynt datblygu rhaglenni dysgu, yn unol ag egwyddorion yr Adolygiad. Yn ogystal, bydd angen integreiddio cymorth amlasiantaethol yn yr holl waith cynllunio mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu mwyaf cymhleth.

Bydd angen darparu hyfforddiant pwrpasol i sicrhau bod athrawon a gweithwyr cymorth dysgu yn meithrin y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i ddarparu'r cwricwlwm newydd. Dylid ystyried hyn fel rhan bwysig o'r Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg.

## Y broses diwygio

Yn ystod yr Adolygiad hwn, un o'r materion a godwyd dro ar ôl tro oedd a oedd y mecanweithiau ar gyfer penderfynu am y cwricwlwm a ddefnyddiwyd yn y gorffennol wedi rhoi digon o ystyriaeth i gapasiti ysgolion ac athrawon i gyflawni'r hyn a ddisgwylid ganddynt yn dda. Y farn gyffredinol oedd bod y dyheadau polisi wedi'u derbyn yn rhai priodol at ei gilydd, ond nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi mewn llawer achos i'r agweddau cymhleth ar weithredu.

Nid oes un dull sy'n rhagori ar gyfer diwygio addysg yn effeithiol. Mae tystiolaeth o waith ymchwil yn cynnig darlun eithaf anaddawol o'r profiadau o ddiwygio addysg mewn gwahanol gyd-destunau[75] [76] [77].

Mae strategaethau newid yn ddibynnol iawn ar y diwylliant a'r cyd-destun penodol ac mae perygl mewn ceisio troi mater cymhleth iawn fel diwygio addysg yn atebion orsyml heb roi digon o sylw i natur addysg a'i chymhlethdodau. Mae'n ddigon posibl y bydd yr hyn sy'n llwyddo mewn un wlad yn amhriodol o'i gymhwyso mewn mannau eraill. Wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad, bydd angen dysgu gwersi o gyfyngiadau ymdrechion i ddiwygio addysg yn y gorffennol a mabwysiadu'r strategaeth ar gyfer newid sy'n fwyaf addas i'r cyd-destun yng Nghymru a'i diwylliant addysgol.

Cafwyd nifer o enghreifftiau da o ddiwygio helaeth ar y cwricwlwm dros ddegawdau lawer yn ogystal ag enghreifftiau negyddol, ac mae'r rhain yn awgrymu y dylai strategaeth effeithiol ar gyfer newid fod yn un:

- sydd â strwythur llywodraethu sy'n cadw trosolwg strategol ar weithredu, sy'n gynhwysol, sy'n cynnwys mecanweithiau dibynadwy ar gyfer gwerthuso ac adborth ac yn caniatáu penderfynu clir ac amserol

---

[75] Hoyle, E, and Wallace, M (2005) *Educational Leadership: Ambiguity, Professionals and Managerialism* Sage Publications

[76] Hattie, J (2009) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-analyses Relating to Achievement* Routledge

[77] Elmore, R F (2004) *School Reform from the Inside Out: Policy, Practice And Performance* Harvard Education Press

- sy'n sicrhau bod dibenion a manteision arfaethedig y rhaglen ddiwygio arfaethedig yn cael eu cyfleu'n glir ac yn effeithiol
- sy'n sefydlu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu i sicrhau bod y proffesiwn addysgu'n cymryd rhan
- sy'n sicrhau bod grwpiau rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig rhieni a gofalwyr, yn deall ac yn cefnogi'r diwygiadau
- sy'n pennu disgwyliadau o ran cyflymder y newid gan ystyried yr angen i feithrin hyder a chapasiti athrawon ac ymarferwyr eraill, sef y rhai y bydd llwyddiant y rhaglen ddiwygio, yn y pen draw, yn dibynnu arnynt
- sy'n hyblyg a chreadigol ac yn siapio ac addasu'r rhaglen ar sail tystiolaeth wrth iddi ddatblygu
- sy'n ymatebol, drwy gadw cydbwysedd rhwng y nodweddion hynny sydd eu hangen yn yr holl ysgolion a'r manteision o berchenogaeth leol a'r gallu i ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol
- sydd wedi'i seilio ar ddull strategol o feithrin capasiti, gan gynnwys addysg gychwynnol briodol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus
- sy'n gosod y 'sgaffaldio' angenrheidiol, er enghraifft, canllawiau, deunyddiau enghreifftiol ac adnoddau eraill, ar gyfer gweithredu gan gynnwys camau i ddatblygu adnoddau pwrpasol i'w defnyddio wrth baratoi a gweithredu
- sy'n sefydlu mecanweithiau atebolrwydd a fydd yn ategu dibenion y diwygio ac yn gwerthuso ac yn adrodd ar ei effaith
- sy'n sefydlu mecanweithiau gwerthuso annibynnol a gyfer datblygu ac adrodd ar ddeilliannau.

Mae'r cynigion sy'n codi o'r Adolygiad hwn yn rhai radical a sylfaenol a fydd yn golygu newid pellgyrhaeddol a pharhaol. Oherwydd graddfa'r newidiadau, byddant yn cael eu gweithredu dros gyfnod ac mae hyn yn awgrymu y dylid eu cyflwyno'n raddol ac yn ofalus drwy gynllun gweithredu cynhwysfawr.

Ar sail y profiad a gafwyd mewn mannau eraill, rydym yn credu bod angen cynllun tymor hir – mae'r rhaglenni diwygio yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban wedi bod ar waith ers degawd. Bydd yn hanfodol meithrin cefnogaeth gadarn ymysg yr holl randdeiliaid a phleidiau gwleidyddol er mwyn i Gymru sicrhau'r ymagwedd barhaus a chynaliadwy at newid sydd ei hangen i weithredu'r cynigion hyn. Wrth lunio'r cynllun, bydd angen ystyried blaenoriaethau ar gyfer gweithredu cynnar, er enghraifft, er mwyn llunio fframwaith cymhwysedd digidol a sicrhau datblygiadau cysylltiedig mewn cyfrifiadureg. Er ei bod yn bosibl y bydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno fesul cam dros nifer o flynyddoedd, mae'n hollbwysig na fydd y plant a phobl ifanc sydd yn ein hysgolion yn awr yn cael eu hanghofio a rhaid sicrhau bod eu buddiannau a'u hanghenion yn cael eu gwarchod bob amser.

Bydd angen sefydlu rhaglenni hyfforddi sylweddol a neilltuo digon o amser i athrawon ar gyfer paratoi. Mae goblygiadau hefyd yn rhai o'r cynigion o ran y ffordd o drefnu ysgolion ac, yn benodol, eu ffordd o strwythuro'r cwricwlwm ac, unwaith eto, bydd angen amser i gynllunio ac ymgorffori'r rhain. Un o'r tasgau cyntaf fydd manylu ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad, ac mae'r dasg honno wedi'i disgrifio isod.

### Argymhellion

**54. Dylai'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig gael eu cyflwyno drwy strategaeth newid hyblyg a fydd yn sicrhau dealltwriaeth a chefnogaeth, yn pennu cyflymder addas ar gyfer eu cyflwyno, yn meithrin capasiti ac yn rheoli elfennau dibynnol, yn enwedig y trefniadau atebolrwydd.**

**55. Dylai trefniadau gwerthuso annibynnol gael eu sefydlu ar wahân i fonitro effeithiolrwydd y strwythur newid a'r trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm mewn cysylltiad â gwelliannau yn ansawdd dysgu a pherfformiad.**

## Arwain a llywio

Er 2006, pan unwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) â'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y llywodraeth sydd wedi bod yn llwyr gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm cenedlaethol. Cafwyd manteision clir drwy'r cyfuno hwn o ran symleiddio penderfyniadau. Fodd bynnag, mae natur y newid mewn diwylliant a dulliau gweithredu sydd ymhlyg yn argymhellion yr Adolygiad a'r dystiolaeth am y ffordd orau o sefydlu newid yn awgrymu bod angen dull ehangach a mwy cynhwysol o weithredu.

Felly, mae'r Adolygiad yn cynnig y dylai Gweinidogion barhau i fod yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad cenedlaethol, ond bod dadl o blaid sicrhau mwy o gyfranogi hyd braich mewn cynghori ar y cyfeiriad hwnnw a goruchwylio'r broses weithredu ei hun. Nid yw'r union fecanwaith ar gyfer dull gweithredu o'r fath yn fater i'r Adolygiad hwn.

### Argymhelliad

**56. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythur hyd braich ar gyfer arwain a llywio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o ddydd i ddydd.**

## Datblygu a manylu ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Ar ôl cytuno ar y ffordd ymlaen, un o'r blaenoriaethau cyntaf ar gyfer gwaith datblygu fydd ymhelaethu ar strwythur sylfaenol y cwricwlwm sydd wedi'i ddisgrifio yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Gorchwyl y timau datblygu canolog fydd llunio Datganiadau ar Ddeilliannau ar gyfer yr holl Gamau Cynnydd ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd y datganiadau hyn yn nodi'r dysgu sy'n ddymunol, gan ystyried sut y bydd angen i blant a phobl ifanc ddatblygu a gwneud cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad ac ymdrin ag agweddau priodol ar y pedwar diben, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach. Y nod fydd lleihau'r angen i ysgolion ac athrawon ymgymryd â'r dasg gymhleth o gydbwyso'r gwahanol elfennau hyn yn y cwricwlwm, a chaniatáu iddynt ganolbwyntio ar ddewis cynnwys perthnasol a chreu cyd-destunau a gweithgareddau symbylol ar gyfer addysgu a dysgu i'w plant a'u pobl ifanc.

Ymysg yr elfennau y bydd y timau datblygu canolog yn gweithredu arnynt ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd:

- datganiad clir am y ffordd y mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo'r pedwar diben cwricwlwm
- disgrifiad o gwmpas a ffiniau'r Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys ei elfennau canolog, ym mha ffordd y mae'n wahanol i feysydd eraill a pham y mae'n bwysig i addysg pob plentyn a pherson ifanc
- penderfyniad am y ffordd orau o gyflwyno'r gwahanol bynciau a/neu linynnau sy'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad
- cyngor ynghylch cynnwys elfennau perthnasol o'r Cwricwlwm Cymreig o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad
- disgrifiad o ddatblygiad a dilyniant o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys cyfeiriad at ffyrdd posibl o gynnwys deunyddiau *Ar Drywydd Dysgu*
- disgrifiad o'r Deilliannau Cyflawniad dymunol ym mhob Cam Cynnydd o safbwynt gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau
- ffyrdd o hyrwyddo a datblygu'r elfennau allweddol yn y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a'r sgiliau ehangach
- esboniad o ddilyniant a'r diffiniad o gyflawniad yn y Camau Cynnydd a nodir
- cyngor ar strategaethau addysgu a dysgu sy'n ymwneud yn benodol â'r Maes Dysgu a Phrofiad
- disgrifiad o'r ffordd y dylai asesu gyfrannu at ddysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwnnw a chyngor, lle bo'n briodol, ynghylch ffyrdd posibl o gasglu tystiolaeth.

Mewn rhai meysydd, yn enwedig llythrennedd, rhifedd a deunyddiau *Ar Drywydd Dysgu*, bydd angen i'r tîm ailystyried y fframweithiau presennol yng nghyd-destun strwythur newydd y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r Camau Cynnydd.

### Argymhelliad

**57. Dylai pob Maes Dysgu a Phrofiad gael ei ddatblygu'n unol â'r brîff yn yr adroddiad hwn er mwyn darparu canllawiau hylaw i ymarferwyr i'w helpu i gynllunio.**

Rhaid cofio y bydd gorchwyl datblygu cenedlaethol yn un cymhleth a bydd yn hanfodol trefnu a chefnogi timau canolog sydd â'r profiad ac arbenigedd angenrheidiol.

## Capasiti o ran addysgu ac arwain

Bydd goblygiadau mawr yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd o ran addysgu a dysgu ac felly o ran y ffyrdd o feithrin sgiliau athrawon a'r gweithlu ehangach. Yn benodol, bydd goblygiadau eang o ran addysgu yn y Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd ar gyfer cymhwysedd digidol, y sylw ychwanegol i'r Gymraeg yn y cyfnod cyn ysgol/cynradd, a'r pwyslais trymach ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfnod uwchradd. Meysydd eraill lle y mae'n debygol y bydd goblygiadau o ran datblygiad proffesiynol yw Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles, cyfrifiadureg (ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg) ac asesu.

Er mwyn sicrhau llwyddiant y cynigion, bydd angen cynnal rhaglen dysgu proffesiynol eang, estynedig a chydgysylltiedig a fydd yn cynnwys yr holl arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill. Bydd yn rhaid amserlennu'r rhaglen yn ofalus i gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r trefniadau newydd a rhaid iddi gwrdd ag anghenion penodol yr ymarferwyr unigol.

Rydym yn rhagweld y bydd y Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg a'r Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu'n helaeth at feithrin y capasiti angenrheidiol. Yn yr un modd, bydd argymhellion yr Athro John Furlong ar ffyrdd pellach o wella'r system datblygu athrawon yn ategiad pwysig i waith yr Adolygiad.

### Argymhellion

**58. Dylai rhaglen eang ac estynedig o ddysgu proffesiynol gael ei datblygu i sicrhau bod goblygiadau argymhellion yr Adolygiad o ran sgiliau a gwybodaeth athrawon ac ymarferwyr eraill yn cael eu hateb yn llawn.**

**59. Dylai goblygiadau tymor hwy yr Adolygiad o ran meithrin capasiti athrawon gael eu trafod yng nghyd-destun Bargen Newydd Llywodraeth Cymru i'r Gweithlu Addysg ac argymhellion yr Athro John Furlong ar addysg athrawon.**

Bydd y diwygiadau'n cynnig her hefyd i arweinwyr ar bob lefel. O ganlyniad i gael mwy o ryddid, bydd cyfleoedd i wneud penderfyniadau creadigol am y math o gwricwlwm a fydd orau o ran diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc yn yr

ysgol. Bydd gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a sicrhau ansawdd cyson uchel yn parhau'n bwysig. Bydd y dasg o ysbrydoli, hyfforddi a chynorthwyo staff i wireddu'r posibiliadau newydd yn un hanfodol i arweinwyr. Bydd y meini prawf ar gyfer llwyddiant yn wahanol, a bydd mesuriadau atebolrwydd newydd a mwy o ddisgwyliadau o ran hunanwerthuso.

Bydd llwyddiant yn fwy tebygol os ceir mwy o gydweithio oddi mewn a rhwng ysgolion, cynllunio ar y cyd, rhannu arferion da a chymedroli trwyadl ar ganlyniadau asesu. Bydd sgiliau sy'n ymwneud ag arwain mewn partneriaeth, rhannu adnoddau a negodi yn hanfodol. A bydd yn hollbwysig i arweinwyr sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall, yn derbyn ac yn cefnogi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ac na fydd y broses weithredu'n rhoi eu plant dan anfantais.

### Argymhelliad

**60. Dylai blaenoriaeth gael ei rhoi i feithrin yr ymrwymiad, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ymysg arweinwyr i sicrhau llwyddiant y diwygiadau arfaethedig.**

## Capasiti'r system

Yn ogystal ag athrawon ac arweinwyr, bydd goblygiadau wrth weithredu'r cynigion o ran y capasiti mewn sefydliadau eraill sy'n rhan o'r system addysg. Ymysg y sefydliadau hyn y mae'r Adran Addysg a Sgiliau, Estyn, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Bydd yn rhaid i bob un ohonynt ddysgu am y cynigion a'u deall yn drylwyr, yn ogystal â'r goblygiadau i ysgolion, yn enwedig o ran eu heffaith ar ysgolion sy'n ymaddasu i'r trefniadau newydd. Bydd yn rhaid iddynt ddeall hefyd beth fydd y goblygiadau yn y trefniadau arfaethedig newydd o ran penderfynu lleol ac atebolrwydd. Yn y bôn bydd yn rhaid i'r holl asiantau hyn gydweithio.

Bydd angen i'r Adran Addysg a Sgiliau ddatblygu systemau i werthuso llwyddiant ledled Cymru yn ogystal â rheoli'r cynllun gweithredu. Bydd yn rhaid iddi hefyd sicrhau unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n angenrheidiol a llunio canllawiau ar yr agweddau anstatudol. Bydd angen i'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau i gynorthwyo eu hysgolion yn ystod y cyfnod o ymgysylltu a gweithredu ac i gyflwyno'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer ysgolion unigol sydd wedi'u cynnig yma. Bydd angen i Estyn addasu ei rhaglen arolygu ac, o bosibl, ei dull o weithredu er mwyn cydnabod a chyd-fynd â'r cyfnod gweithredu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn galw am gynnig mwy o gymorth i ysgolion yn y cyfnod cynnar gan sicrhau, yr un pryd, fod perfformiad yr ysgolion gystal ag y dylai fod. Bydd goblygiadau hefyd wrth ddatblygu trefniadau atebolrwydd newydd o ran y ffordd y mae Estyn yn gweithio.

Bydd y cynigion hyn yn arwain hefyd at lawer o weithgarwch wrth lunio dulliau gwell, a newydd weithiau, ar gyfer ymchwilio a gwerthuso. Mae'r Adolygiad


wedi cyfeirio at y goblygiadau o ran meithrin capasiti, yn enwedig wrth wella trefniadau asesu ffurfiannol a dyfeisio trefniadau newydd ar gyfer atebolrwydd. Mae gwledydd eraill sy'n uchel eu perfformiad wedi sefydlu systemau ymchwil a chymorth penodol i helpu i gydgysylltu a hyrwyddo datblygiadau o'r fath mewn arferion asesu a dylid ystyried cyflwyno mecanwaith tebyg yng Nghymru.

### Argymhelliad

**61. Dylai'r goblygiadau sylweddol sydd ynghlwm wrth gynigion yr Adolygiad o safbwynt seilwaith addysgol cenedlaethol a lleol gael eu cydnabod yn llawn. Bydd angen i'r Adran Addysg a Sgiliau, y consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a phrifysgolion sefydlu mecanweithiau ar gyfer cydgysylltu a chydweithio sy'n cydnabod cyfrifoldebau a phriod gryfderau'r gwahanol sefydliadau hyn.**

## Perchenogaeth genedlaethol a lleol

Un thema a gododd droeon yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad oedd gofyn a oedd y trefniadau cwricwlwm presennol yng Nghymru wedi sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng y gofynion i ysgolion ar lefel genedlaethol mewn deddfwriaeth, a'r graddau yr oedd ysgolion ac athrawon yn gallu ffurfio'r cwricwlwm ar lefel leol yng nghyd-destun anghenion penodol eu cymunedau a'u plant a phobl ifanc.



Her allweddol wrth ddiwygio addysg yw sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cyfarwyddyd canolog a hyblygrwydd lleol. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan McKinsey and Company[78] a oedd wedi'i seilio ar ddadansoddiad o 20 o systemau addysg yn awgrymu bod clystyrau o ddulliau gweithredu sy'n ymddangos yn addas i wahanol gyfnodau o ddatblygiad addysgol. Mae mecanweithiau canolog effeithiol ar gyfer cyfarwyddo, cymorth ac atebolrwydd yn gallu bod yn briodol ar gyfer gwella ansawdd mewn systemau cymharol annatblygedig lle nad oes fawr o gapasiti proffesiynol. Fodd bynnag, os mai'r nod yw creu system uchel ei pherfformiad, bydd yn bwysig canolbwyntio i lai o raddau ar gyfarwyddyd canolog ac yn fwy ar yr angen i ddatblygu cyfrifoldeb a phrosesau penderfynu lleol, ar feithrin capasiti ac ar gynnwys athrawon ac ysgolion yn fwy creadigol yn y broses gwella.

Mae'r dadansoddiad gan McKinsey o gymorth i ryw raddau, ond mae'n anochel bod systemau addysg yn cynnwys ysgolion ac athrawon sy'n amrywio o ran profiad, hyder a chapasiti; bydd rhai ohonynt yn barod i fanteisio'n llawn ar ryddid cynyddol tra bydd angen cymorth parhaus ar eraill dros gyfnod estynedig. Yr her wrth geisio penderfynu ar gydbwysedd priodol rhwng perchenogaeth ganolog a pherchenogaeth leol yw creu dull o weithredu sy'n cwmpasu ysgolion ac athrawon ar ddau ben y sbectrwm.

Disgrifiad Charles Handy o sybsidiaredd yw '...the idea of reverse delegation – the delegation by the parts to the centre'. Mae sybsidiaredd yn golygu bod pŵer yn aros mor agos â phosibl at y weithred. Yn hytrach na dibynnu ar set o reolau, sy'n awgrymu diffyg hyder ac yn gallu achosi llygredd, mae sybsidiaredd yn dibynnu ar gydymddiriedaeth sy'n hyrwyddo dadlau ac anghytuno positif. Mae sybsidiaredd yn golygu sicrhau bod pŵer yn y lle priodol – yn hytrach na grymuso sy'n golygu bod rhywun mewn awdurdod yn ildio rhywbeth[79].

Wrth symud tuag at system addysg sy'n perfformio'n well, y neges i Gymru yw y dylai Llywodraeth Cymru bennu'r cyfeiriad ac ymddiried yn y mwyafrif helaeth o ysgolion ac athrawon i ddilyn yr arweiniad hwnnw mewn ffyrdd a fydd yn llesol i'w plant a'u pobl ifanc. Mae'r CBI wedi galw am fwy o ryddid i arloesi ar lefel yr ysgol, '...allowing teachers and headteachers to utilise their professional skills to drive improved outcomes'[80]. Er hynny, bydd angen parhau i gryfhau'r dull hwn o weithredu drwy ddeddfu priodol, arweinyddiaeth gynhwysol, cymorth i feithrin capasiti, a systemau atebolrwydd adeiladol.

### ››› Argymhelliad

**62. Dylai'r strategaeth newid sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad gymhwyso egwyddor sybsidiaredd, gan hybu perchenogaeth a chyfrifoldeb lleol o fewn fframwaith cenedlaethol o ddisgwyliadau a chymorth.**

---

78 Mourshed, M, Chijioke, C a Barber, M (2010) *How the world's most improved systems keep getting better* McKinsey and Company

79 Handy, C (1995) *The Age of Paradox* Harvard Business School Press

80 CBI (2014) *Step Change – A New Approach for Schools in Wales* CBI

## Deddfwriaeth

Er mwyn cynnwys ysgolion ac athrawon yn uniongyrchol mewn penderfyniadau allweddol ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig mewn cysylltiad â'r hyn a gaiff ei addysgu a'r ffyrdd o wneud hynny, bydd angen bod yn glir iawn ynghylch graddau'r manylion sydd i'w cynnwys mewn deddfwriaeth. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Adolygiad wedi ceisio cadw cydbwysedd rhwng galluogi athrawon i arfer eu proffesiynoldeb a chreadigrwydd wrth ymateb i anghenion eu plant a'u pobl ifanc a sicrhau yr un pryd fod sail ddeddfwriaethol i'r agweddau ar y cwricwlwm sy'n cael eu hystyried yn hanfodol.

Mae'r ddadl o blaid rhoi lle canolog i nodau a dibenion wrth lywio penderfyniadau am ffurf, cynnwys ac asesu wedi'i chyflwyno ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn. Felly mae dadl gryf o blaid ymgorffori'r pedwar diben cwricwlwm arfaethedig mewn deddfwriaeth sylfaenol i bwysleisio bod rhaid iddynt fod yn sail i'r holl addysgu a dysgu mewn ysgolion. Rydym yn cynnig, felly, y bydd ysgolion yn cael eu rhoi o dan ddyletswydd gyffredinol i drefnu a darparu cwricwlwm a fydd yn cyflawni'r pedwar diben addysg ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc. Yn unol â pholisi cenedlaethol, gellir gosod dyletswyddau penodol ar ysgolion hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg ac addysg grefyddol.

Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn eang, bydd yn bwysig bod y ddyletswydd mewn deddfwriaeth sylfaenol yn ymgorffori'r syniad o'r hawl i gael addysg ym mhob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad drwy gydol y cyfnod mewn addysg statudol. Argymhelliad pellach yw y bydd y ddyletswydd yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn cael ei chynllunio fel ei bod yn helpu'r holl blant a phobl ifanc i symud drwy'r Camau Cynnydd yn unol â chanllawiau cenedlaethol cysylltiedig.

Er mwyn bod yn glir, nid yw'r Adolygiad yn argymell bod cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad neu'r Camau Cynnydd cysylltiedig yn cael ei bennu mewn deddfwriaeth sylfaenol ond, yn hytrach, y dylid eu disgrifio mewn canllawiau. Bydd trefniant o'r fath yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth addasu'r cwricwlwm dros amser ac yng ngoleuni'r profiad o'i weithredu.

Bwriad yr Adolygiad, wrth beidio â rhoi pwyslais mawr ar ddeddfu, yw y bydd ysgolion ac athrawon yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb sylweddol dros ddatblygu cwricwlwm sy'n gyson â disgwyliadau cenedlaethol, ond sydd hefyd yn gallu adlewyrchu anghenion y plant a phobl ifanc yn eu hysgol.

Bydd rhai ysgolion ac athrawon unigol mewn lle gwell na'i gilydd i fabwysiadu'r dull hwn o weithredu. Felly mae'r Adolygiad yn argymell y bydd mwy o fanylion am gynnwys, trefniadau asesu ac addysgeg yn cael eu cynnwys mewn canllawiau a mathau eraill o 'sgaffaldio' y gellir eu defnyddio i gefnogi ymarfer, yn enwedig yn y cyfnodau gweithredu cyntaf.

### Argymhellion

**63. Dylai'r egwyddor o gael cwricwlwm cenedlaethol i Gymru gael ei hailddatgan a dylai deddfwriaeth ddiffinio set eang o ddyletswyddau yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd manwl ynghylch cynnwys.**

**64. Lle bo angen, dylai gofynion penodol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu gael eu disgrifio mewn rheoliadau a chanllawiau, a dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd.**

## Atebolrwydd

Yn yr un modd â phob gwasanaeth cyhoeddus arall, mae'n bwysig bod systemau a dulliau adeiladol a chadarn ar waith ym maes addysg i'w werthuso a sicrhau atebolrwydd. Mae'n anochel y bydd goblygiadau i'r dulliau gweithredu presennol yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig sydd wedi'u cynnig yn yr Adolygiad hwn. Mewn cyd-destun lle y bydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud ar lefel leol, bydd yn rhaid cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd mewn ffyrdd a fydd yn helpu i sefydlu'r trefniadau newydd a hybu gwelliant gan osgoi'r ystumio sy'n digwydd weithiau o ganlyniad i ofynion allanol ar gyfer mesur perfformiad a chofnodi canlyniadau. Mae'n bosibl y bydd angen sefydlu trefniadau atebolrwydd trosiannol yn ystod camau cyntaf y rhaglen weithredu.

Mae'r OECD[81] yn gweld nifer o gryfderau amlwg yn y trefniadau presennol ar gyfer atebolrwydd yng Nghymru ('evaluation' yw'r enw arnynt yn yr adroddiad), er enghraifft, bod system genedlaethol ar waith ar bob lefel, bod pwyslais ar gyflawniadau plant a phobl ifanc, a bod data cynhwysfawr ar gael am berfformiad. Un cryfder ychwanegol yn y system yw bod y data perfformiad yn cael eu cyflwyno yn eu cyd-destun drwy gymharu perfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae'r Adolygiad yn ceisio datblygu'r cryfderau hyn drwy ei gynigion.

Mae adroddiad yr OECD hefyd yn nodi nifer o wendidau yn y dulliau atebolrwydd presennol. Mae'n dod i'r casgliad nad yw'r trefniadau presennol yn gydlynol a bod Cymru wedi'i chael yn anodd cadw cydbwysedd rhwng atebolrwydd a gwella, a bod lle i roi mwy o bwyslais ar wella yn y dyfodol. Er mwyn creu fframwaith cydlynol, mae adroddiad yr OECD yn argymell y dylai'r trefniadau asesu gefnogi dysgu ar gyfer pawb ac y dylai fod yn gyson ag amcanion cenedlaethol. Mae hefyd yn argymell bod y broses atebolrwydd mewn ysgolion yn cefnogi gwelliant mewn ysgolion. Mae'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yn ategu casgliadau'r OECD yn gryf.

Yn ogystal â sicrhau bod ysgolion a'r genedl gyfan yn perfformio cystal ag y dylent, dylai cyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig yn effeithiol a gwerthuso'r graddau y mae ei amcanion yn cael eu gwireddu fod yn nod allweddol i'r systemau atebolrwydd lleol a chenedlaethol. Dylai'r trefniadau

---

[81] OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* OECD Paris

atebolrwydd hyn ateb y cwestiwn hwn: 'I ba raddau y mae'r ysgol yn datblygu ei holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn unigolion mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus i Gymru a'r byd; ac yn unigolion iach, hyderus?' Rhaid eu cynllunio fel eu bod yn annog ysgolion i gynllunio'r cwricwlwm diwygiedig mewn ffordd greadigol ac i leihau'r perygl o gael newidiadau arwynebol er mwyn cydymffurfio'n unig.

Mae'n bosibl y bydd y System Genedlaethol newydd ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, sy'n gymwys i bob ysgol, yn gymorth i gyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd mewn ffordd effeithiol. Dylai'r system hon ganolbwyntio ar y graddau y mae ysgolion yn cyflwyno trefniadau'r cwricwlwm diwygiedig yn drefnus ac effeithiol mewn perthynas â'r dibenion addysg y cytunwyd arnynt. Mae angen bod yn glir ynghylch y defnydd a wneir o ddata o asesiadau ar gyfer dysgu a'r defnydd ohonynt ar gyfer atebolrwydd. Yn neilltuol, lle y mae asesiadau gan athrawon yn cael eu defnyddio'n benodol ar gyfer atebolrwydd, fel y gwneir ar hyn o bryd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gall amheuon godi ynghylch y graddau y mae'r asesiadau gan athrawon yn ddibynadwy a gellir cael effeithiau gwrthnysig difrifol hefyd ar y cwricwlwm. Felly, mae'r Adolygiad yn cynnig na ddylai'r canlyniadau o asesiadau gan athrawon gael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru. Wrth gwrs, bydd yn rhaid defnyddio data asesu mewn gwerthusiadau mwy cyffredinol o'r graddau y mae'r ysgol yn gwasanaethu ei phlant a'i phobl ifanc. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio data asesu i ffurfio dyfarniadau o'r fath, rhaid gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n lleihau'r tueddiadau i ystumio yr ydym yn gwybod amdanynt. Ni ddylent fod yr unig ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer gwerthuso ychwaith: yn hytrach, dylent fod yn rhan o sylfaen dystiolaeth ehangach, fel y byddant yn llai amlwg ac yn llai tebygol o ystumio dyfarniadau.

Mae goblygiadau hefyd yng nghynigion yr Adolygiad i awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn. Hyd y gellir rhagweld, bydd y consortia rhanbarthol yn chwarae rhan hanfodol wrth fonitro perfformiad ysgolion unigol ac wrth bennu'r angen am gymorth ychwanegol mewn ysgolion. Dylai'r berthynas honno fod yn debycach i ddeialog proffesiynol, lle y mae disgwyl i'r ysgolion ddod yn well mewn perthynas ag asesu eu hunain a chynllunio ar gyfer gwella. Er hynny, bydd angen i'r broses fod yn un drylwyr o hyd gan fod y consortia yn gyfrifol am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn eu hardal yn cael profiad addysgol o ansawdd uchel.

Yn ogystal â gwybodaeth am gynnydd eu plant, mae angen i rieni a gofalwyr gael gwybodaeth am berfformiad ysgol eu plentyn. Mae gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd drwy adroddiad blynyddol y llywodraethwyr, prosbectws yr ysgol, gwefan Fy Ysgol Leol, adroddiadau arolygu Estyn a'r system newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion. Gan fod yr Adolygiad yn cynnig na fydd asesiadau gan athrawon yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru, bydd angen newid natur yr wybodaeth am berfformiad sydd ar gael i rieni a gofalwyr. Yn achos ysgolion uwchradd, bydd modd o hyd i ddarparu gwybodaeth am berfformiad mewn arholiadau allanol yn 16 oed ac ar ôl hynny ond, ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion

uwchradd ac ar gyfer ysgolion cynradd, bydd angen newid y ffordd o ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr.

Er ein bod yn cynnig na fydd Llywodraeth Cymru bellach yn casglu data ar lefel yr ysgol am berfformiad yr holl blant a phobl ifanc, bydd yn bwysig parhau i fonitro perfformiad y system gyfan ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau bod polisi'n gallu ymateb yn briodol. Felly, mae'r Adolygiad yn cynnig y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cyflawniad ar lefel genedlaethol ar sail rhaglen dreigl o brofion samplu, er enghraifft, mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd, cymhwysedd digidol a gwyddoniaeth ac ar sail adroddiadau gan Estyn. Byddai asesiadau samplu o'r fath yn cynnwys rhai plant a phobl ifanc yn unig ac ni fyddai angen eu cynnal bob blwyddyn. Gellid trefnu amserlen ar gyfer asesiadau o'r fath dros nifer o flynyddoedd gan asesu un topig bob blwyddyn. Dylid cynnwys asesiadau o gynnydd ar gyflawni'r pedwar diben mewn arolygiadau ysgol a dylai Estyn adrodd arnynt yn rheolaidd.

## Argymhellion

**65. Dylai'r trefniadau atebolrwydd gael eu cryfhau a'u gwella mewn ffyrdd a fydd yn helpu i sefydlu'r trefniadau newydd a hybu gwelliant.**

**66. Dylai'r trefniadau atebolrwydd, a threfniadau arolygu yn benodol, werthuso a hybu llwyddiant o ran ymgorffori'r dibenion cwricwlwm yng ngwaith ysgolion o ddydd i ddydd ac yn y pen draw y deilliannau a gaiff eu cyflawni gan blant a phobl ifanc.**

**67. Dylai'r system ar gyfer categoreiddio ysgolion gael ei haddasu maes o law i adlewyrchu argymhellion yr Adolygiad hwn.**

**68. Ni ddylai Llywodraeth Cymru bellach gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol ond dylai fonitro perfformiad ar agweddau allweddol ar y cwricwlwm drwy brofion samplu blynyddol.**


PYREX
250ml

# **Pennod 8:** Casgliadau ac Argymhellion

**Rhoddwyd yr enw *Dyfodol Llwyddiannus* i'r adroddiad hwn am fod addysg o bwys hanfodol a pharhaol i lwyddiant a lles hirdymor pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ac, yn y pen draw, i iechyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y wlad ei hun**. Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu cysylltiedig yn ymgorffori dyheadau Cymru ar gyfer ei phlant a'i phobl ifanc ac felly rhaid eu cynllunio a'u gweithredu mewn ffyrdd sy'n llwyr gyflawni'r dyheadau hynny. Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru wedi datblygu o ran ei gwmpas a'i ffurf dros y 25 mlynedd diwethaf wrth ymateb i bwysau tymor byr a thymor hir. Mae'r trefniadau asesu wedi newid yn yr un modd dros amser. Tasg yr Adolygiad oedd edrych ar y trefniadau presennol, nodi meysydd cryf y gellid eu datblygu a gwneud cynigion ar gyfer newidiadau angenrheidiol.

**Roedd yr Adolygiad wedi cynnwys cynifer â phosibl o bobl Cymru yn ei waith**. Cawsom ein plesio gan yr ymateb mawr i'n cais am dystiolaeth a'r trafodaethau hynod agored ac adeiladol a gawsom mewn ysgolion o gwmpas y wlad a chydag unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau yng Nghymru. Felly mae athrawon yng Nghymru a hefyd, yn bwysig, y plant a'r bobl ifanc eu hunain wedi cael dylanwad mawr ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal â hynny, roedd yr Adolygiad wedi rhoi sylw i'r tueddiadau a'r datblygiadau gorau a welir mewn gwledydd eraill.

**Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn dangos bod cryfderau pwysig yn y trefniadau presennol yng Nghymru**, yn benodol, yr ymrwymiad i degwch a chynhwysiant, y sylw i gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig drwy *Ar Drywydd Dysgu*, y Cyfnod Sylfaen, y pwyslais ar feithrin llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach, y pwys a roddir ar y Gymraeg a diwylliant Cymru, ac ar Fagloriaeth Cymru ar ei newydd gwedd.

**Roedd y dystiolaeth hefyd yn cadarnhau bod dadl gryf o blaid newid sylfaenol**. Roedd yn glir bod awydd mawr am newidiadau radical yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol, er enghraifft, er mwyn delio â'r gorlwytho, y gwaith diangen a'r cymhlethdod a gafwyd o ganlyniad i'r naill newid ar ôl y llall. Roedd tystiolaeth gynyddol nad oedd y cwricwlwm presennol yn galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd y safonau a ddisgwylid ganddynt. Yn yr un modd, roedd y trefniadau ar gyfer asesu ac atebolrwydd wedi plethu i'w gilydd mewn ffordd a oedd yn effeithio ar allu y naill broses a'r llall i wasanaethu dysgu gan blant. Yn bwysig iawn, roedd pobl yn gweld bod angen cwricwlwm a fyddai'n paratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru yn well er mwyn ffynnu a llwyddo mewn byd sy'n newid yn gyflym.

**Mae'n bwysig cael diffiniad clir o'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth 'y cwricwlwm'**. Yn y gorffennol, roedd y cwricwlwm yn cael ei weld yn aml fel set o bynciau a meysydd llafur i'w haddysgu i blant a phobl ifanc yn ystod eu blynyddoedd yn yr

ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniad hwn yn gwneud cyfiawnder â'r deilliannau ehangach y mae'r byd modern yn galw amdanynt na chwmpas y pethau y mae llawer o athrawon yn eu gwneud eisoes i gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc. Nid yw'n pennu'r dibenion cyffredinol ar gyfer y cwricwlwm. Yn ogystal â hyn, mae'r math o gynnydd a asesir, a'r ffordd o wneud hynny, a'r defnydd o ganlyniadau'r asesu, yn cael effaith sylfaenol ar ddysgu. Felly rhaid ystyried asesu'n rhan annatod o'r broses dysgu. Oherwydd hyn, mae'r Adolygiad wedi edrych ar y cwricwlwm fel a ganlyn.

> **Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu y mae'r ysgol wedi'u cynllunio er mwyn cyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt.**

**Rhaid cael dibenion clir i'r cwricwlwm newydd** (gweler tudalen 31). Mae nifer o wledydd wedi mabwysiadu datganiadau o nodau neu ddibenion yn fan cychwyn ar gyfer manyleb eu cwricwlwm, a rhai wedi gwneud hynny'n fwy llwyddiannus na'i gilydd. Mae dibenion cwricwlwm clir a phenodol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â dysgu ac addysgu yn gallu helpu athrawon i weld ym mha ffyrdd penodol y dylent gyfrannu i'r dysgu gan y plentyn neu'r person ifanc. Gall y dibenion helpu plant a phobl ifanc, a'u rhieni a'u gofalwyr, i weld pwrpas yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut y mae'r agweddau ar ddysgu'n ffitio i'w gilydd. Gallant gyfrannu at lunio disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y cwricwlwm a gellir eu defnyddio i bennu a chynllunio'r cynnwys a'r deilliannau arfaethedig. Gellir eu defnyddio hefyd i bennu blaenoriaethau yn wyneb y pwysau newydd sy'n sicr o godi. Er mwyn sicrhau y bydd y dibenion a ddatgenir yn llwyddo, rhaid iddynt fod yn glir ac ennyn cefnogaeth gyffredinol, bod yn gyson â gwerthoedd a rennir ac adlewyrchu'r blaenoriaethau a diwylliant cenedlaethol. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn dangos yn hynod gyson beth oedd yr elfennau y dylid eu cynnwys mewn datganiad o ddibenion cwricwlwm i Gymru.

**Mae'r Adolygiad wedi datblygu dibenion cwricwlwm er mwyn crisialu gweledigaeth o ddysgwr sydd wedi'i addysgu'n dda wrth gwblhau ei addysg statudol yng Nghymru**. Y dibenion hyn yw y bydd ein **holl** blant a phobl ifanc:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r dibenion cwricwlwm yn ymhelaethu ar y penawdau hyn drwy ychwanegu nodweddion allweddol, er mwyn cynnig canllaw ymarferol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac addysgu a dysgu.

**Mae'r cwricwlwm yn gwricwlwm i holl blant a phobl ifanc Cymru**. Y bwriad yw i'r trefniadau newydd gynnwys yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru ac i

alluogi pob un ohonynt i wneud cynnydd llwyddiannus yn eu dysgu. Yn benodol, mae'r dibenion cwricwlwm yn gymwys i bob plentyn. Mae llawer o'r hyn a gynigir yn nhermau parhad a dilyniant wedi'i gynnwys eisoes mewn addysgu a dysgu mewn ysgolion sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig strwythur symlach, mwy cydlynol ar gyfer y cwricwlwm**. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yn cynnwys fframwaith o gyfnodau a chyfnodau allweddol, pynciau craidd, sylfaen a sylfaenol (statudol ac anstatudol), rhaglenni astudio, fframwaith llythrennedd a rhifedd a fframwaith sgiliau ehangach. Ceir pwysau cynyddol i ychwanegu elfennau at y rhain ac mae nifer o adroddiadau pwysig gan Grwpiau Gorchwyl a Gorffen hefyd yn disgwyl eu tro i gael eu cynnwys yn y fframwaith gorlawn hwn. Y farn bendant a gododd o'r dystiolaeth i'r Adolygiad oedd bod y strwythur hwn yn rhy gymhleth ac yn rhy gyfarwyddol, a'i fod wedi cyfyngu ar y llif a'r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc ac ar y gallu i ymateb i anghenion lleol. Roedd cefnogaeth i ddull mwy cyson o weithredu a fydd yn cwmpasu'r camau cynradd a'r camau uwchradd, hyd at y Cyfnod Allweddol 3 presennol o leiaf.

Felly mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen cwricwlwm symlach a mwy cysylltiedig a fydd yn eang, yn darparu ar gyfer dysgu dyfnach, yn sicrhau gwell dilyniant ac yn rhoi cyfle i ddefnyddio amser mewn ffordd fwy creadigol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn ffafrio mwy o bwyslais ar sgiliau ac ymestyn y dull o weithredu sydd wedi'i fabwysiadu yn y Cyfnod Sylfaen, lle y defnyddir Meysydd Dysgu yn hytrach na phynciau ar wahân fel blociau adeiladu. Mae dull gweithredu o'r fath yn fwyfwy cyffredin mewn manylebau cwricwlwm ledled y byd.

**O ran ehangder y cwricwlwm, mae'r Adolygiad yn cynnig defnyddio chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn drefnyddion ar gyfer yr ystod oedran gyfan rhwng 3 ac 16 oed**.
Y Meysydd Dysgu a Phrofiad yw:

- Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau mynegiannol
- Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a lles
- Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau
- Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a rhifedd
- Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae'r ddadl o blaid pwysigrwydd a dilysrwydd pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi'i chyflwyno ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn. Mae pob un ohonynt wedi'i ddyfeisio mewn ffordd sy'n cwmpasu gwybodaeth a sgiliau disgyblaethol a swyddogaethol pwysig ac sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed. Maent hefyd yn cynnig cyd-destunau penodol lle y gellir cyflawni'r pedwar diben cwricwlwm, gan gynnwys elfennau

o'r Cwricwlwm Cymreig. Nid yw'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i'w hystyried yn ffactorau a fydd yn cyfyngu ar y ffyrdd y mae ysgolion yn trefnu'r diwrnod, yr wythnos neu'r flwyddyn ysgol. Ni fyddant yn arwain yn uniongyrchol at amserlen wedi'i seilio ar benawdau Meysydd Dysgu a Phrofiad. Eu pwrpas yw trefnu, mewn ffordd gymharol syml, y disgwyliadau cenedlaethol ynghylch yr hyn y bydd plant a phobl ifanc yn ei ddysgu a'i brofi, gan greu synergeddau a chysylltedd yn ogystal â thrylwyredd mewn astudiaethau disgyblaethol. Maent hefyd yn dangos y dylai addysg plant a phobl ifanc gynnwys profiadau cyfoethog sy'n werthfawr ar eu pen eu hunain.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldeb i bob athro/athrawes**. Mae'r cymwyseddau hyn mor hanfodol ar gyfer meddwl, dysgu a bywyd fel y dylid eu datblygu a'u cryfhau ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Mae'r ddadl o blaid ymdrin â llythrennedd a rhifedd yn y modd hwn wedi'i derbyn yn gyffredinol bellach a dylid cynnwys y ddau yn y cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn eu datblygu'n gynyddol. Rhaid i lythrennedd a rhifedd olygu mwy na chymhwysedd sylfaenol a rhaid cydnabod y rhan ganolog y maent yn ei chwarae mewn meddwl a'r gallu i ddefnyddio iaith a rhif yn hyderus a chreadigol. Cafwyd croeso cyffredinol i'r FfLlRh, mewn egwyddor o leiaf, a dylid ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig mewn ffyrdd sy'n gosod sylfeini cadarn i lythrennedd a rhifedd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu datblygu a'u cryfhau ymhellach yn yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae'r ddadl o blaid trafod 'cymhwysedd digidol' mewn ffordd debyg i lythrennedd a rhifedd wedi dod yn fwyfwy perswadiol. Mae ein plant a phobl ifanc yn byw mewn byd digidol yn barod ac mae eu bywydau personol, cymdeithasol ac addysgol yn cydblethu fwyfwy â gwahanol fathau o dechnoleg sy'n newid yn gyflym. Mae'r gallu i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas fodern ac yn y gweithle eisoes yn galw am lefelau cynyddol uwch o gymhwysedd digidol ac mae'r broses honno'n sicr o barhau hyd y gellir rhagweld. Felly, mae'r Adolygiad yn credu bod angen datblygu fframwaith cymhwysedd digidol i greu dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc.

**Mae angen cryfhau lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm**. Mae'r pwysigrwydd a roddir i'r Gymraeg wedi'i adlewyrchu yng nghynigion yr Adolygiad sy'n nodi y dylai'r holl blant a phobl ifanc barhau i ddysgu Cymraeg nes cyrraedd 16 oed. Mae tystiolaeth yn dangos bod hyder yng ngallu ysgolion cyfrwng Cymraeg i feithrin sgiliau iaith yn llwyddiannus. Er hynny, mae angen o hyd am wella ansawdd a pherthnasedd wrth addysgu a dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn enwedig ymhlith plant hŷn. Felly rydym yn cynnig canolbwyntio'n fwy ar allu plant a phobl ifanc i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg mewn cyd-destunau pob dydd, gan roi pwyslais ar ei rôl gynyddol yn y gweithle. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyflogi arbenigwyr ac mae amrywiaeth fawr o adnoddau Cymraeg ar gael iddynt. Maent mewn lle da i weithredu fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg ac i ddarparu cymorth i athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig dileu'r rhaniadau presennol yn y cwricwlwm rhwng cyfnodau a chyfnodau allweddol**. Mae pwyntiau trosglwyddo, boed rhwng sectorau neu gyfnodau, yn sicr o godi cwestiynau ynghylch parhad a dilyniant. Os oes bwriad i gyfnodau fod yn wahanol i'w gilydd, pa mor berswadiol yw'r dadleuon o blaid y gwahanu a beth yw'r canlyniadau? Os nad yw cyfnodau'n wahanol i'w gilydd, pam y mae angen eu labelu ar wahân? Wrth ymchwilio i'r cwestiynau hyn, daeth yr Adolygiad i'r casgliad pendant y dylid gweld y cyfnod o addysg statudol, o leiaf, yn gyfanwaith cydlynol a dilynol, gan gynnwys y trosglwyddo rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig y dylai dyfnder a dilyniant mewn dysgu gael eu disgrifio drwy Gamau Cynnydd, gyda phob un ohonynt yn cwmpasu nifer o Ddeilliannau Cyflawniad**. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr Adolygiad yn awgrymu bod y system bresennol o lefelau o fewn pynciau'n cynnig elfennau o ddyfnder, ond bod y dull hwn bellach yn canolbwyntio ar wneud dyfarniadau cyffredinol, cyd-fynd orau am berfformiad ar bwyntiau penodedig heb roi sylw digonol i ddilyniant wedi'i seilio ar ddysgu diogel. Felly, mae'r Adolygiad yn argymell y dylai Camau Cynnydd gael eu pennu o fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad, a bwlch o dair blynedd rhyngddynt, dros y cyfnod o addysg statudol. Dylid llunio Deilliannau Cyflawniad ar gyfer pob Cam Cynnydd sy'n adlewyrchu'r dibenion cwricwlwm ac sy'n ymgorffori dysgu disgyblaethol a chyfryngol, fel y bo'n briodol. Dylai'r disgrifiadau o gyflawniadau disgwyliedig fod yn hawdd eu deall a dylent gynnig her i'r holl blant a phobl ifanc a bod yn seiliedig ar ymchwil i gynnydd plant wrth ddysgu ac ar normau rhyngwladol. Dylid eu mynegi mewn ffyrdd sy'n cynnig digon o le i symud ymlaen i'r rheini sy'n meistroli sgiliau a gwybodaeth yn gynharach a chymorth ac ymyrraeth i'r rheini sy'n gwneud cynnydd yn arafach.

**Lle bo modd, bydd y gwahanol ddisgwyliadau ynghylch dysgu wedi'u hymgorffori yn y Camau Cynnydd**. Ar hyn o bryd, mae ysgolion ac athrawon yn wynebu'r dasg hir a chymhleth o gynnwys holl wahanol ddisgwyliadau'r cwricwlwm wrth gynllunio, addysgu ac asesu. Felly, byddai eu tasg yn symlach o lawer pe byddai disgwyliadau o'r fath yn cael eu disgrifio a'u cynnwys mewn un man. Gellir gwneud hynny drwy'r Camau Cynnydd. Dylid nodi'r disgwyliadau o ran dilyniant yn y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a'u hymgorffori, fel y bo'n briodol, yn y Camau Cynnydd ym mhob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'r sgiliau ehangach, sef meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd, ac effeithiolrwydd personol, ynghyd ag elfennau'r Cwricwlwm Cymreig ac *Ar Drywydd Dysgu* i'w cynnwys yn yr un modd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn ogystal â hyn, dylai'r holl athrawon chwilio am gyfleoedd i gryfhau ac ymestyn yr elfennau hyn lle bynnag y gellir gwneud hynny'n naturiol yn eu dulliau addysgu a dysgu arferol.

**Yr unig ffordd o wireddu uchelgeisiau'r Adolygiad ar gyfer plant a phobl ifanc yw drwy arfer barn a sgiliau proffesiynol gan athrawon ac ymarferwyr addysg eraill wrth ddewis dulliau addysgu priodol**. Bydd effaith y newidiadau sydd wedi'u hargymell yn y cwricwlwm ar y dysgu gan blant a phobl ifanc yn dibynnu yn y pen draw ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu y maent yn eu cael. Mae cynigion

yr Adolygiad yn galw am ddulliau o addysgu a dysgu sy'n manteisio ar y rhyddid proffesiynol ehangach y maent yn ei gynnig i athrawon. Yr unig ffordd o wireddu'r disgwyliadau uchel sydd yn y Camau Cynnydd fydd drwy addysgu effeithiol sy'n ennyn chwilfrydedd a brwdfrydedd mewn plant a phobl ifanc drwy gymysgedd o ddulliau addysgu a dysgu. Rhaid creu cysylltiad uniongyrchol rhwng addysgu a chyflawni'r dibenion cwricwlwm, drwy fanteisio ar gyfleoedd i gymhwyso'r hyn a ddysgir a chreu cysylltiadau wrth ddysgu mewn cyd-destunau dilys. Dylai dysgu fod yn weithgarwch pleserus sy'n cael ei gyflawni er ei fwyn ei hun ac nid dim ond er mwyn llwyddo mewn prawf neu ennill cymhwyster. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn dysgu sut i gydweithio a gweithio'n greadigol, gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a gweld bod yr hyn y maent yn ei wneud yn berthnasol i'w hanghenion yn awr ac yn y dyfodol.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig symleiddio gweithdrefnau asesu a rhoi rôl bwysicach i asesu o ran cefnogi dysgu**. Mae asesu'n hanfodol ar gyfer dysgu effeithiol a chyflwyno gwybodaeth am gyflawniad mewn adroddiadau. Beirniadwyd y trefniadau asesu presennol gan lawer yn ystod yr Adolygiad ar y sail eu bod yn ddryslyd, yn rhy gymhleth ac yn drwm o dan ddylanwad y broses atebolrwydd. Mae'r Adolygiad yn argymell dull symlach o asesu o dan drefniadau sy'n rhoi blaenoriaeth i asesu gan athrawon ar gyfer cefnogi dilyniant wrth ddysgu.

Dylai asesu gael ei ysgogi gan ddealltwriaeth glir o'r gwahanol ffyrdd y mae'n gallu cyfrannu at ddysgu ac at adroddiadau cyfunol. Y cwestiynau allweddol i'w hateb ynghylch asesu yw: pwy sydd ag angen y gwahanol fathau o dystiolaeth am gynnydd a/neu ddeilliannau cyflawniad, at ba ddibenion ac erbyn pa bryd? Yr atebion i'r cwestiynau hyn fydd yn pennu pa ddulliau asesu sy'n addas. Yn benodol, mae ein cynigion yn gwahaniaethu rhwng dibenion sy'n ymwneud â helpu plant a phobl ifanc i wneud cynnydd wrth ddysgu a'r rheini sy'n ofynnol ar gyfer atebolrwydd. Mae'r ddau'n bwysig ond bydd amheuon yn codi ynghylch canlyniadau o'r ddau ddull os byddant yn cael eu cymysgu.

Rhaid cael tystiolaeth gadarn o asesiadau er mwyn cysoni dysgu a sicrhau gwell llif. Er mwyn asesu'n effeithiol, rhaid cael dealltwriaeth glir o'r hyn sydd i'w ddysgu a ffyrdd effeithiol ac effeithlon o gasglu tystiolaeth am gyflawniad, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio technoleg ddigidol. Dyma'r brif ffordd o ganfod y graddau y mae'r broses addysgu'n sicrhau'r cynnydd sy'n ddymunol yn y dysgu gan bob person ifanc. Drwy gynnwys plant a phobl ifanc yn fwy uniongyrchol yn y broses asesu, byddant yn cael eu hannog i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain ac yn meithrin eu gallu i barhau i ddysgu'n effeithiol ar ôl gadael yr ysgol.

**Mae'r Adolygiad yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith asesu a gwerthuso cyffredinol** yn unol â'r argymhelliad gan yr OECD.[82] Rhaid i'r fframwaith hwnnw ddiffinio'r gwahanol rolau sydd i'r prosesau asesu disgyblion a gwerthuso ysgolion a phennu'n glir y priod gyfraniadau drwy asesu gan athrawon a phrofion allanol, gan bwysleisio eu bod yn ategu ei gilydd. Rydym yn cynghori

[82] OECD (2013) *Synergies for Better Learning: An International Perspective on Evaluation and Assessment* OECD

yn erbyn dibynnu'n ormodol ar brofion allanol neu fewnol, sy'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei asesu ac yn methu ag adlewyrchu ehangder angenrheidiol y cwricwlwm. Er mwyn gallu asesu'r holl fathau o fwriadau ar gyfer dysgu drwy asesu gan athrawon, bydd yn rhaid cael ystod ehangach o dechnegau priodol nag a ddefnyddiwyd yn draddodiadol. Athrawon sydd yn y sefyllfa orau i asesu dysgu dwfn a chysylltiedig o'r math sydd wedi'i argymell, ond ni fydd hynny'n digwydd yn awtomatig a bydd yn galw am adnoddau a chymorth. Bydd angen sicrhau bod y trefniadau ar gyfer asesu, at ei gilydd, yn gymesur ac mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl ac na fyddant yn rhy fiwrocrataidd.

**Bydd angen rhaglen newid fawr dros gyfnod hir i roi argymhellion yr Adolygiad ar waith**. Er mwyn gweithredu'r argymhellion yn llwyddiannus, bydd angen strategaeth soffistigedig ar gyfer newid sy'n gosod cerrig milltir clir ac yn rhoi pob ystyriaeth i'r goblygiadau o ran capasiti'r system a chapasiti athrawon. Wrth gynnal yr Adolygiad, roeddem wedi datblygu set o egwyddorion ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, ac rydym wedi defnyddio'r rhain fel canllaw ac fel meini prawf. Yr egwyddorion hyn yw y bydd y cwricwlwm yn ddilys; wedi'i seilio ar dystiolaeth; yn ymatebol; yn gynhwysol; yn uchelgeisiol; yn rymusol; yn unedig; yn ddeniadol; wedi'i seilio ar sybsidiaredd; ac yn hylaw. Wrth symud ymlaen at ei weithredu, bydd yn bwysig sicrhau na fydd yr egwyddorion hyn yn cael eu tanseilio.

**Un o'r ffyrdd allweddol o sicrhau gweithredu llwyddiannus fydd cyfranogi eang mewn siapio a pherchenogi'r cwricwlwm newydd.** Bydd yn rhaid seilio'r broses datblygu ar ein gwaith ymgysylltu cychwynnol a sicrhau cyfranogi parhaus ac uniongyrchol, nid yn unig gan y proffesiwn addysgu ond hefyd gan yr ystod ehangach o unigolion a sefydliadau cysylltiedig sydd wedi cyfrannu i'n gwaith. Bydd angen cryn amser i ystyried yr holl agweddau ar argymhellion pellgyrhaeddol yr Adolygiad ac ymdrech barhaus i'w rhoi ar waith.

**Dylid crynhoi'r gwahanol agweddau ar gynigion yr Adolygiad mewn canllawiau cenedlaethol i ysgolion**. Er mwyn hyrwyddo ffordd gyson o ymhelaethu ar Feysydd Dysgu a Phrofiad, dylid ffurfio grwpiau arbenigol a fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar sail y meini prawf sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad hwn. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys ystyried y berthynas rhwng y cynnwys arfaethedig a'r dibenion cwricwlwm; egluro ei ffiniau a'i gwmpas; disgrifio'r profiadau a deilliannau angenrheidiol yn nhermau gwybodaeth, sgiliau ac anian; pennu ffyrdd o gynnwys elfennau allweddol o'r Cwricwlwm Cymreig, y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a'r sgiliau ehangach; esbonio dilyniant a diffinio Deilliannau Cyflawniad mewn Camau Cynnydd penodol; cynghori ar strategaethau addysgu a dysgu; a disgrifio sut y bydd asesu'n cyfrannu at y dysgu yn y maes hwnnw.

**Mae'r Adolygiad yn argymell bod Cymru'n cymhwyso egwyddor sybsidiaredd wrth ddatblygu'r cwricwlwm**. Un o ddaliadau'r Adolygiad yw ei bod yn ddymunol cynnwys ysgolion ac athrawon yn fwy uniongyrchol wrth lunio'r cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n cwrdd ag anghenion eu plant a'u pobl ifanc. Gan edrych tua'r dyfodol, bydd yn bwysig meithrin a hyrwyddo perchenogaeth

a chyfrifoldeb lleol o fewn fframwaith clir o ddisgwyliadau a chymorth sy'n cynnig y cyfarwyddyd angenrheidiol ac ymdeimlad o bwrpas cenedlaethol. Felly dylid gwneud defnydd cynnil o ddeddfwriaeth gan egluro'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â darparu cwricwlwm effeithiol a threfniadau asesu priodol.

**Mae goblygiadau mawr yn argymhellion yr Adolygiad o ran datblygiad proffesiynol athrawon ac ymarferwyr eraill**. Ymhlith y rhain mae'r angen i ymestyn capasiti athrawon yn y Gymraeg, mewn iechyd a lles, cymhwysedd digidol a chyfrifiadureg, yn ogystal â materion mwy cyffredinol fel cynllunio'r cwricwlwm ac asesu. Mae Bargen Newydd Llywodraeth Cymru i'r Gweithlu Addysg a'r adolygiad sy'n cael ei gynnal gan yr Athro John Furlong yn amserol iawn o ran ymateb i nifer o'r materion hyn ond bydd angen hefyd am weithredu mwy uniongyrchol i feithrin hyder a chapasiti athrawon ac arweinwyr ysgol wrth fwrw ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad.

**Mae'r Adolygiad yn argymell newidiadau sylfaenol mewn systemau atebolrwydd**. Gall systemau atebolrwydd fod yn fan gwan mewn ymdrechion i ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'r effeithiau anfwriadol o fesurau atebolrwydd gorfrwdfrydig yn gallu tanseilio bwriadau da. Bydd goblygiadau yng nghynigion yr Adolygiad ar gyfer atebolrwydd yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i osgoi'r effeithiau niweidiol o fesurau perfformiad sy'n rhoi gormod yn y fantol ar y cwricwlwm ac ar broffesiynoldeb athrawon. Rhaid anelu at sefydlu mecanweithiau atebolrwydd a fydd yn cyfrannu'n adeiladol at y dysgu gan blant a phobl ifanc ac yn canolbwyntio ar y dibenion cwricwlwm gan eu gweld yn nodau i'r dysgu hwnnw.

**Gyda'i gilydd, mae argymhellion yr Adolygiad yn ceisio darparu cwricwlwm a threfniadau asesu a fydd yn cwrdd ag anghenion a dyheadau pawb sydd â buddiant mewn addysg yng Nghymru**. Ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol, byddant yn gosod sail symlach a mwy cydlynol ar gyfer arfer eu sgiliau proffesiynol. Ar gyfer plant a phobl ifanc, maent yn ceisio creu profiad addysgol mwy symbylol ac ymestynnol a fydd yn eu helpu i ffynnu a llwyddo mewn byd sy'n gyffrous ond yn gofyn mwy ganddynt. Ar gyfer cyflogwyr, bydd yn helpu i ddarparu gweithwyr sydd wedi'u haddysgu'n dda ac sydd â'r sgiliau 'caled' a 'meddal' sy'n hanfodol yn y gweithle modern. A bydd rhieni a gofalwyr yn gallu cymryd rhan yn fwy uniongyrchol yn y dysgu gan eu plant, a chael gwybodaeth glir am eu cynnydd ar sail dibenion cwricwlwm sy'n hawdd eu deall.

**Yn olaf, er mwyn gweithredu'r cynigion, bydd angen arweinyddiaeth ragorol ac ymrwymedig ar bob lefel yn y system addysg**. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i sefydlu'r math o ddiwylliant cydweithredol sy'n nodweddiadol o systemau addysg sy'n ymgyrraedd at ragoriaeth. **Mae'r argymhellion yn yr Adolygiad hwn wedi'u gwneud er mwyn ategu'r ymrwymiad hwnnw a chreu dyfodol llwyddiannus a chyffrous i bobl ifanc Cymru**.

# Argymhellion

## Diffinio'r cwricwlwm

1. Dylai'r diffiniad o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru gynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu y mae'r ysgol yn eu cynllunio wrth geisio cyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt.

### Dibenion cwricwlwm

2. Dylai'r cwricwlwm ysgol gael ei gynllunio fel y bydd yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu mewn perthynas â dibenion clir a chytûn. Dylid llunio'r dibenion fel y gallant ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch y cwricwlwm, addysgeg ac asesu.
3. Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:
   - yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
   - yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
   - yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
   - yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

### Strwythur y cwricwlwm – ehangder

4. Dylai'r cwricwlwm i ddysgwyr 3–16 oed gael ei drefnu'n Feysydd Dysgu a Phrofiad sy'n pennu ehangder y cwricwlwm. Disgwylir y bydd y meysydd hyn yn cynnig cyd-destunau cyfoethog ar gyfer datblygu'r pedwar diben cwricwlwm, y byddant yn fewnol gydlynol, yn defnyddio ffyrdd neilltuol o feddwl, ac yn cynnwys craidd penodol o wybodaeth ddisgyblaethol neu gyfryngol.
5. Dylai'r cwricwlwm cenedlaethol newydd yng Nghymru gynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad: Celfyddydau mynegiannol; Iechyd a lles; Dyniaethau; Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; Mathemateg a rhifedd; a Gwyddoniaeth a thechnoleg.
6. Dylai dysgu gan blant a phobl ifanc gael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm drwy dri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r holl athrawon: llythrennedd; rhifedd; a chymhwysedd digidol.
7. Dylai fframwaith cymhwysedd digidol, ynghyd â dogfen 'Ar Drywydd Dysgu Cymhwysedd Digidol', gael eu datblygu a'u cynnwys fel Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd.

8. Dylai'r disgwyliadau ar gyfer y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach gael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
9. Dylai addysg grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, a dylai barhau'n ofyniad statudol yn y cwricwlwm o'r dosbarth derbyn ymlaen.

## Strwythur y cwricwlwm – dilyniant

### Camau Cynnydd

10. Dylai'r cwricwlwm cenedlaethol newydd gael ei drefnu ar ffurf continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed heb gyfnodau na chyfnodau allweddol.
11. Dylai dilyniant gael ei ddisgrifio mewn perthynas â chontinwwm dysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad o'r adeg y mae plentyn yn dechrau mewn ysgol hyd ddiwedd ei addysg statudol.
12. Dylai dilyniant gael ei ddangos drwy Gamau Cynnydd ar bum pwynt yn y continwwm dysgu sy'n cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.
13. Dylai ystyriaeth lawn gael ei rhoi wrth lunio'r Camau Cynnydd cyntaf i'r canllawiau ar gyfer *Ar Drywydd Dysgu*, a dylid adolygu'r canllawiau yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.
14. Dylai'r Camau Cynnydd fod yn bwyntiau cyfeirio sy'n darparu 'map ffyrdd' ar gyfer y cynnydd gan bob plentyn a pherson ifanc unigol wrth ddysgu ac nid yn ddisgwyliadau cyffredinol o ran y perfformiad gan yr holl blant a phobl ifanc ar bwyntiau penodol.
15. Dylai fod dyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm sy'n galluogi'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i gyrraedd neu fynd heibio i bob Cam Cynnydd o fewn y cyfnod perthnasol o tua thair blynedd.

### Deilliannau Cyflawniad

16. Dylai Deilliannau Cyflawniad gael eu llunio ar gyfer pob Cam Cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn cwmpasu'r cydrannau yn y Maes Dysgu a Phrofiad ac yn cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach.
17. Dylai Deilliannau Cyflawniad gyfrannu'n glir at gyflawni'r pedwar diben cwricwlwm a dylent roi pwyslais ar gyflawniad mewn ystyr eang, yn hytrach na mesur cyrhaeddiad mewn ffordd fwy cyfyng yn unig. Dylent gynnwys cyfeiriadau at brofiadau perthnasol sy'n cyfrannu at gyflawni dibenion cwricwlwm ac y dylai fod gan blant a phobl ifanc hawl i'w cael.

18. Dylai Deilliannau Cyflawniad gael eu disgrifio o safbwynt y dysgwr drwy gynnwys termau fel 'Rydw i wedi…' am brofiadau ac 'Rydw i'n gallu…' am ddeilliannau.
19. Dylai'r holl blant a phobl ifanc wneud cynnydd ar hyd yr un continwwm, heb ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, er y gallent gyrraedd a symud rhwng Camau Cynnydd yn arafach neu'n gyflymach nag eraill.
20. Dylai brîff clir gael ei baratoi ar gyfer llunio'r Deilliannau Cyflawniad yn unol â'r disgrifiad yn yr adroddiad hwn.

## Y Gymraeg

21. Dylai'r Gymraeg barhau'n orfodol hyd at 16 oed.
22. Dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar.
23. Dylai cynnydd yn y Gymraeg tuag at gymhwysedd rhyngweithredol yn 16 oed gael ei adlewyrchu'n briodol yn y Camau Cynnydd a Deilliannau Cyflawniad cysylltiedig.
24. Dylai'r gwerth y mae plant a phobl ifanc, athrawon, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd yn ei roi ar y Gymraeg gael ei hyrwyddo drwy ganolbwyntio'n fwy ar ei gwerth masnachol yn y farchnad swyddi, y manteision gwybyddol o ddwyieithrwydd sydd wedi'u hawgrymu a'i phwysigrwydd o ran galluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol a'r presennol.
25. Dylai buddsoddi a gwelliannau yn y ddarpariaeth ac mewn codi safonau ganolbwyntio ar gryfhau'r iaith mewn ysgolion cynradd er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu drwy'r Gymraeg ac ieithoedd eraill yn yr ysgol uwchradd. Bydd angen rhoi cymorth i ysgolion uwchradd hefyd i'w galluogi i wella ac addasu eu darpariaeth.
26. Dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg weithio fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg, er mwyn helpu athrawon ac ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
27. Dylai cysylltiadau systematig gael eu creu rhwng ysgolion ac asiantaethau allanol sy'n gallu rhoi cymorth ar gyfer addysgu, dysgu a darparu adnoddau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd tramor modern, gan gynnwys darparwyr addysg bellach ac uwch a Mentrau Iaith.
28. Dylai defnydd gwell a mwy creadigol o lawer gael ei wneud o dechnoleg wrth addysgu a dysgu Cymraeg yn ogystal ag ieithoedd tramor modern.
29. Dylai Llywodraeth Cymru ailalinio cymwysterau iaith Gymraeg yn 16 oed â'r pwyslais arfaethedig ar siarad a gwrando a defnyddio'r iaith yn y gweithle.

30. Dylai'r goblygiadau o ran gwella cymhwysedd yn y Gymraeg yn y gweithlu addysg gael eu trafod drwy'r Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg ac adolygiad yr Athro Furlong o addysg athrawon.

## Dewis

31. Rhwng 14 ac 16 oed, y dylai'r holl bobl ifanc ddewis cyrsiau neu ymgymryd â gweithgareddau o bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan felly gynnal ehangder eu haddysg a chwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwyddoniaeth ac iechyd.

## Addysgeg

32. Dylai pob addysgu a dysgu anelu at gyflawni'r pedwar diben cwricwlwm.

33. Dylai athrawon ddilyn yr egwyddorion addysgegol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn wrth gynllunio eu dysgu ac addysgu, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n ymwneud yn uniongyrchol â'r dibenion cwricwlwm.

34. Dylai plant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu o arbenigedd a phrofiad o'r tu allan i'r ysgol.

## Asesu

35. Dylai'r trefniadau asesu sicrhau y bydd yr holl fwriadau a dilyniant pwysig o ran dysgu mewn perthynas â'r pedwar diben cwricwlwm yn cael eu hasesu mewn ffordd berthnasol a chymesur.

36. Dylai'r trefniadau asesu gael eu seilio ar y bwriadau a nodir yn y Deilliannau Cyflawniad ar bob Cam Cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

37. Dylai'r trefniadau ar gyfer asesu roi blaenoriaeth i'w rôl ffurfiannol mewn addysgu a dysgu.

38. Dylai amrywiaeth fawr o dechnegau asesu sydd wedi'u dewis ar sail meini prawf 'addas i'w diben', gael eu defnyddio i adlewyrchu ehangder y dibenion cwricwlwm.

39. Dylai asesu gan athrawon, sy'n caniatáu asesu ystod eang o ddysgu, barhau'n brif gyfrwng ar gyfer asesu cyn ymgeisio am gymwysterau.

40. Lle y mae bwriad i ddefnyddio canlyniadau asesu ar gyfer cymharu, dylai materion sy'n ymwneud â dibynadwyedd asesu gan athrawon gael eu datrys drwy gymedroli effeithiol; os mai asesu ar gyfer dysgu yw prif bwrpas yr asesu, bydd llai o angen i sicrhau dibynadwyedd rhwng ysgolion.

41. Dylai athrawon roi lle pwysig i brofion yn y trefniadau asesu cyffredinol ond dylid cydnabod cyfyngiadau profion o'r fath o ran cwmpasu'r holl fathau o ddysgu arfaethedig.

42. Mae profion allanol, safonedig yn rhoi gwybodaeth bwysig ar gyfer meincnodi a dylid eu defnyddio ar y cyd â phrofion ysgol ac asesu gan athrawon. Dylid eu defnyddio mor anaml â phosibl oherwydd eu heffaith ar y cwricwlwm ac addysgu a dysgu.

43. Dylai dulliau arloesol o asesu, gan gynnwys dulliau rhyngweithiol, gael eu datblygu, gan fanteisio ar y posibiliadau cynyddol mewn technoleg ddigidol.

44. Dylai hunanasesu ac asesu gan gyfoedion gael eu datblygu fel ffyrdd o annog plant a phobl ifanc i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

45. Dylai adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd wrth ddysgu gynnwys cyfraniadau gan eu plant mewn perthynas â'u cyflawniadau a'u dyheadau eu hunain.

46. Dylai adroddiadau cyfunol i rieni a gofalwyr gynnwys asesiadau cyfannol o gyflawniadau mewn perthynas â'r dibenion cwricwlwm, gan wneud defnydd o brofiad o'r tu allan i'r ystafell ddosbarth ffurfiol.

47. Dylai plant a phobl ifanc ddatblygu eu e-bortffolio eu hunain, gan gynnwys 'e-fathodynnau' o bosibl, i gofnodi cyflawniadau a phrofiadau allweddol.

48. Dylai adroddiadau cyfunol ar bwyntiau trosglwyddo allweddol gael eu hategu gan dystiolaeth mewn portffolios a thrafodaethau wyneb yn wyneb sy'n cynnwys y staff addysgu perthnasol.

49. Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau digidol i gael adborth yn gynt gan rieni a gofalwyr a'u cynnwys yn fwy uniongyrchol er mwyn cefnogi dysgu.

50. Dylai polisïau ac arferion lleol a chenedlaethol ar gyfer asesu gael eu cynllunio'n ofalus fel eu bod mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl, gan roi digon o wybodaeth yr un pryd i asesu cynnydd, ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen.

51. Dylai ysgolion wneud defnydd systematig o asesiadau o gynnydd gan athrawon, ynghyd â ffynonellau tystiolaeth eraill, i lywio eu hunanwerthusiad at ddibenion gwella ysgolion.

52. Dylai'r rhaglenni dysgu proffesiynol cychwynnol ac ar hyd gyrfa gynnwys elfennau sy'n meithrin capasiti athrawon i asesu'r holl ddibenion cwricwlwm a Deilliannau Cyflawniad.

53. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith asesu a gwerthuso cynhwysfawr i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## Y broses diwygio

54. Dylai'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig gael eu cyflwyno drwy strategaeth newid hyblyg a fydd yn sicrhau dealltwriaeth a chefnogaeth, yn pennu cyflymder addas ar gyfer eu cyflwyno, yn meithrin capasiti ac yn rheoli elfennau dibynnol, yn enwedig y trefniadau atebolrwydd.

55. Dylai trefniadau gwerthuso annibynnol gael eu sefydlu ar wahân i fonitro effeithiolrwydd y strwythur newid a'r trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm mewn cysylltiad â gwelliannau yn ansawdd dysgu a pherfformiad.

## Arwain a llywio

56. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythur hyd braich ar gyfer arwain a llywio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o ddydd i ddydd.

## Datblygu a manylu ar Feysydd Dysgu a Phrofiad

57. Dylai pob Maes Dysgu a Phrofiad gael ei ddatblygu'n unol â'r brîff yn yr adroddiad hwn er mwyn darparu canllawiau hylaw i ymarferwyr i'w helpu i gynllunio.

## Capasiti athrawon ac arweinwyr

58. Dylai rhaglen eang ac estynedig o ddysgu proffesiynol gael ei datblygu i sicrhau bod goblygiadau argymhellion yr Adolygiad o ran sgiliau a gwybodaeth athrawon ac ymarferwyr eraill yn cael eu hateb yn llawn.

59. Dylai goblygiadau tymor hwy yr Adolygiad o ran meithrin capasiti athrawon gael eu trafod yng nghyd-destun Bargen Newydd Llywodraeth Cymru i'r Gweithlu Addysg ac argymhellion yr Athro John Furlong ar addysg athrawon.

60. Dylai blaenoriaeth gael ei rhoi i feithrin yr ymrwymiad, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ymysg arweinwyr i sicrhau llwyddiant y diwygiadau arfaethedig.

## Capasiti'r system

61. Dylai'r goblygiadau sylweddol sydd ynghlwm wrth gynigion yr Adolygiad o safbwynt seilwaith addysgol cenedlaethol a lleol gael eu cydnabod yn llawn. Bydd angen i'r Adran Addysg a Sgiliau, y consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a phrifysgolion sefydlu mecanweithiau ar gyfer cydgysylltu a chydweithio sy'n cydnabod cyfrifoldebau a phriod gryfderau'r gwahanol sefydliadau hyn.

## Perchenogaeth genedlaethol a lleol

62. Dylai'r strategaeth newid sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad gymhwyso egwyddor sybsidiaredd, gan hybu perchenogaeth a chyfrifoldeb lleol o fewn fframwaith cenedlaethol o ddisgwyliadau a chymorth.

## Deddfwriaeth

63. Dylai'r egwyddor o gael cwricwlwm cenedlaethol i Gymru gael ei hailddatgan a dylai deddfwriaeth ddiffinio set eang o ddyletswyddau yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd manwl ynghylch cynnwys.
64. Lle bo angen, dylai gofynion penodol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu gael eu disgrifio mewn rheoliadau a chanllawiau, a dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Atebolrwydd

65. Dylai'r trefniadau atebolrwydd gael eu cryfhau a'u gwella mewn ffyrdd a fydd yn helpu i sefydlu'r trefniadau newydd a hybu gwelliant.
66. Dylai'r trefniadau atebolrwydd, a threfniadau arolygu yn benodol, werthuso a hybu llwyddiant o ran ymgorffori'r dibenion cwricwlwm yng ngwaith ysgolion o ddydd i ddydd ac yn y pen draw y deilliannau a gaiff eu cyflawni gan blant a phobl ifanc.
67. Dylai'r system ar gyfer categoreiddio ysgolion gael ei haddasu maes o law i adlewyrchu argymhellion yr Adolygiad hwn.
68. Ni ddylai Llywodraeth Cymru bellach gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol ond dylai fonitro perfformiad ar agweddau allweddol ar y cwricwlwm drwy brofion samplu blynyddol.

# Atodiad

## Yr Athro Graham Donaldson CB

Cyn ymuno ag Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi ym 1983, roedd Graham Donaldson wedi addysgu ar wahanol lefelau mewn ysgolion uwchradd yn yr Alban ac wedi gweithio ar lefel genedlaethol hefyd ar amrywiaeth o brosiectau cwricwlwm. Daeth yn bennaeth yr Arolygiaeth yn 2002 ac, yn rhinwedd ei swydd fel prif gynghorydd proffesiynol i Weinidogion yr Alban ar bolisi addysg, cymerodd ran flaenllaw yn rhaglen Llywodraeth yr Alban ar ddiwygio'r cwricwlwm, Curriculum for Excellence. Ar ôl ymddeol o'r Arolygiaeth Addysg, gofynnodd y llywodraeth iddo gynnal adolygiad personol o addysg athrawon yn yr Alban ac mae ei adroddiad, *Teaching Scotland's Future* (Llywodraeth yr Alban, 2011) wedi arwain at gyflwyno rhaglen weithredu sylweddol. Mae'n aelod o Bwyllgor Addysg Cymdeithas Frenhinol Caeredin ac yn Gyfarwyddwr ar Grŵp Goodison yn yr Alban. Mae wedi dod i gryn amlygrwydd yn rhyngwladol drwy ddarlithio mewn llawer man, gweithio fel arbenigwr rhyngwladol i'r OECD, cynghori llywodraethau a chyrff anllywodraethol ac arwain sefydliad rhyngwladol yr arolygiaethau fel ei Lywydd. Mae'n gweithio ar hyn o bryd fel Athro yng Nghanolfan Robert Owen ym Mhrifysgol Glasgow. Fe'i penodwyd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines yn Gydymaith Urdd y Baddon yn 2010.

## Tîm yr Adolygiad

Yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu o bob math, mae'r Athro Donaldson wedi cael cymorth gan y rhai canlynol.

### Cynghorwyr a secondiwyd i'r Adolygiad gan Estyn

**Sarah Morgan** (Cynghorydd Cynradd yr Adolygiad) – Mae Sarah Morgan wedi gweithio i Estyn fel un o Arolygwyr Ei Mawrhydi er 2009, ac wedi arolygu yn y sector cynradd, y sector addysg feithrin nas cynhelir, y sector annibynnol ac mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon yn Gymraeg a Saesneg. Cyn hynny, roedd wedi gweithio fel athrawes ddosbarth, dirprwy bennaeth a phennaeth am ddwy flynedd ar hugain yn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd hefyd wedi cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac athrofa hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn amrywiaeth o rolau arwain a hyfforddi. Cerddoriaeth a Chymraeg ail iaith yw'r pynciau y mae'n arbenigo ynddynt. Mae Sarah yn siarad Cymraeg.

**Nigel Vaughan** (Cynghorydd Uwchradd yr Adolygiad) – Bu Nigel Vaughan yn athro am gyfnod mewn ysgolion uwchradd ym Mhowys a Swydd Amwythig. Ar ôl hynny, ymgymerodd â swydd uwch-gynghorydd awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar y dyniaethau (hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol a gwrth-hiliaeth) ac addysg uwchradd. Daeth Nigel yn un o Arolygwyr Ei Mawrhydi ym 1991 ac mae wedi arolygu ym maes y blynyddoedd cynnar, addysg gynradd,

addysg uwchradd, addysg bellach, awdurdodau lleol a hyfforddiant cychwynnol athrawon. Roedd Nigel yn arolygydd uwchradd arweiniol am gyfnod nes iddo ymddeol yn 2012. O hynny ymlaen, mae wedi'i gyflogi'n rhan-amser gan Estyn.

## Cynghorwyr allanol

**Claire Armitstead** – Pennaeth, Ysgol Uwchradd y Rhyl, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.

**Owain ap Dafydd** – Pennaeth, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**Kevin Tansley** – Pennaeth, Ysgol Tŷ Gwyn, ysgol arbennig.

## Tîm y gwasanaeth sifil

**Kerry Davies** – Ysgrifennydd Dyddiadur i'r Athro Donaldson.

**Denize Morris** – Cynghorydd Cwricwlwm i'r Adolygiad.

**Megan Powell** – Rheolwr Prosiect.

Arweinydd y tîm hwn oedd **Jo Trott**.